



This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

### **Usage guidelines**

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

- + *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.
- + *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.
- + *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.
- + *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

### **About Google Book Search**


Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at <http://books.google.com/>

3 3433 06823668 0




























Yr eiðoch yn gywir,  
J. S. Thomas  
(Ffainidog y Belyddog)

# DYLANWAD CYMDEITHASOL

## CRISTIONOGAETH.

---

TRAETHAWD BUDDUGOL YN EISTEDDFOD Y GOR-  
LLEWIN, YN RACINE, WIS., YN 1881.

---

GAN Y PARCH. DAVID S. THOMAS. X

---


“Nid gwaeth y gwir er ei chwilio.”—*Diareb*.  
“Pryn y gwir, ac na werth.”—*Solomon*.  
“Ond y gras a'r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist.”—*Ioan*.  
“O herwydd pahan, wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch  
hwynt.”—*Iesu Grist*.

---

UTICA, N. Y.

T. J. GRIFFITHS, ARGRAFFYDD, 131 GENESEE ST.

1883.



I'R PARCH. H. O. ROWLANDS, A. M.,

AM EI WASANAETH CAREDIG I SICRHAU I MI DDERBYNIAD FEL MYFYRIWR I  
BRIF ATHROFA MADISON, HAMILTON, N. Y., I DDERBYN ADDYSG  
BAROTOAWL I'R WEINIDOGAETH EFENGYLAIDD; AC

I BWYLLGOR EISTEDDFOD Y GORLLEWIN YN 1881,

AM DDYCHWELYD Y TRAETHAWD I MI YN RHAD, I'R DYBEN IDDO GAEL MYNED-  
IAD AT Y WERIN, YN HYTRACH NA GORWEDD YN EU COPFRAU,  
FEL Y MAE ARFER RHAI; AC

I HOLL GEFNOGWYR LLENYDDIAETH GYMREIG,

A CHWENYCHANT CHWILIO AM Y GWIR,

Y CYFLWYNIR

Y GWAITH HWN AT EU GWASANAETH AC I'W NAWDD, GAN EU  
HEWYLLYSIWR DA, YN OSTYNGEDIG,

YR AWDWB.



## AT Y DARLLENYDD.

### ANWYL DDARLLENYDD :

Dymunaf i ti sylwi ar y pethau canlynol fel cyfarwyddyd i ddeall y llyfr bychan hwn.

**HANES Y TRAETHAWD.**—Yn y flwyddyn 1881, yr oedd yr awdwr yn byw yn St. Clair, Pa., ac yn fugail ar eglwys y Bedyddwyr yno. Yn gynar yn y flwyddyn hono cyhoeddodd “Pwyllgor Eisteddfod y Gorllewin” hysbysiad am eu Heisteddfod flynyddol, yr hon oedd i'w chynnal ar Nadolig y flwyddyn hono, yn Racine, Wis. Syrthiodd yr awdwr ar urwaith mewn cariad & thestyn y prif draethawd—“Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth,” a phenderfynodd wneyd ei oreu i gyfansoddi arno. Felly y bu. Gwnaeth ei oreu; casglodd ddefnyddiau o bob cyfeiriad posibl iddo; defnyddiodd yr oll at ei waith. Gorphenodd ei draethawd yn brydlawn, ac anfonodd ef i'r gystadleuaeth; ac anrhydeddodd y beirniad ei gyfansoddiad a'r gair BUDDUGOL; ac fel canlyniad, anfonodd yr Ysgrifenydd Gohebol, Mr. T. D. Howells, y wobr, (\$20), i'r awdwr. Wedi i'r feirniadaeth ar y traethodau ymddangos yn y *Wasg*, ac i'r awdwr ddarllen tystiolaeth a deisyfiad y beirniad parth y traethawd buddugol, teimlai awydd am i gais Mr. Ellis gael ei sylweddoli. Felly yn mhen rhyw wyth mis wedi cynaliad yr Eisteddfod anfonodd yr awdwr gais at y Pwyllgor am iddynt gyhoeddi y traethawd neu ei ddychwelyd iddo ef; a buont mor garedig a chaniatau i'r awdwr ei hun i'w gyhoeddi, a dychwelasant ef yn rhad ac am ddim.

**NATUR AC AMCAN Y TRAETHAWD.**—Nid yw yr awdwr yn honi fod y cyfansoddiad yn wreiddiol yn yr ystyr o *greu*. Ond hona ei fod, o ran cynllun a gweithiad allan, yn wreiddiol. Aeth i'r chwarelau i godi defnyddiau, cludodd hwynt adref, cabolodd hwynt yn briodol, a chysylltodd hwynt a'u gilydd yn adeilad, goreu byth y medrodd ei ddeall ei wneyd. Ni chreodd ffeithiau, eithr casglodd lawer o ffeithiau at eu gilydd, a chysylltodd hwynt yn y fath fodd fel ag i ddadblygu ffeithiau pwysig eraill i bryferthu a chadarnhau yr adeiladwaith. Dyfynwyd yn helaeth o weithiau awduron hen a diweddar. Nid yw yr awdwr wedi gadael gosodiadau i ymddibynu ar ei farn ei hun yn unig; eithr dygodd amrywiol bersonau o wahanol dybiau crefyddol i dystio ar y materion dan sylw, ac i ategu ei osodiadau.

AMCAN y traethawd ydyw gosod allan yr hyn sydd yn *Gristionogaeth mewn gwirionedd*, rhagor yr hyn a *gymerir* gan lawer yn *gania-*

842/11, *Imman*

*taol ei bod*; a'r hyn y mae wedi wneyd, a'r hyn a wna bob amser i'r gymdeithas ddydol ar y ddaear—ei helfenau a'i dylanwad ar wahanol a holl gysylltiadau dynion a'u gilydd yn y byd sydd yr awr hon. Dymunir i'r darlennydd ddarllen yn ystyriol, gan wahaniaethu rhwng tybiau a ffeithiau, a rhwng haeriadau a phroffion. Barner farn gyfiawn.

YR AWDWR A'R BEIRNIAD.—Dymunir hefyd ar y darlennydd gofio mai cyfansoddiad *Eisteddfodol* ydyw hwn. Mae hyn yn cyfrif am fod yr awdwr wedi ymgadw rhag myned mor bell ag y dymunai gyda rhai materion. Nis gallasai newid y testyn, ac yr oedd yn rhaid iddo gyfyngu ei hun at y testyn, onide buasai allan o'r gystadleuaeth. Hefyd gorfu iddo ymgadw rhag ymhelaethu gormod, gan y buasai hyn yn myned yn faich rhy drwm mewn cystadleuaeth. Mae yr awdwr yn Fedyddiwr a'r beirniad yn Fethodist. Maent yn *ddyethriaid i'w gilydd*. Cyflawnodd yr awdwr ei waith yn hollol wrtho ei hun. Ni welodd llygad un dyn arall y traethawd o'r dydd y dechreuwyd ef hyd nes iddo fyned i'r gystadleuaeth; ac ni wyddai neb ond y Parch. D. Rhoslyn Davies fod yr awdwr yn cystadlu o gwbl, ac ni wyddai ef na neb arall pwy oedd "Credadyn" hyd nes y torwyd y sêl oddiar enw priodol yr awdwr wedi cyhoeddi "Credadyn" yn fuddugol. O ganlyniad, yr oedd yn anmhosibl i'r beirniad, pe yn ewyllysio, ddangos ffafr at yr awdwr fel *person*. A phe buasai yn gwybod pwy oedd "Credadyn," nid oedd dim yn y person i'w gymell i wyro barn yn ei ffafr. Mae yn briodol i'r darlennydd gael gwybod y pethau hyn, gan fod beirniaid yn cael eu cyhuddo weithiau o ddangos gormod o gyfeillgarwch personol yn nghyfraniad y gwobrau. Yn awr, os ydyw cynal Eisteddfodau yn fuddiol, ac yn haeddu cefnogaeth y Cymry, dylid gosod pwys a gwerth mawr ar dystiolaeth y beirniad. Ac nid yw y dyn nad yw y genedl yn meddu ymddiried yn ei farn yn gyfaddas i fod yn feirniad eisteddfodol. Dylai yr Eisteddfod gyfoethogi ein llenyddiaeth, a dylai y werin fod yn barod i roesawu y cyfansoddiad a gymerndwyir iddynt o lys yr Eisteddfod. Ac am hyn, ac i wneyd prawf teg o safon llys yr Eisteddfod yn marn ein cenedl, yr ymglymerwyd a'r anturiaeth o gario allan gyngor beirniad y traethodau yn Eisteddfod y Gorllewin, 1881. Yn awr cyflwynir i'r darlennydd y feirniadaeth fel yr argraffwyd hi yn y *Wasg* am Ohwefror 11, 1882.

## “Y FEIRNIADAETH.

EISTEDDFOD Y GORLLEWIN, 1881.

BEIRNIADAETH Y PARCH. M. A. ELLIS, A. M., AR Y TRAETHAWD,  
“DYLANWAD CYMDEITHASOL CRISTIONOGAETH.”

*At Foneddigion y Cyfeisteddfod*:—Daeth pedwar traethawd i'n llaw ar y testyn, “Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth,” y rhai a arddelir gan y ffugenwau, Un yn ei Phroffesu, Magedon, Blucher, a Credadyn. Ac ar amryw ystyriaethau adlewyrchant oll yn dra ffafriol ar eu hawdwy'r ac ar Eisteddfod y Gorllewin. Ni raid cywilyddio o'u dal yn gyfochrog â chynyrchion unrhyw Eisteddfod yn ystod yr ugain mlynedd diweddfaf yn y T. U. Ond tra yn dyweyd hyn mewn ystyr gyffredinol, eto golygwn fod ynddynt eu diffygion yn gystal a'u rhagoriaethau mewn ystyr arall fwy neillduol. Canmolwn y Cyfeisteddfod am ei chwaeth a'i farn yn newisiad y testyn hwn, a chyingorwn ef i gyhoeddi y traethawd buddugol yn llyfr mor fuan ag y gallo. Mae ei angen ar yr oes Gymreig hon, a byddai yn golled fawr iddi fod hebddo. Byddai yn llyfr i'r amserau, yn gystal a thâl a chlod i Eisteddfod y Gorllewin am fod yn foddion i symblu yr awdwr, pwy bynag ydyw, i'w gyfansoddi. Nid ydym yn cofio i ni ddarllen dim mewn cystadleuaeth erioed roddes fwy o foddlonrwydd i'n meddwl na'r traethawd yr ydym yn awr yn cyfeirio ato. (Gadewir y sylwadau ar y traethodau eraill, gan na pherthynant i'r llyfr hwn.—D. S. T.) “Credadyn:” yma un o'r traethodau goreu a ddarllenasom erioed mewn cystadleuaeth. Egyr yr awdwr ei fater yn oleu a dwfn, treiddiol a gorchestol. Treigla wahanol eiriau y testyn i'w gwreiddiau, gan ddwyn i'r golwg felly y rhedweliau yr & yr ystyr ar hyd ddynt. Trychwala yr oll i'w helpenau cyfansoddol; a dengys yn eglur fel yr ymweithia yr elfenau hyny eilwaith ar a thirw gymdeithas yn ei gwahanol berthynasau. Y mae yr awdwr yn cario y darlennydd gydag ef o'r dechreu i'r diwedd, gan ddangos iddo Ddylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth, nes ei synu & mawredd Dwyfol yn ymwneyd a dyn fel aelod cymdeithas. Nid ydym wedi gwled dim eto yn y Gymraeg sydd yn ateb gwrthddadleuon ac awgrymiadau dirmygus a chabledus Ingersoll ac eraill mor ysgubellog a gorchfygol a'r traethawd hwn. Y mae hefyd yn rhagorol mewn orgraff, ieithwedd, cystrawen, ac atalnodiant. Yr unig beth, dybygwn, a boenai yr awdwr ydoedd yr ebychnod “h.” Syndod fod y peth bach gwael hwn yn gorchfygu cawr o gyfansoddwr fel “Credadyn!” Yr ydym droion bellach yn ein beirniadaethau, wedi rhoddi cyfarwyddiadau difeth tuag at iawn ddefnyddio yr “h.” Nid ydym, gan hyny, yn credu y byddai yn fuddiol ymbelaethu ar hyn yn awr. Sonia “Credad-

yn" mewn un man am "greadur meidrol" A oes creadur anfeidrol? I ba beth ynta, y cysylltir "meidrol" â gwrthddrych nad yw, ac nas gall byth fod ond meidrol? Priodol fyddai dyweyd ac ysgrifenu bôd meidrol am fod Bôd Anfeidrol. Haner gair yn ddigon i gall fel "Credadyn." Galwn sylw "Credadyn" hefyd at y defnydd a wna o'r ddau arddodyn "trwy" ac "yn" yn yr adnod hono, "Duw, wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau trwy y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni yn ei Fab." Edryched "Credadyn" i'r copi gwreiddiol a chenfydd mai yr un gair a gyfieithir yn "trwy" ac "yn." "Yn" ddylasai ddefnyddio o flaen y "prophwydi" fel o flaen y "Mab." Ac felly hefyd y gwneir yn y cyfieithiad Seisnig diwygiedig. Tybiodd y cyfieithwyr Cymreig fod yn angenrheidiol gosod allan gyferbyniad rhagoriaethol yn y cyfieithiad; am hyny, ysgrifenasant "trwy y prophwydi," ond "yn ei Fab." Felly hefyd "Credadyn" yn y traethawd campus hwn.

Yn awr, yr ydym, heb ddim petrusder, yn dyfarnu traethawd "Credadyn" y goreu yn y gystadleuaeth hon. Y maent cll yn dda; ond yn sicr, dyma y goreu. Haeddasai y wobr pe buasai yn ddau can' dolar. Ac fel yr awgrymasom yn barod, y carem yn fawr weled y gwaith penigamp hwn wedi ei argraffu; gwnai lyfryn dros 200 o dudalenau deuddeg-plyg. Y mae yr oes mewn angen am dano; a chredym y canmolir Eisteddfod y Gorllewin gan filoedd am achlysuru ei gyfansoddiad, a' anrhegu y cyhoedd ag ef. Hyn ar air a chydwybod, gan yr eiddoch yn wir,

M. A. ELLIS."

Felly, wele yr awgrymiad blaenorol o eiddo y beirniad wedi cael ei ddwyn i weithrediad. Mae traethawd "Credadyn" yn awr yn llyfr yn dy law. Gobeithio y cyflawnir prophwydoliaeth y beirniad parth derbynriad y llyfr gan y cyhoedd.

Cywirwyd y gwallau orgraffyddol a nodid gan y beirniad. Gyda hyn o eithriad, mae y gwaith mewn *print*, fel yr oedd mewn ysgrifen yn y gystadleuaeth. Bwriadwyd ychwanegu ato nodiadau, ond barnwyd yn fwy priodol i'w anfon allan heb osod ato na thynu oddiwrtho yr un frawddeg.

Yn awr, gyda theimladau diolchgar i'r Pwyllgor am ddychwel-yd y traethawd i mi, yr wyt yn ymatal, gan adael y llyfr cyntaf-anedig hwn i wneyd ei oreu yn nerth gwirionedd i oleuo dy ben a chysuro dy galon. Ac os bydd darllen y llyfr hwn yn foddion i gadarnhau rhyw un sigledig yn y ffydd, a lloni rhyw un pryderus ac ofnus parth dyfodol llwyddianus Cristionogaeth, gall y pwyllgor, y beirniad, a'r awdwr, gyd-lawenhau a'r darllenydd hwnaw, a bod yn ddedwydd yn y weithred o gyflwyno y rhodd lenyddol fechan hon i'r cyhoedd.

Yr eiddoch yn ostyngedig. yr awdwr,

D. S. THOMAS.

Shenandoah, Pa., Chwefror 23, 1883.

# CYNWYSIAD.

---

## RHAN I.—Y SYLFAEN.

	Tu dal.
Rhaglith .....	9
PENNOD I.	
Eglurhadaeth .....	11
PENNOD II.	
Elfenau Dylanwad Cristionogaeth .....	19
PENNOD III.	
Natur Gymdeithasol Cristionogaeth .....	50
PENNOD IV.	
Y Teulu Cristionogol .....	57

## RHAN II.—YR ADEILAD.

Arweiniad .....	74
PENNOD V.	
Cymdeithas yn y Gorphenol, a Chymdeithas yn y Presenol .	76
DOSBRAN I.—Crefydd, Moesoldeb, a Gwybodaeth .....	76
DOSBRAN II.—Gwladlywiaeth a Chynydd Gwladol .....	86
DOSBRAN III.—Cyd-genedlaetholdeb .....	102
DOSBRAN IV.—Manteision y Gorphenol .....	105
PENNOD VI.	
Crynhoad o Ffeithiau a'u Hawgrymiadau .....	110
PENNOD VII.	
Ail-ymweliad a Maes y Testyn .....	127
Y Mynedol a'r Presenol .....	127
Caethwasiaeth a Christionogaeth .....	133

Cyfnewidiadau Cymdeithasol.....	136
Sandwich Islands.....	138
Y Feejee Islands.....	139
Fiji.....	140
Madagascar.....	141
Y Rhyw Fenywaidd, Cartref, a Chymdeithas.....	142
Llwyddiant a Chynydd Gwladol.....	147
Cyflwr Ewrop.....	147
Prydain a'r Anglo-Saxons.....	149
Ai Cristionogaeth sydd yn deilwng o'r Clod?.....	155
Gwyddoniaeth a Christionogaeth.....	162
Y Dylanwadau Gwrthwynebol.—Paganiaeth Gyntefig.....	172
Paganiaeth Bresenol.....	174
China a Confucius.....	176
Cymdeithas yn China.....	180
Mahometaniaeth a Christionogaeth.....	183
Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth.....	186
Hirhoedledd a Phrotestaniaeth.....	192
Cynydd Cristionogaeth.....	194

## PENNOD VIII.

Y modd y mae Dadblygu Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth.....	202
-----------------------------------------------------------------	-----

# DYLANWAD CYMDEITHASOL

## CRISTIONOGAETH.

---

### RHAN I.—Y SYLFAEN.

#### *Rhaglith.*

Nid yw ffurf geiriad testyn y traethawd hwn yn egluro, ar yr olwg gyntaf arno, pa un ai dylanwad Cristionogaeth fel cymdeithas, neu ddylanwad Cristionogaeth fel cyfundrefn grefyddol ar gymdeithas, a olygir. Mae cymdeithasau lawer yn Gristionogol eu haelodau a'u hamcanion; ac y mae dylanwad mawr gan y grefydd Gristionogol ar gymdeithas. Ond gellir casglu oddiwrth natur pethau, mai dylanwad Cristionogaeth ar gymdeithas, yw y syniad y dymuna y pwyllgor i'r cystadleuwyr ymdrin ag ef yn benaf. Mae y testyn yn wir bwysig, a buddiol iawn yn ngwyneb cyflwr a thuedd feddylgar yr oes hon; mae ynddo amcan i gael allan y gwirionedd ac i gywiro un o'r cyfeiliornadau mwyaf peryglus i gymdeithas yn y dyddiau presenol, parth cysylltiad

y grefydd Ddwyfol a chynydd moesoldeb, dysgeidiaeth, a gwareiddiad y cyfnod Cristionogol. Mae anwybodaeth o'r gorphenol yn rhwystr i ddeall gwerth y presenol; ac y mae cam-ddeall Cristionogaeth yn arwain yr anystyriol i gam-farnu ei dylanwad ar, a'i gwasanaeth i'r byd. Ymdrechir yn y traethawd hwn i gyfleu ffeithiau hanesyddol, a barnau personau teilwng o gael eu credu gan bawb, ar gyfrif eu cywirdeb, eu dysgeidiaeth, a'u profiad. Rhaid deall y pwnc cyn y gellir ymgymeryd a'i egluro yn iawn; dyma sylfaen safadwy pob cyfansoddiad ag sydd yn werth ei ddarllen yn ystyriol. Ceisir deall geiriau ein testyn a'u cysylltiadau a'u gilydd, cyn dechreu adeiladu, a dymunwn i'n heglurhadaeth ar y testyn gael ei gymeryd yn faen prawf i brofi cysondeb ein hymdriniaeth a'r testyn.



## PENNOD I.

*Eglwrhadaeth.*

“Cristionogaeth” ydyw prif air ein testyn; ac y mae o bwys neillduol i ddeall beth y mae yn olygu. Gan y bydd pennod arall yn ymdrin a'r gair hwn, bydd ychydig nodiadau arno yn ddigonol yma. Crist yw gwraidd y gair hwn; ac y mae ei wreiddyn yn gyfystyr â'r gair Cymreig, Eneiniog; cyfeiria at yr hwn y mynegwyd am dano gan brophwydi yr hen oruchwyliaeth fel Gwardwr Israel, y Messiah, ac a anfonwyd gan y Tad i'r byd yn nghyflawnder yr amser, yn athraw, yn esiampl, ac yn iawn dros bechod; ac wedi gorphen ei waith personol ar y ddaear, a gymerwyd yn ol i'r nefoedd, yn eiriolwr ar ddeheulaw Duw yn y goruwchleoedd. Cristionogaeth ydyw y grefydd ddwyfol yn yr hanfod a'r ffurf ag y ddblygwyd hi gan Iesu Grist, ynddo a thrwyddo ei hun, ei apostolion, a'i Ysbryd; yr holl egwyddorion parth y mewdol a'r allanol o'r dyn, y tymorol a'r tragwyddol o'r creadur a wnaed yn “enaid byw;” y gwybodus a'r annealledig o'r byd ysbrydol; y gweledig a'r anweladwy o Dduw

—y cyfan o'r cyflawnder golud gras a gwybodaeth a geir yn nysgeidiaeth y dyn Crist Iesu, ac a gynwysir yn y Testament Newydd. Hyn, dim mwy a dim llai, yw Cristionogaeth. "Dylanwad" yw y gair nesaf ei bwysigrwydd yn y testyn. Dylanwad Cristionogaeth.

Dylanwad—"Dy" a "llanwad." Mae y rhagddawd "dy" yn dwyseiddio ystyr geiriau. Y mae llanwad yn deilliaw o llanw neu lanw, a'r terfyniad "ad," yn dangos fod y llanw wedi neu yn cymeryd lle. Y mae dylanwad, felly, yn golygu yr effaith a ddeillia oddiwrth fod un peth yn cynwys rhyw beth arall, a bod bodolaeth hwnw ynddo yn achos o'r effaith a elwir yn ddylanwad y weithred o roi y naill yn y llall. Y mae dylanwad yn gweithio yr hyn y mae ynddo, neu arno, i'w ffordd ef ei hun—llanwad i'r graddau nes llywodraethu, i raddau, yr hyn a lanwyd—llanwad wedi ei ddwyseiddio, nes mynu ei ffordd ei hun. "Dy, denoting force and iteration, and sometimes, continuance of action."—*Spurrell*.

Cyfieitha Spurrell "dylanwad" o'r gair "influence." A chyfieitha Caerfallwch "influence" yn dylanwad, cyffrawd, effeithiad, effeithiol-aeth; ac mewn ystyr ferfol, dylenwi, gogwyddo, tueddu, ac effeithio. Rhydd Webster yr eglurhad canlynol:

“Influence, in general, the bringing about of an effect, physical or moral, by a gradual, unobserved, and easy process; controlling power quietly o’r efficaciously exerted; ability to move or effect; tendency to produce a change or effect; agency, force, or tendency of any kind, whether physical on matter, or rational on the intellect, emotional on the feeling, hyperphysical, as of the stars, supernatural, as of God or the Divine Spirit.”—*Unab. Dict.*

Y mae “*Influence*” yn dod o ddau air Lladin, “in” a “flux,” rhediad i fewn. Yr un gwraidd sydd i’r gair *afon* yn Lladin. Y darlun, felly, a gyfleir gan *influence*, ydyw fod rhyw beth yn llifo neu wedi llifo i mewn i beth arall nes ei lenwi a chymeryd meddiant llywodraethol arno. Dyna feddwl y gair dylanwad hefyd o ran ei ffurfiad. Felly wrth ddylanwad Cristionogaeth rhaid i ni ddeall yr effaith a gynyrchodd neu a gynyrcha pa le bynag y bu, neu y daw i gysylltiad â dyn. Y mae yr eglurhadaeth yma ar y gair dylanwad yn naturiol yn arwain y meddwl hyddysg yn y Beibl at ddarluniad y prophwyd Ezeziel o Gristionogaeth, pan y mae yn son am y dwfr yn dod allan odditan riniog y ty, yn disgyn o du deheu i’r allor, yn ffrwd gynyddol, yn myned yn fwy

fwy o hyd wrth fyned yn mlaen, ac “yn codi yn ddyfroedd nofiadwy,” yn afon na ellid myned drwyddi; “yn peri tyfiant coedydd ar ei glanau, a bywyd ac iechyd pa le bynag yr oedd yn llifo.” (Pen. 47: 1, &c.)

Hefyd yr addewid drwy y prophwyd Zechariah (14: 8), am y “dyfroedd bywiol yn dod allan o Jerusalem.” Ac hefyd am eiriau gweledigaeth Ioan: “Ac efe a ddangosodd i mi afon bur o ddwfr y bywyd, dysglaer fel y grisial, yn dyfod allan o orseddfainc Duw a'r Oen.” (Dat. 22. 1.)

Cristionogaeth yw yr afon yna, yn tarddu o ffynonell ddwyfol, yn llifo allan drwy y byd dynol, i blith pob llwyth a phobl, yn llanw y ddaear a'i dylanwad iachus a bywiol. Effaith dylifiad yr afon ddwyfol hon yw yr hyn a feddylir wrth ddylanwad Cristionogaeth. Effaith achosedig gan yr efengyl.

“Cymdeithasol” yw y gair nesaf, a'r unig air sydd heb ei egluro yn ein testyn. Neillduoli y gair dylanwad y mae y gair hwn. Gwneir ef i fyny o ddau air; “cym,” gyda, a “teithio;” gol- yga rifer amhenodol yn teithio gyda eu gil- ydd, yn cyd-deithio yr un ffordd. Ond a gadael y ffigyr allan, a chymeryd gair arall cyfystyr i fewn, cydweithredu yw ei feddwl. Y mae ael-

odau o'r un gymdeithas yn proffesu eu bod o ran y meddwl, y teimlad, neu yr amcan, yn myned yn mlaen ar hyd yr un llwybr. Y mae, felly, yn y gair hwn gyfeiriad at gysylltiad neu gysylltiadau personau a'u gilydd. Cyfieithir y gair "Cymdeithasol" o'r gair "Social" yn Saesneg. Deillia "social," o *socius*—cydymaith. O ganlyniad awgryma duedd neu gymwysder i ymuno, neu uniad rhwng personau. Gan hyny, gwelir mai y drychfeddwl yn y gair cymdeithasol yw, y cysylltiad a fodola rhwng gwrthddrychau a'u gilydd. Mae gan y Saeson eu *sociology*, yn deillio o *socius*—cydymaith; ac o "socio," uno neu gysylltu, a "logos," ymadrodd neu draethiad. Felly y mae y gair Cymdeithasol, o ran ei darddiad, ei ffurfiad, a'i ystyr gyfyngol a mwyaf priodol, yn arwyddo athroniaeth cysylltiadau dynol, ac yn cynwys pob peth a berthyn i ddyn fel person yn ymwneyd a dyn arall. Eglur yw gan hyny, fod Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn golygu ei dylanwad ar ddynion yn eu cysylltiadau a'u symudiadau meddyliol, dymuniadol, a chorporol yn y byd. Nid yn unig y mae dynion yn greaduriaid cymdeithasol eu natur, ond hefyd y mae eu cyflwr yn y byd yn eu gorfodi i fod yn gymdeithasol yn weith-

redol. Y mae Guizot yn ei "History of Civilization," yn dyweyd, "Cymdeithas, yn ei hystyr helaethaf a mwyaf syml, yw y berthynas sydd yn uno dyn wrth ddyn." Cyfrol 4, tu dal. 104.

Rhydd awdwr diweddar yr eglurhadaeth yma: "Christian Sociology may, therefore, be defined as the science of Christian society, or as the science of that society which is controlled by Christian principles."

Diamheu yn awr fod meddwl y testyn yn ddigon eglur; y pwnc yn eithaf amlwg, fel nad oes eisiau ychwanegu, ond yn unig dyweyd mai ein hymholiad yw, Beth yw yr effaith a garia y grefydd Gristionogol ar ddynion yn eu gwahanol gysylltiadau â'u gilydd yn y byd presenol—y modd y tuedda y grefydd Gristionogol y naill ddyn i ymddwyn tuag at y llall; a'r hyn y mae wedi wneyd eisioes yn y byd, a'r hyn a wna yn y dyfodol, pa le bynag y bydd—y canlyniad o'r Emmanuel—o ym-gnawdoliad y Gair tragwyddol, mor bell ag y mae a fyno dynoliaeth â dynoliaeth ar y ddaear. Bod dylanwad gan Gristionogaeth, sydd eglur, bod y dylanwad hwnw yn effeithiol iawn, sydd anwadadwy i'r deallgar a'r ystyr-iol, a bod y dylanwad hwn yn llesol a ben-

dithiol, sydd wirionedd a ymdrechir ei ddangos yn y traethawd hwn. Nid amddiffyn dwyfoldeb yr Ysgrythyrau a Christionogaeth yw amcan y gwaith hwn, ond nis gellir llai nag ymholi a ydyw y brawddegau canlynol o eiddo Col. R. Ingersoll yn wirionedd: "Afraid yw chwilio i'r achosion a arweiniasant gynifer o bobl i gredu yn ysbrydoliaeth yr Ysgrythyrau. I'm meddwl i, yr oeddynt yn llawer a chyfeiliornus; ac y mae y cyfeiliornad, mewn myrdd o ffyrdd, wedi rhwystro gwareiddiad dyn. Y mae y Beibl wedi bod yn dwr ac amddiffynfa i bob trosedd braidd." Y mae Mr. Ingersoll yn cyhuddo Duw o ddysgu amlwericiaeth, caethwasiaeth, llofruddiaeth "a'r trechaf treisied" mewn rhyfel, i lwyr ddyfetha y gwan. Bod y pethau atgas yna mewn arferiad i raddau yn mhlith y genedl Iuddewig sydd wirionedd; ond nid y Datguddiad Dwyfol ddysgodd y pethau hyn iddynt. Mae hyn yn eglur, yn ol cyfaddefiad Mr. Ingersoll ei hunan, waeth dywed, "Y mae y cenedloedd a arferant y pethau hyn heddyw yn cael eu hystyried yn anwariaid." Ac yn mhellach cydnabydda Mr. Ingersoll, fôd y cenedloedd eilunaddolgar, y rhai na wyddent ddim am "Ddatguddiad Dwyfol," yn arferyd y pethau

hyn yn amser Moses a'r prophwydi. Felly, nid dylanwad y grefydd ddwyfol gynyrchodd y rhai hyn, er eu bod, drwy hir amynedd Duw, a'i anchwiliadwy ddoethineb, wedi cael eu caniatáu dros amser, ac ar wahanol amgylchiadau, i'r genedl Iuddewig. Eithr nid *cynyrch* meddwl a *dymuniad* calon yw *goddef-iadau* person. Gan fod y pethau yma yn gyffredin yn mhlith anwariaid anwybodus o Ddatguddiad Dwyfol, onid naturiol yw i ni briodoli eu bodolaeth i ddylanwad gallu a thuedd o'r un natur a hwy eu hunain, yn hytrach nag i Fôd o natur hollol wahanol iddynt? Onid oes deddf yn natur, fod pob peth yn cenedlu ei ryw? Os yw y ddeddf hon yn gywir, rhaid fod Duw yn ddrwg cyn y gallai gynyrchu drwg. Ond Duw *da* yw Duw Cristionogaeth, ac y mae yn rhaid i ni gymeryd Cristionogaeth yr hyn yw, a'i Duw ei hunan gyda hi, ac nid un Duw o nodwedd wahanol; felly nis gall fod yn dad i weithredoedd anghyfiawn a drwg. Ac y mae awdwr Cristionogaeth wedi rhoddi rheol wrth yr hon y dylid barnu pob peth, a rheol gyfiawn ydyw; "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Y mae y rheol hon i gael ei defnyddio genym wrth farnu Cristionogaeth.



## PENNOD II.

*Elfenau Dylanwad Cristionogaeth.*

Yr ydys yn deall pa ddylanwad a gynyrcha gwahanol ddefnyddiau ar bethau, drwy gael allan natur y pethau, a'r elfenau a gynwysir yn y defnyddiau eu hunain. Hyn ydyw safon cyfarwyddyd y fferyllydd, y lliwiwr, a'r meddyg, wrth gymysgu elfenau, darpariadau lliwiol, a chyfferi i amcanion penodol. A diamheu fod y Fferyllwr mawr, y Lliwiwr Dwyfol, a'r Meddyg anffaeledig, wedi gweithredu yn ol y rheol hon wrth roddi Cristionogaeth i'r byd: cynwysa yr elfenau angenrheidiol, sicr i gyrrhaedd yr amcan, i gynyrchu yr effaith, ac i gario y dylanwad bwriadedig ar ddynoliaeth. Mae llawer wedi ceisio cyfrif am ddechreuad Cristionogaeth, heb ganiatau cywirdeb yr hanes a geir yn y Testament Newydd. Ond y mae pob ymdrech anffyddol hyd yn hyd wedi methu boddloni y deall dynol, darbwylllo ewyllys y myfyrgar, ac argyhoeddi rheswm y diragfarn; cydnabydda hyd yn nod wadwyr yr Ysgrythyrau, nas gellir yn hawdd a chyson â hanes gyfrif am ddechreuad a dylanwad

Cristionogaeth heb gredu, i raddau, yr Efengylau.

Mae llawer afon a'i dechreuad yn guddiedig; ffrydia o'r mynydd neu o'r graig, daw allan yn ei nerth i olwg dyn, ar ol llifo yn danddaearol am bellder maith drwy ffordd anhysbys. Ond y mae y fferyllydd yn medru profi ei bod o'r môr, a deall natur y rhedweliau y treiglodd drwyddynt, drwy ddadansoddi ffrwd yr afon i gael allan yr elfenau a'i cyfansodda; ac y mae yn alluog i brophwydo pa fath ddylanwad a garia ar y tir a'r wlad y rhed drwyddynt. Mae cyflawnder a pharhad yr afon yn profi ei bod a'i ffynonell yn y môr, er nas gall deall a rheswm dyn ddilyn ei llwybrau yn ol i'w dechreuad. Felly yr afon fawr Gristionogol; gwelir hi yn dod allan o fynydd Duw, o Graig yr Oesoedd, Crist; Emmanuel yw ymddangosiad cyntaf yr afon i ddyn; y cuddiedig yn dod yn weledig. Mae cyflawnder didrai yr afon hon yn profi ei dyfodiad o'r môr Dwyfol; ac y mae yr athronydd crefyddol, wrth ddadansoddi y ffrwd, yn cael allan yr elfenau a gyfansoddant yr afon, a'r dylanwad tebygol a effeithia ar y byd. Er na ellir egluro ei threigle o'r dechreuad yn ol i'w ffynonell, ac amgyffred y dirgelwch o'i dyfodiad allan yn

Bethlehem, eto, y mae ei helfenau yn profi ei bod o'r môr Dwyfol, a natur y rhedweliau y daeth drwyddynt. Ac ar ol i ni gael allan yr elfenau hyn, bydd yn hawdd i ni farnu yn lled gywir, y dylanwad a garia yn y byd ar ei thaith yn mhlith y cenedloedd.

Y mae Cristionogaeth yn fwy na dim a fu yn y byd o'i blaen; mae hyn yn eglur yn ei dylanwad gorchfygol. Wrth sylwi ar elfenau dylanwad cymdeithasol Cristionogaeth, ni raid i ni sylwi ar bob elfen a berthyn i grefydd Crist, ond yn unig yr elfenau a effeithiant ar gysylltiadau dynion a'u gilydd—yr egwyddorion cymdeithasol eu tuedd. Mae Cristionogaeth yn grefydd, ac fel pob crefydd arall, medda wrthddrych i'w addoli—Duw. Dyma yr elfen wreiddiolaf, yr elfen hanfodol i grefydd. Mae Duw Cristionogaeth yn wahanol i holl dduwiau cenedloedd paganaidd y byd a'r oesau. Duwiau cyfyngedig eu presenoldeb, eu gallu, a'u gwybodaeth, oeddent hwy; amrywiol eu natur, eu cymeriad, a'u chwaeth. Ond am Dduw Cristionogaeth, Duw anfeidrol, holl-bresenol, a holl-wybodol yw efe; sefydlog, a pherffaith, pur a chyfiawn, a dywedir ganddo: "Byddwch sanctaidd, canys sanctaidd ydwyf fi." Nid gwiw ceisio gwthio

Duw gwahanol i hwn ar Gristionogaeth ; ni pherthyn iddi.

Mae yn Nghristionogaeth hefyd Dduw mewn cnawd ; Duwdod mewn undeb a dynoliaeth ; cynrychiolydd dynol ar yr orsedd Ddwyfol. Mae hefyd faddeuant rhad am bechod ar gyfrif iawn anfeidrol, ac aberth gorphenol ar gyfer yr holl fyd, yn y grefydd Gristionogol ; mae ynddi fodd i dawelu cydwybod dyn euog.

Mae hefyd Ysbryd Dwyfol i ymwneyd ag ysbryd dyn, yn allu mewnol yn y Cristion. Ac y mae etifeddiaeth anllygredig, a dihalogedig a diddiflanedig, yn nghadw yn y nefoedd, i'r Cristion ar ol marw yma, yn gymelliad iddo i fyw yn dduwiol yn y byd sydd yr awr hon. Mae y pethau hyn yn elfenau pwysig iawn yn nylanwad cymdeithasol Cristionogaeth. Ond wrth ddadansoddi y dylanwad yn fanylach, cawn yr elfenau canlynol :

Cariad. Y brif elfen o egwyddor yn Nghristionogaeth yw cariad : “ Duw, cariad yw.” Teimlad o anwyldeb yw cariad. Mae cariad yn egwyddor sylfaenol yn hanfod Cristionogaeth. Cariad yw ei ffynonell ; trwy garriad y dadblygwyd hi. “ Felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd ei unig-anedig Fab.”

“Yn hyn yr eglurwyd cariad Duw.” I’r dyben o ddangos a phrofi fod cariad yn elfen fawr a phwysig yn y grefydd Gristionogol, sylwn ar ddysgidiaeth yr Athraw Mawr. Gofynwyd i Iesu, pa un yw y gorchymyn mawr yn y gyfraith? Hynny yw, beth yw y brif elfen grefyddol, yn ol barn Iesu. Ei atebiad parod oedd: “Ceri yr Arglwydd dy Dduw a’th holl galon, ac a’th holl feddwl, ac a’th holl enaid.”

“Hwn yw y cyntaf, a’r gorchymyn mawr. A’r ail sydd gyffelyb iddo; car dy gymydog fel ti dy hun. Ar y ddau orchymyn hyn y mae yr holl gyfraith a’r prophwydi yn sefyll.” Mat. 22: 36—41.

Mae Crist, yn nameg y dyn a syrthiodd yn mhllith lladron ar y ffordd i Jericho, wedi egluro y gair *cymydog*—dyn mewn angen. Mae Crist yn golygu i’w atebiad i’r cyfreithiwr parth y gorchymyn mawr, fod yn atebiad cywir a pharhaol; waeth cawn yr un elfen, cariad, yn cael ei mawrhau ganddo yn neillduol yn efengyl Ioan a’r Epistolau. “Gorchymyn newydd yr wyf yn ei roddi i chwi, ar i chwi garu eich gilydd. Wrth hyn y gwybydd pawb mai dysgyblion i mi ydych, os bydd genych gariad at eich gilydd.” Ioan 13: 34—36.

“Dyma fy ngorchymyn i, ar i chwi garu eich gilydd, fel y cerais i chwi.” Ioan 15. 12.

“Na fyddwch yn nyled neb o ddim ond o garu bawb eich gilydd : canys yr hwn sydd yn caru arall a gyflawnodd y gyfraith.” Rhuf. 13 : 8.

Dengys yr Apostol fod cariad yn tueddu i lesoli bob amser ; ac os bydd dyn yn caru, na throedda un o'r gorchymynion perthynol i gymdeithas, neu sydd yn dal cysylltiad rhwng dyn a dyn. “Canys cariad ni wna ddrwg i'w gymydog : am hyny cyflawnder y gyfraith yw cariad.” Rhuf. 13 : 10. Wrth adfeddwl ar y dywediadau hyn o eiddo Crist a'r apostol Paul, gwelir yn eglur fod cariad at Dduw a dyn—cariad cyflawn yn y galon, yr enaid a'r meddwl, cariad yn yr oll o'r dyn, yn brif elfen, ac yn elfen lywodraethol yn y grefydd Gristionogol.

Fel yr oedd Napoleon I. yn ymddyddan a'i swyddogion milwrol un diwrnod, cydnabyddai ragoriaeth Cristionogaeth fel terynas ar eiddo pob teyrnas arall. Dywedai :

“Darfu i Alexander, Cæsar, Charlemagne, a minau, sefydlu ymerodraethau mawrion ; ond ar beth yr oedd creadigion ein hathrylith yn ymddibynu ? Ar allu, nerth. Iesu yn unig

sydd wedi sefydlu ymerodraeth ar gariad, ac hyd yn nod y dydd hwn, y mae miliynau yn barod i farw drosto."

Cymwynasgarwch. Nid yn uuig y mae cariad yn yr efengyl, ond hefyd y mae cariad yn elfen weithredol—trugarog i'r angenus, hyd yn nod i'r annheilwng.

Mae hyn yn dod i'r golwg yn y pethau a ddysgir gan Gristionogaeth i'w deiliaid weddio am dynynt: "A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninau i'n dyledwyr; ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg." Mat. 6 : 12, 13.

Y mae y grefydd ag sydd yn dysgu ei phroffeswyr i weddio fel yna o flaen Duw holl-wybodol a holl-ddigonol, i'w hateb yn ol eu dymuniad, yn rhwym o gario dylanwad da ar y byd er lles cymdeithas. Mor fynych y trosedda dynion yn erbyn eu gilydd—y fath dywallt gwaed sydd wedi cymeryd lle er mwyn dial! O ddiffyg ysbryd maddeugar yn y galon, difrodwyd gwledydd, dymchwelwyd teyrnasoedd, a difawyd â min y cleddyf dyrfaoedd dirif o'r teulu dynol.

Mae yr elfen faddeugar yn cael lle pwysig yn y grefydd Gristionogol. Dysg ddyn i ymddwyn at ei droseddwr fel y dysgwylia ef i

Dduw ymddwyn tuag ato yntau fel troseddwr. Y mae maddeuant Cristionogol wedi claddu llawer ymrafael yn medd e bargofiant; "Nac ymddielwch, rai anwyl." "Tyner ymaith oddiwrthy ch bob chwerwedd, a llid, a dig, a llefain, a chabled, gyda phob drygioni. A byddwch gymwynasgar i'ch gilydd, yn dosturiol, yn maddeu i'ch gilydd, megys y maddeuodd Duw er mwyn Crist i chwithau." Felly yn ngwyneb y ddysgeidiaeth hon, nid teg awgrymu, wrth weled rhai personau digofus, ac eglwysi ymrafaelgar, fod y grefydd Gristionogol yn effeithio i wneyd dynion yn ddialgar a chynenus. Diffyg Cristionogaeth yn y galon yw yr achos fod dyn yn methu maddeu, fod dyn yn ymrysongar.

Mae cariad Cristionogaeth yn un haelionus; yn gyfranyddol: "Eithr yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn, ac a welo ei frawd mewn eisiau, ac a gauo ei dosturi oddiwrtho, pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef? Fy mhlant bychain, na charwn ar air, nac ar dafod yn unig, eithr mewn gweithred a gwirionedd." 1 Ioan 3: 17, 18.

Yr oedd hen grefydd yr Aipht yn peri i'r Aiphtiaid fod yn ddiolchgar, parchus a chariadus i'w gilydd, yn enwedig i'w breninoedd;



ond ymdodda caredigrwydd yr Aiphtiaid yn ddim o dan ddylanwad caredigrwydd Cristionogion.

Gwirionedd sydd elfen arall alluog iawn yn y grefydd Gristionogol. Ni wyddai Pilat beth oedd gwirionedd, er fod corphoriad o'r gwirionedd yn ei ymyl. "Myfi," ebe Iesu, "yw y gwirionedd." Mae gwirionedd yn brif beth dysgeidiaeth, yn graig doethineb, ac yn sylfaen gwybodaeth. Mae yn elfen barhaol ac anghyfnewidiol; yn elfen werthfawr a gorchfygol, ac yn un o hynodion elfenawl Cristionogaeth. "Y gwirionedd a'ch rhyddha chwi" oddiwrth bod cyfeiliornad. Bu enwogion yn y byd cyn Crist; bu athronwyr dysgedig yn chwilio yn awyddus iawn am wirionedd yn mhob man y gallent, ond ni chawsant ond megys cipdrem ar ei fawrhydi. Chwiliodd Justin Merthyr am wirionedd, mewn amrywiol gyfundrefnau; ac wedi methu cael gafael arno yn un man arall, daeth i'w geisio yn nghrefydd Iesu Grist, a chafodd afael ynddo, ac fel canlyniad geilw Grist yn "Athraw Gwirionedd."

Bu Athenogoras, athronydd mawr yn Athens, yn paratoi ymosodiad ar Gristionogaeth; ac i'r dyben o wneyd ei waith yn fwy medrus

a gorchestol, myfyriodd Gristionogaeth ei hunan, ac er ei syndod daeth o hyd i'r gwirionedd yn yr hyn a dybiai nad oedd ond ffug a thwyll. Gorchfygodd gwirionedd ef, fel nad allai lai na chofleidio Cristionogaeth am mai gwirionedd yw.

“Y gyfraith a roddwyd trwy Moses;” aeth ef i Sinai i’w derbyn, “ond y gras a’r gwirionedd a ddaeth trwy Iesu Grist.” Er cymaint o chwilio a beirniadu sydd wedi bod ar grefydd y Groes, y mae yn aros yr un drwy yr oesau; er cynydd gwybodaeth wyddonol, nid oes un ffaith yn natur yn cyfeirio at anwiredd yn Nghristionogaeth—mae yr oll yn cydnabod mai gwirionedd yw.

Dywedai Tertullian: “Medr Cristionogaeth roi llygaid i adnabod gwirionedd, i’r dyn gwrteithiedig, a gam-arweiniwyd gan gaudysgeidiaeth.” Dywedai yr athronydd enwog, Proff. J. H. Schollen, Leyden. “Crist yw y llygad-feddyg, yr hwn sydd yn agor i’r gwirionedd lygad y rheswm dynol a dywyllwyd gan bechod, fel ag i’w alluogi i weled yn eglur ogoniant Duw yn ei weithiau.” Prawf eglur iawn o ymlyniad Cristionogaeth wrth wirionedd, yw fod dau bwyllgor cyfansoddedig o brif ddysgedigion Lloegr ac America, wedi

treulio deg mlynedd i ddiwygio y cyfieithiad Seisnig o'r Ysgrythyrau sanctaidd, yn rhad ac am ddim ; a bod tair miliwn a haner o gopiau o'r Testament Newydd yn ei ddiwyg newydd wedi cael eu gwerthu mewn llai na mis o amser wedi i'r argraffiad gael ei roi yn y farchnad. Cael allan y gwirionedd a rhoi y gwirionedd hwnw i eraill, oedd prif gymellydd y dysgedigion hyn.

Mae gwirionedd Cristionogaeth, mor bell ag y gellir, i gael ei gyfranu i'r byd Yr oedd Crist yn dysgu y bobl fel un ag awdurdod ganddo. Gorchymynodd i'w ganlynwyr fyned i'r holl fyd a dysgu yr holl genedloedd. Mae hyn yn awgrymu fod Cristionogaeth yn cynwys gwybodaeth ; addysg i'r deall, gol-euni i'r meddwl. Ond nid cyfundrefn o egwyddorion gwybodaeth yn unig yw Cristionogaeth, mae ganddi fwy na gwybodaeth. Mae ynnddi fywyd. Mae egwyddorion gwybodaeth yn dda a nerthol, ond y maent yn rhy wan ac anfedrus i orchfygu pob rhwystr, a dadblygu yr oll o'r dyn. Mae athronwyr ac athroniaeth, dysgedigion a dysgeidiaeth, athrawon, ac athrawiaethau, yn cymeryd i fewn wahanol gangenau gwybodaeth, wedi bod, ac eto yn bod yn y byd ; ond y mae eg-

wyddorion noeth gwybodaeth, diwylliant meddyliol coeth, a gwrteithiad gorchestol y deall, wedi troi yn fethiant hollol i wareiddio, moesoli, a dwyn allan ardderchogrwydd arglwydd daearol y greadigaeth. Pe na byddai Cristionogaeth ond gwybodaeth, cyfundrefn o egwyddorion, byddai yn sicr o gael ei gorchfygu gan y byd, cnawd a diafol. Ond y mae elfen nerthol a gorchfygol yn y grefydd hon—bywyd. Heb fywyd, ni wneir dim parhaol. Daeth Crist nid yn unig ag egwyddorion, gwirionedd, gwybodaeth ddwyfol, i'r byd, ond hefyd daeth ag elfen ysbrydol bywyd newydd. “Mi a ddaethum,” meddai, “fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach” “Genyt ti y mae geiriau y bywyd tragwyddol,” oedd tystiolaeth ei ddysgyblion. “Mae yn rhaid eich geni chwi drachefn.” “Yr hwn sydd yn credu ynof fi y mae ganddo fywyd tragwyddol.” “Myfi yw y ffordd, y gwirionedd a'r *bywyd*,” yw ei athrawiaeth ef.

Medda Cristionogaeth, “yr ysbryd yr hwn sydd yn bywhau; y cnawd nid yw yn lleshau dim: y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, ysbryd ydynt, a bywyd ydynt.” Pe byddai honiadau Baur a'i ganlynwyr, yr ysgol Tubingenaidd, yn wirionedd, sef bod Cristion-

ogaeth wedi cael ei helpenau o Judayddiaeth a Phaganiaeth,—gorchymynion y gyfraith Foese-naidd, athroniaeth Groeg, a chyffredinol-rwydd llywodraethol ffurf llywodraeth Rhufain, eto ni fuasai hyn yn cyfrif am y *bywyd* y sonia Crist gymaint am dano. Mae bywyd Cristionogaeth yn fywyd newydd i'r byd, ond yn fywyd ag sydd tu draw i eglurhadaeth ddadansoddol fferylliaeth hanesiol. “Yr ysbryd creadigol oedd yn Iesu yw egwyddor uwch-hanesiol a dwyfol Cristionogaeth.”—*Old Faith in New Light*, p. 194.

Cylch eang ei gweithrediad. Ystyriai y Groegwr bawb tu allan i'w genedl ei hun yn “farbariaid.” Diolchai Socrates i'r duwiau yn ddyddiol am ei wneyd yn ddyn, ac nid anifail; gwryw ac nid benyw; Groegwr ac nid barbariad. Yr oedd y Rhufeinwr yn cyfrif pawb nad oedd yn yr un cysylltiadau gwladol ag ef, yn *hostes*—gelynion; ac ymddygai yn ol y dywediad, “Y trechaf, treisied.”

Ceisiai Celsus bardduo Cristionogaeth, am ei bod yn amcanu uno yr holl deulu dynol. “Y mae y dyn,” meddai, “a all gredu ei fod yn beth posibl i'r Groegwr a'r barbariad, yn Asia, Ewrop, a Libya, gyduno ar un deddf-lyfr crefyddol, yn rhwym o fod yn amddifad o synwyr.”

Yr oedd yr Iuddew yr un mor gul ei feddwl a hunanol ei galon a'r Groegwr a'r Rhufeinwr. Dywedai y Rabbiaid: "Y mae un Israeliad yn fwy o werth yn ngolwg Duw na holl genedloedd y byd; y mae pob Israeliad yn fwy gwerthfawr yn ei olwg ef, na'r holl genedloedd a fu neu a fydd." Ond y mae Cristionogaeth i'r byd. Mae yn gwneyd yr hyn a honai Celsus ei fod yn anmhosibl—mae yn cynyg, ac yn araf ddwyn yr holl genedloedd i fabwysiadu yr un deddf-lyfr crefyddol, y Beibl. Mae Cristionogaeth yn ddarpariaeth ar gyfer pawb. "Ewch i'r holl fyd;" "dysgwch yr holl genedloedd;" "wele Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd." Mae Cristionogaeth wedi tynu i lawr ganolfur y gwahaniaeth, fel nad oes na chaeth na rhydd, Iuddew na Groegwr, gwryw na benyw, na dim derbyn wyneb gyda Duw Cristionogaeth, gan ei fod ef o un gwaed wedi gwneyd pob cenedl o ddynion i breswyllo ar holl wyneb y ddaear. Felly yn rhan o Gristionogaeth, fel elfen bwysig iawn mewn cysylltiad a'i dylanwad cymdeithasol, cawn unoliaeth a chydreddoliaeth—brawdoliaeth y teulu dynol. Mae yr elfen hon yn hyrwyddo y ffordd i'r rheol auraidd—prif elfen gymdeithasol

Cristionogaeth—i gael gwarogaeth: “Am hyny pa beth bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy.” Mat. 7: 12.

Gall y rheol hon effeithio yn niweidiol ar brydiau i'r dyn anianol ac uchelgeisiol, os nad yw yn berson cyfrifol i Fôd hollwybodol ag sydd yn llywyddu yn amgylchiadau dynion. Ac y mae llawer iawn yn troseddu y rheol hon, am nad ydynt yn cadw Duw yn eu cof, na chrediniaeth yn eu calon yn y Duw Cristionogol. Ond a chofio mai un Duw sydd i bawb, a'i fod yn oludog i bawb sydd yn ei geisio, yn Dduw hollwybodol, ac yn talu i bawb yn ol eu gweithredoedd; yn gwobrwyo y rhai a gadwant ei air, ac ydynt yn gwneuthur yn ol ei ewyllys ef, ac yn cosbi y rhai anufudd a drygionus. Mae y rheol yn cael gwarogaeth ddyladwy gan y cyfryw a gofiant hyn yn ystyriol.

Mae Cristionogaeth yn dysgu cyfiawnder pur, ymarferol ac ymarferedig bob amser. Rhaid credu yn Nuw Cristionogaeth cyn y gellir dwyn y rheol hon yn llawen i weithrediad. Ond y mae pob elfen yn nghrefydd Crist yn ol deddf cyfartaledd cywir, fel y mae pob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn

caru Duw. Os ceir colled yn y presenol drwy gario y rheol euraidd i weithrediad, dysg Cristionogaeth y tâl Duw, ac na fydd y llafur yn ofer, nac yn golled yn y pen draw yn nydd y cyfrif mawr.

Rhaid cael y Duw Cristionogol yn ffaiſ yn nghalon a meddwl dyn cyn y gellir gwneyd ymarferiad o holl egwyddorion Cristionogaeth yn bosibl.

Mae gan Gristionogaeth bersonoliad o honi ei hun ; esiempl ymarferol o'i holl egwyddorion.

Yr oedd Seneca yn gweled ac yn cydnabod yr angenrheidrwydd o foesoldeb sylweddol—esiempl safonol, wrth yr hon y gellid ffurfio ymarweddiad bywyd—penderfynu pa ymddygiadau sydd yn gywir. Ond er gweled yr angen, nid oedd ef yn abl, er cymaint ei ddoethineb, i gynyrchu diwalliant i'r angen. Ond daeth Crist a'r sylwedd moesol a'r safon ymddygiadau y crefai y doethion am dano, yn esiempl berffaith i ddilyn ei ol. Nid yn unig daeth a chrefydd i'r byd, ond daeth yn ei grefydd i blith dynion. Yr oedd efe ei hun yn rhan o'i grefydd, yn elfen yn ei hanfod ; hebdo ef, heb Gristionogaeth hefyd.

Crist ddaeth a Christionogaeth i'r byd ; yr



oedd hi ynddo ef hyd nes iddo ei rhoddi allan yn raddol. Efe yw y canolbwynt; efe yw enaid ei grefydd. Dywedai Ioan Fedyddiwr, "Y mae teyrnasnefoedd yn nesáu," pan oedd Iesu o Nazareth yn nesáu i'w fywyd cyhoeddus. Ac o hyny allan cawn deyrnas nefoedd yn cael ei dadblygu allan o Grist. Disgynodd yr Ysbryd arno er mwyn agor dorau neu orchuddion y ffenestri, fel y gallai y goleuni Dwyfol ddyfod allan i'r byd.

Ysbrydolid y prophwydi gan Dduwdod oddi allan; ond ysbrydolid Crist gan Dduwdod oddifewn. Ai yr offeiriaid Delphaidd i ymgyngori a'r oraclau, cyn y gallent roi atebiad i'r bobl mewn perthynas i bethau oeddynt yn dal cysylltiad a'r duwiau a dyledswyddau eu blaenoriaid gwladol. Rhaid oedd i'r offeiriaid Iuddewig ymgyngori a'r Urim a'r Thummim cyn penderfynu dim o bwys mewn perthynas i ewyllys Duw. Felly, hefyd, yr oedd yr holl brophwydi sanctaidd yn aros wrth Dduw am atebiad a chyfarwyddyd drwy lais, breuddwyd, neu weledigaeth. Ond, "Duw wedi iddo lefaru lawer gwaith a llawer modd, gynt wrth y tadau (*trwy*) y prophwydi, yn y dyddiau diweddaf hyn a lefarodd wrthym ni (*yn*) ei Fab." Yr oedd cyflawnder gwybodaeth Ddwyfol yn Iesu.

Nid derbyn Duw i fewn, ond rhoi Duw allan oedd y Crist. Ni ofynai am gyfarwyddyd, nac am fendithion iddo ei hun mewn gweddi, eithr arferai ddiolch yn aml i'w Dad. Yr oedd yn barod bob amser i ateb gofyniadau priodol, ac ateb cywir a roddai ar bob achlysur. Felly yn Nghrist cawn Gristionogaeth, ganddo cawn yr efengyl yn cael ei dadblygu a'i rhoi allan o hono ef. "Yn yr hwn y mae holl gyflawnder y Duwdod yn trigo yn bersonol." Mae ymddangosiad Crist yn rhyfeddod, ei berson yn hynod, yn newydd yn y byd. Ond er fod ei fywyd yn fywyd newydd a rhyfedd, eto y mae yn gyson a naturiol, o'i ddyfodiad hyd ei ddychweliad corfforol. Mae ei berson yn wyrth; cyfarfyddir ynddo gydgyfarfyddiad elfenau, na chyfarfyddir â hwynt ond yn yr Emmanuel ei hun. Mae ei enedigaeth yn rhyfedd, ei fywyd yn rhyfedd, ei angau yn rhyfedd, ei adgyfodiad yn rhyfedd, a'i esgyniad yn rhyfedd; ond nid yw ei ddyeithrwech a'i ryfeddod yn fwy eglur mewn dim nag yn mhurdeb ei fywyd, a pherarogl sanctaidd ei ymarweddiad: yr oedd oll yn hawddgar, ac yn rhagori ar bawb mewn daioni.

Ac nid oedd yr oll o hono ond yr hyn ellid

yn naturiol ddysgwyl yn ol yr awgrymiadau a geir yn ffeithiau ei genedliad dwyfol a'i enedigaeth ryfeddol. Mae y gwyrthiau a gyflawnodd yn ei fywyd yn hollol gyson a naturiol, pan edrychir arnynt yn ngoleuni gwyrth ei berson a'i ymddangosiad. Mae awdwr diweddar, wrth awgrymu yr ymresymiad uchod yn dyweyd: "Y mae y dylanwad yn hollol naturiol os oedd ei berson yr hyn ei portreidur yn yr Efengylau; ac y mae ei berson yn naturiol, os edrychwn arno yn ngoleuni achos ac effaith. Nid yw deddf achos ac effaith yn cael ei throsi; nid yw cysylltiad bod a dylanwad yn cael ei dori yn Iesu, os caniateir yr holl ffeithiau a nodir yn y Testament Newydd. Mae hyn hefyd yn ymddangosiad arwyddocaol iawn yn ffafr Crist yr Efengylau; canys y mae y ddeddf a ddadblygir yn ei fywyd, o gysylltiad uniongyrchol bod a dylanwad, yn un o'r deddfau cyffredinol. Mae yr hyn a wna unrhyw beth yn cael ei benderfynu, a dylai gael ei benderfynu, gan yr hyn yw ef ei hun. O'r hyn ydynt neu sydd ganddynt, y mae pob peth a phawb yn rhoddi i ni yr hyn a roddant.

Rhydd y ddaear galed ei dysgyrchiant; yr awyr o'i hanadl bywyd; y blodau o'u perarogl;

yr adar o'u cerddoriaeth ; y lleuad o'i harian-aid oleuni ; yr haul y dydd o'i lawnder. Mae gwyddor yn dysgu am ddeddf, nad yw y gwaith yn fwy na'r gallu a'i gwna. Felly hefyd am haelionusrwydd y natur ddynol ; rhoi o'r hyn sydd ganddynt eu hunain y mae dynion—mae yr hyn a â allan oddiwrth ddyn yn ol yr hyn yw ac sydd yn y dyn ; bydded dda, bydded ddrwg.”—*Old Faith*, p. 238—40.

Mae y ganrif gyntaf o'r cyfnod presenol wedi rhoddi i ni o'i chyflawnder hi ei hunan ; yr hyn oedd ganddi yn alluog i gael ei drosglwyddo, a roddodd i'r canrifoedd dilynol. Yr oedd Crist a'i grefydd ynddi ; ac oni b'ai hyny, ni allasai eu rhoddi i'r rhai oedd yn ei chanlyn. Felly Crist, yr hyn oedd ef ei hun, a'r hyn oedd ynddo, a gyfranodd efe i'r byd —“ o'i gyflawnder ef y derbyniasom ni oll a gras am ras.” Am fod Iesu yn wyrth, y cyflawnodd y fath wyrthiau ; siaradodd fel na siaradodd dyn erioed, am ei fod yr hyn na fu dyn erioed. Presenoldeb Crist ei hun, yn egluro yn weithredol elfenau ei grefydd, sydd yn ogoniant crefyddol anghydmorol mewn Cristionogaeth, ac sydd yn achos o'i pharhad buddugoliaethus yn y byd drwy yr oesau.

Felly, hefyd, y mae arosiad Crist yn ei gref-

ydd, ac yn ei ganlynwyr yn allu mawr yn y grefydd Gristionogol. Parhad bywyd anghydmарol Iesu sydd yn peri parhad dylanwad Cristionogaeth: "Yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd," sydd yn sicrhau calonddid a dysgwyliad yn y Cristionogion am lwyr oruchafiaeth yr efengyl ar y byd. Mae yn y byd ddau gynrychiolydd o Grist heblaw proffeswyr ei grefydd; y Beibl i'r deall, a'r "Dyddanydd arall," yr Ysbryd, i'r galon. Mae y ddau hyn yn cydweithio yn y Cristionogion, ac o blaid Cristionogaeth.

Yn awr, ar ol cael cipolwg ar brif elfenau a gyfansoddant ffynonell dylanwad cymdeithasol Cristionogaeth, gellir yn hawdd gasglu pa fath ddylanwad ydyw.

. Cofier nad dylanwad yr hyn a *eilw* rhai dynion yn Gristionogaeth, yn eglwys Gristionogol, cenedl Gristionogol, eithr yn hyn *sydd* yn Gristionogaeth, eglwys Gristionogol, cenedl Gristionogol, ydym yn sylwi arno. Mae llawer yn myned dan yr enw Cristionogion, nad ydynt yn Gristionogion ond mewn enw yn unig. Mae Pabyddiaeth yn galw ei hun yn Gristionogaeth; ond nid y grefydd Babyddol yn ei dylanwadol cymdeithasol sydd dan ein sylw. Mae enwadau a phleidiau crefyddol wedi

gwisgo yr enw Cristionogol, ac wedi cyflawni gweithredoedd, a chynyrchu dylanwad hollol groes i Gristionogaeth; ac ni ellir cyfrif am danynt drwy yr un elfen o'r holl elfenau, neu gydymuniad o honynt, a gyfansoddant Gristionogaeth. Nid ydym i gymeryd erledigaethau crefyddol—tân Smithfield, y creulonderau a gyflawnwyd yn y Twr yn Llundain, galanasdra ystrywgar a gyflawnwyd yn Paris ar ddydd St. Bartholemew, a'r cyffelyb, yn gynyrchion dylanwad Cristionogaeth, er eu bod yn cael eu cyflawni yn enw Cristionogaeth. Waeth, nid oes cymaint ag un elfen mewn Cristionogaeth bur yn tueddu i gynyrchu y fath weithredoedd, eithr yn hytrach mae pob elfen a phob peth Cristionogol yn tueddu at, ac i gynyrchu dylanwad hollol wahanol i erledigaeth, bradwriaeth, llofruddiaeth, trais, gormes a chreulonder o unrhyw fath. Mae yr elfenau Cristionogol oll yn cydweithio yn y Cristion i beri iddo ddangos yn ei ymarweddiad "rinweddau yr hwn a'i galwodd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef."

Nis gellir rhoddi gormod o bwys ar yr ymresymiad yma, waeth y mae cam-ddeall beth yw Cristionogaeth, neu gam-ddefnyddio yr enw Cristionogol wedi dwyn dynion fel Col.

R. Ingersoll i ymosod ar y gyfundrefn grefyddol hon yn annheg a gwarthus.

Mae haeriadau fel y rhai canlynol yn deill-iaw oddiwrth achosion felly : “ Yr wyf am chwiwybod pale bynag y mae y Beibl wedi bod, fod dyn wedi casâu ei frawd ; bu carchar-gelli, arteith-glwydi, bawd-hoel-droellau, a chleddyf, mewn arferiad yno. Yr wyf am i chwi ddeall fod crefydd Iesu Grist wedi cael ei sefydlu gan lofruddion, gormeswyr a rhagrithwyr. Yr wyf am i chwi ddeall fod yr eglwys wedi cario y faner ddu. Yna siaradwch am ddylanwad y grefydd hon i wareiddio. Yr wyf am i chwi ddeall fod yn y byd 1,400,000,000 o drigolion, ac nad oes ond 120,000,000 o honynt yn meddu y Beibl. Yr wyf am i chwi ddeall nad oes un o bob cant yn y byd byth yn darllen y Beibl.”—*Mistakes of Moses.*

Mae yr uchod o eiddo Mr. Ingersoll yn gyfeiliornus. Beth sydd yn y Beibl yn cael ei roddi yn orchymyn ac yn rheol ffydd ac ymarwedd-iad sydd yn tueddu i wneyd dyn i gasâu ei frawd ? Onid “ Cerwch eich gilydd fel y cerais i chwi,” yw y gorchymyn ? Ac oni ddywedir, “ Parchwch bawb ?” Beth sydd yn y Beibl yn tueddu i garcharu, arteithio, a phoeni dynion ar gam yn y byd hwn, neu yn yr hwn a

ddaw? Onid i'r gwrthwyneb yn hollol y tuedda yr elfenau a gyfansoddant Gristionogaeth?

Mor groes yw tystiolaeth hanesyddiaeth Gristionogol a Phaganaidd i haeriadau Mr. Ingersoll parth sefydliad crefydd Iesu Grist yn y byd. Onid dynion tawel, diniwed, tlawd ac annysgedig oeddynt ddysgyblion cyntaf Crist? Ni phrofwyd hwynt yn euog yn un llys yn ymerodraeth Rhufain, o ddim ond o wrthod cydymffurfio â'r grefydd wladol. Onid oeddys yn foddlon rhyddhau y Cristionogion a garcharid os buasent yn addaw ymwrthod â Christionogaeth o hyny allan, a thalu gwarogaeth i'r duwiau? Pe buasent lofruddion, cawsent eu lladd; pe buasent ormeswyr, caent eu condemnio, a phe buasent yn rhagrithwyr, buasent yn gwadu y ffydd yn hytrach na glynu wrth dwyll, a cholli eu bywyd wrth hyny. Mae hunan-les yn llywodraethu pob rhagrithiwr: bwriada enill rhywbeth wrth broffesu ei fod yr hyn nid yw mewn gwirionedd. Ond am y Cristionogion a erlidid gynt o achos eu crefydd, gallasant gael rhyddid ar yr amod iddynt wadu eu ffydd; ac y mae hyn yn dangos nad oeddynt yn ddyŷion drwg; dyoddefasant erledigaeth ac angau yn hytrach na



gwadu Iesu, ac y mae hyn yn profi mai nid rhagrithwyr oeddynt. Wedi dyfynu barn, neu haeriad Mr. Ingersoll, a gweled mor annaturiol yr ymddengys pethau yn ol ei osodiadau ef, y mae yn deg a phriodol i ni ddyfynu o waith awdwr mawr dysgedig ag sydd yn cydoesi â Mr. Ingersoll. Ac er mwyn i'w farn ymddangos yn ei gwerth briodol, cofier fod yr awdwr yn gogwyddo i raddau i'r un cyfeiriad a Mr. Ingersoll. Ond y mae gwahan-iaeth mawr rhwng y ddau; y mae un megys yn sychu fyny dan ddylanwad ffeithiau sychion athroniaeth—ymwneyd gormod a dirgelion gwybodaeth nes anghofio mai bôd meidrol yw, ac fod yn anmhosibl iddo ddeall pob peth, ac am nad yw ei ddeall yn gallu amgyffred dirgelion hanfodion ysbrydol, tuedda i wadu eu bodolaeth. Tra y mae y llall wedi ymwerthu i ddychymyg annysgedig, amddifad o wybodaeth neu o egwyddor onest, yn ymollwng i roi allan beth bynag a ddichon dychymyg gyflwyno i'w dafod doniol.

Dywed Dr. J. W. Draper: "Yn un rhan o'r tiriogaethau Dwyreinol, Syria, yr oedd ychydig o bersonau o sefyllfa isel o ran amgylchiadau, wedi ymgysylltu a'u gilydd er mwyn dybenion elusengar a chrefyddol. Dysgent

frawdoliaeth gyffredinol y teulu dynol . . . .  
 egwyddorion a drosglwyddwyd iddynt gan  
 'Iesu' . . . . Am lawer o flynyddoedd dad-  
 blygodd Cristionogaeth ei hunan yn gyfun-  
 drefn yn dysgu tri pheth : At Dduw, parch ;  
 mewn bywyd personol, purdeb ; mewn bywyd  
 cymdeithasol, elusendod."— *Conflict between  
 Religion and Science*, p. 36—38.

Dywedai Tertullian : " Er fod Cristionog-  
 ion yn gwadu fod yr Ymerawdwr yn dduw,  
 eto gweddiant am ei lwyddiant, am fod lles y  
 byd neu barhad y byd yn sicr tra y pery budd-  
 ugoliaeth ogoneddus ymerodraeth Rhufain.  
 Gweddiant nid yn unig dros yr Ymerawdwr  
 a'i swyddogion, ond hefyd am heddwch."  
 " Ar ddiwedd pob mis y mae pob un a ewyll-  
 ysia, ond ni orfodir neb, yn cyfranu ; y mae  
 yr arian a gesglir fel hyn yn brawf o dduwiol-  
 deb ; nid ydynt yn cael eu gwario mewn bwy-  
 ta ac yfed yn foethus, eithr mewn porthi y  
 tlawd a chladdu eu meirw ; mewn dyddanu  
 plant amddifaid a thlodion ; mewn cynorth-  
 wyo hen bobl a dreuliasant eu dyddiau goreu  
 yn ngwasanaeth y ffyddloniaid ; mewn cyn-  
 orthwyo y rhai a gollasant eu heiddo drwy  
 long-ddrylliad ; a'r rhai a dynghedwyd i'r  
 ogofeydd, neu a alltudiwyd i ynysoedd, neu a

gadwyd mewn carcharau o herwydd eu bod yn arddel y gwir Dduw. Nid oes ond un peth yn mhlith y Cristionogion nad yw yn gyffedin, a'r un peth hwnw yw eu gwragedd. Gwrthddrychau eu bywyd ydynt ddiniweid-rwydd, amynedd, cymedroldeb, a diweirdeb." —*Conflict between Religion and Science*, p. 44, 45.

Byddai yn dda i Mr. Ingersoll, a phawb eraill, i ymgydnabyddu a ffeithiau hanesiol yn fwy nag ymroi yn fyrbwyll i drethu gormod ar ei ddychymyg llygredig, ac yna cai weled fod ei syniadau, a ddyfynwyd genym, yn dra chyfeiliornus. Gwir fod rhai ar enw Cristionogion wedi erlid, gorthrymu, a defnyddio y cleddyf, i garcharu a defnyddio arteithglwydi lawer, a bod yr hyn a elwid yn "eglwys" wedi cario y faner ddu; ond y pwnc yw, a'i dylanwad egwyddorion crefydd Crist oedd yr *achos* o hyn? A'i elfenau Cristionogaeth oedd yn cynyrchu y dylanwad a weithredai fel yna? Noder yr elfenau, dangoser yr egwyddorion sydd yn nghrefydd bur Iesu Grist yn cymell, neu yn caniatáu ymddygiadau o'r fath yna. Os na ellir gwneyd hyn, dylid priodoli y gweithredoedd yna i elfenau estronol, i egwyddorion dyeithr i Gristionog-

aeth. Ond a chymeryd yn ganiataol fod ffigyrau Col. Ingersoll yn gywir parth poblogaeth y byd a chylchrediad y Beibl a'i ddarlleniad gan y bobl, onid y bobl *ag ydynt* yn berchen Beiblau ac yn eu darllen a'u deall oreu ydynt. y bobl mwyaf gwaraidd, goleuedig, moesol, a charedig? Onid yn Mhrydain, Switzerland a'r Talaethau Unedig, y mae y Beibl yn fwyaf adnabyddus? Onid yn y gwledydd a nodwyd y teimlir dylanwad y Beibl fwyaf yn y byd? Ac eto onid y gwledydd hyn yw y rhai mwyaf gwaraidd, moesol, caredig, llwyddianus, a pharadwysaidd eu cymdeithas yn y byd? Ond eto, nid yw fod Prydain yn cael ei galw yn wlad Gristionogol, yn profi ei bod felly yn drwyadl; ac nid yw ei bod yn gormesu cenedloedd ac yn rhyfela a chenedloedd er mwyn ei gorchfygu er hunan-les, megys ei hymddygiad yn Zululand ac yn Afghanistan, yn profi fod Cristionogaeth yn achos o hyn. Nid Cristionogion gwirioneddol oedd yr achos o'r gweithredoedd anghyfiawn hyny, ond dynion gwrth-Gristionogol ag oeddynt yn flaenllaw yn y llywodraeth, a wnaethant hyn, a hyn yn groes i deimlad y werin Gristionogol, fel ag y dangoswyd yn mhenderfyniadau cymanfaoedd Cristionogol drwy y wlad yr amser

hwnw; ac yn neillduol yn yr etholiad a ddilynodd. Nid yw fod Charles J. Guiteau yn honi ei fod yn aelod yn eglwys Beecher, yn profi mai Cristionogaeth a barodd iddo saethu yr Arlywydd James Abram Garfield. Diffyg Cristionogaeth yn ei galon, a phresenoldeb elfenau gwrth-Gristionogol a ddylanwadodd ar yr anfad-ddyn i ysbeilio ein gwlad o fywyd un o ragorolion yr oes.

Ymddengys i mi fod ymresymiad Dr. Draper yn briodol, nid yn unig yn yr engreiffiau a rydd efe, ond i bob camgymeriad o eiddo proffeswyr Cristionogaeth. "Pan achosodd Calvin i Servetius gael ei losgi, yr oedd yn cael ei gynhyrfu, nid gan egwyddorion y Diwygiad, eithr gan rai Pabyddol, oddiwrth y rhai nid oedd wedi bod yn abl i ymryddhau yn gwbl." —tn dal. 363—4.

Felly hefyd, pan y mae Cristionogion, mewn enw, yn gwneyd gweithredoedd ysgeler, nid cynhyrifiadau Cristionogol, eithr yn hytrach rhai paganol perthynol i ddynoliaeth lygredig ac anwybodus, yw yr achos o honynt; waeth cofier fod pob peth yn cynyrchu ei ryw, felly Cristionogaeth. Gallwn yn hawdd ac yn argyhoeddedig o'r ffaith, gyduno a'r enwog Napoleon I., yn ngwyneb yr elfenau a gyfansoddant

y grefydd Gristionogol, a dyweyd, "Nid llyfr yn unig yw yr efengyl, ond creadur byw, gyda gallu a nerth ag sydd yn gorchfygu pob peth a'i gwrthwyneba. Dyma lyfr y llyfrau," ebai, gan osod ei law ar y Beibl, "nid wyf byth yn blino ei ddarllen; yr wyf yn ei ddarllen bob dydd gyda'r un boddhad. Nid yw yr enaid ag sydd wedi ei swyno ganddo, yn eiddo ei hun mwy; mae Duw yn ei lwyr feddu: y mae efe yn cyfarwyddo ei feddyliau a'u allu-oedd; ei eiddo ef yw." "Y fath brawf o ddwyfoldeb Iesu Grist! Ac eto nid yw ei arglwyddiaeth anghyfyngedig yn ormesol; nid oedd ganddo ond un amcan, sef perffeithiad ysbrydol yr unigolyn; puredigaeth ei gydwybod, ei uniad a'r hyn sydd wir, cadwedigaeth ei enaid. Syna dynion at fuddugoliaethau Alexander ac eraill, ond dyma fuddugoliaethwr, Iesu Grist, sydd yn tynu dynion ato ei hun er mwyn eu daioni penaf; yr hwn sydd yn uno ag ef ei hun, nid un genedl, ond yr holl hil ddynol." Mae Cristionogaeth wedi dyfod a manteision hefyd gyda hi at ei gwaith yn y byd. Nid yn unig daeth a bywyd i'r byd, ond daeth hefyd a gwybodaeth i gyfarwyddo y bywyd hwnw; cariad a rheswm i reoleiddio ei weithrediadau; a daeth a dydd

gwaith i'r bywyd hwn. Yr oedd ymddangosiad Cristionogaeth yn doriad gwawr; dyfodiad Crist yn godiad Haul, ac yn godiad Haul cyflawnder. Dydd yw cyfnod neu dymor gwaith; mae ynddo oleuni fel y gellir gweithio. Felly hefyd daeth Cristionogaeth a Haul y dydd, goleuni fel y gall y bywyd weled i fyfyrion y gyfundrefn, fel y gellir rhodio yn ol ei hegwyddorion. Y mae arosiad Cristionogaeth yn arosiad goleuni; medr dynion weled yn awr, os mynant, y ffordd uniawn. Mae yn yr efengyl fywyd a gallu y fath ag y mae yn briodol ei galw, yn iaith yr Apostol, yn "allu Duw" er daioni y byd yn unigol a chymdeithasol.

## PENNOD III.

*Natur Gymdeithasol Cristionogaeth.*

Mae Cristionogaeth, yn ei hanfod, o duedd gymdeithasol — ei gwraidd yw Emmanuel, Duw gyda dyn—cymdeithas o ddwy natur mewn undeb yn cydweithio, yn byw fel pe yn un : mae Crist yn Fab Duw ac yn fab dyn. Felly hefyd y mae Crist yn ei athrawiaeth yn dysgu, “myfi a'r Tad un ydym.” Ac y mae yn gweddio ar ran ei ganlynwyr, “Fel y byddont un, megys yr ydym ninau yn un, myfi ynddynt hwy, a thithau ynof fi; fel y byddont wedi eu perffeithio yn un.”—Ioan 17 : 22, 23.

Y mae yr Apostol Paul yn dangos yr un duedd gymdeithasol pan yn dyweyd am waith Duw: “Yr hwn a'n cymododd ni ag ef ei hun trwy Iesu Grist, ac a roddodd i ni weinidogaeth y cymod; sef bod Duw yn Nghrist yn cymodi y byd ag ef ei hun heb gyfrif iddynt eu pechodau.”—2 Cor. 5 : 18, 19.

Un o amcanion penaf Cristionogaeth ydyw ffurfio cymdeithas rhwng Duw a dynion; a rhwng dynion a'u gilydd—“uno nef a llawr.”



Mae y duedd hon yn weledig i'r sylwgar diragfarn, yn ngogwyddiad naturiol pob peth Cristionogol. Daeth Ioan Fedyddiwr "i droi calonau y tadau at y plant, a'r anufudd i ddoethineb y cyfiawn; i ddarparu i'r Arglwydd bobl barod."— Luc 1: 17. Mae cymdeithas yn cael ei gwneyd i fyny o unigolion; ac fel y mae yr unigolion, felly y mae y gymdeithas a gyfansoddant: ni allart wneyd y gymdeithas ond yr hyn ydynt hwy eu hunain. Hwysydd yn rhoddi bodolaeth, ffurf, a dylanwad i'r gymdeithas. Hwysnt-hwys ydynt yr elfenau, y gymdeithas ydyw y cynyrch; hwy yw y bywyd, y gymdeithas yw y pren; a'u gweithredoedd ydyw y ffrwyth, yr hyn yw cynyrch naturiol eu bodolaeth gymdeithasol, ac "wrth y ffrwyth yr adnabyddir y pren."

Crist yw sylfaenydd Cristionogaeth: efe yw yr aelod cyntaf yn y gymdeithas hon; ac ato ef yr ychwanegir pob aelod arall yn y gymdeithas Gristionogol. Efe sydd yn "tynu pawb ato ei hun." Rhaid i bod ymgeisydd am aelodaeth yn y gymdeithas hon roi ei hunan "yn gyntaf i'r Arglwydd ac yna yw bobl;" uno a Christ, ac yna uno a'i ganlynwyr. Rhaid bod yn bersonol gysylltiedig â Christ, cyn y gellir bod yn gysylltiedig â, ac yn aelod o, y

gymdeithas wir Gristionogol. Crist sydd yn derbyn pob aelod i hon. Mae ffigyr yn cael ei ddefnyddio ganddo yn efengyl Ioan ag sydd yn gosod allan gysylltiad cymdeithas Gristionogol yn ardderchog iawn: "Myfi yw y winwydden, chwithau yw y cangenau." Efe sydd yn y dechreuad, ac efe sydd yn ychwanegu y cangenau—hebdo ef ni allwn ni wneyd dim. Fel nas gall y gangen fyw onid erys yn y winwydden, felly ni all dyn fyw yn Gristion onid erys yn y Crist.

Mae pob ymgeisydd llwyddianus am aelodaeth yn y gymdeithas Gristionogol yn rhwym o fod yn gymeriad newydd. Mae y pechadur yn cael ei greu o'r newydd, yn greadur newydd yn Nghrist, ac ar ddelw ei Greawdwr. Mae y credadyn wedi cael ail-enedigaeth. Plentyn cariad pur yw, fel y dywed yr Apostol Ioan—"Gwelwch pa fath gariad a roes y Tad arnom, fel y'n gelwid yn feibion i Dduw." . . . . "Ac y mae pob un sydd ganddo y gobaith hwn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megys y mae yntau yn bur." Felly y mae y Cristion yn ymburo o dan ddylanwad y gobaith a dyf ar gariad ynddo; ac y mae puro personol yn waith llesol i gymdeithas. Ac y mae y cariad hwn, cynrychudd gobaith,

cymellydd ymburo, medd yr Apostol “wedi ei dywallt *ar led* yn nghalonau Cristionogion, aelodau y gymdeithas Gristionogol, i’w cymell i bob gwirionedd. Dywedai Luther, y Diwygiwr mawr: “Crediniwr sydd creadur newydd, pren newydd; felly y mae iaith fel hyn: “Dylai crediniwr gyflawni gweithred. oedd da,” yn anmhriodol iddo ef. Fel nad yw yn briodol dweyd y dylai yr haul lewyrchu, y dylai pren da ddwyn ffrwyth da, y dylai tri a saith fod yn ddeg. Nid oes achos gorchym. yn i’r haul lewyrchu, gan y gwna ef hyny heb orchymyn, yn ol ei natur—crewyd ef i’r dyben hwn, a bodola i’r amcan yna. Felly hefyd y mae y pren da yn naturiol yn dwyn ffrwyth da; ac nis gall tri a saith fod yn ddim ond deg. Felly ni ddylem siarad beth ddylai pethau fod, neu y dygwydd pethau fod, eithr yn hytrach beth sydd yn bod, a pheth sydd yn dygwydd.” Yr oedd Saul o Tarsus cyn dyfod o dan ddylanwad Cristionogaeth, yn erlidiwr; a gwnai ei oreu i niweidio ei gyddynion a broffesent ymlyniad wrth Grist, trwy gwtogi eu rhyddid a’u carcharu. Yr oedd, yn ol ei gyfaddefiad ef ei hun, “yn gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn drahaus.” Eithr wedi iddo gael y drugaredd o brofi dylanwad

cymdeithasol Cristionogaeth, nid oedd awydd erlid a drygu ei gyd-ddynion arno. Teimlai yn hytrach awydd cryf i'w dysgu, eu goleuo, a gwneyd daioni iddynt, trwy eu tywys at y gwirionedd i'w rhyddhau, ac ato ef am yr hwn y dywedir, "Os y Mab a'ch rhyddha, rhyddion fyddwch yn wir." Mae Cristionogaeth yn gwneyd yn gyntaf oll yr unigolion; ac yn ail yn gwneyd cymdeithas o'r unigolion hyn; ac yna yn defnyddio y gymdeithas yn gyfrwng bendithion i'r byd. Mae cael gwir adnabyddiaeth o'r cymeriadau a ffurfiant y gymdeithas hon yn sicr o ddarbwylllo pawb i gredu nas gall ei dylanwad lai na bod yn llesol iawn i'r byd.

Mae dylanwad y gymdeithas hon i'w ganfod yn ngwaith ei gwir aelodau; nid yn ngwaith pob un a elwir ar ei henw; canys mae llawer yn dyweyd, "Arglwydd, Arglwydd," wrth Iesu, ond ei ateb ef iddynt yw, "Nis adnabum chwi erioed." Cristionogaeth sylweddol a chyflawn, fel y mae yn cael ei gosod allan yn y Testament Newydd, ac nid Cristionogaeth fel y myn rhai dynion iddi fod, yw ffynonell y dylanwad ydym yn amcanu ddangos. Mae Iesu wedi dod â'i grefydd, ac yn ei grefydd, i'r byd. Mae wedi rhoi ei

grefydd nid yn unig i ddynion, ond mewn ac am ddynion. Nid yn y personau a ddewisodd Crist yn ganlynwyr iddo oedd y dylanwad yn gynhenid felly; ond yn yr hyn a dderbyniasant hwy oddiwrth Iesu yr oedd y bywyd, y nerth, a'r dylanwad angerddol.

Nid rhoi i'w ganlynwyr yn unig, ond rhoi ynddynt, wnaeth Iesu Grist. Ni ddewisodd yr Athraw mawr gewri dylanwad bydol na gwrthddrychau dylanwad daearol, yn gyfryngau dylanwad iddo ef ei hun. Eithr gwael bethau y byd hwn a ddewisodd ef, yn ol syniad y byd anianol am dynynt. Ni ddewisodd efe Herod, brenin Galilea; Pilat tetrach Judea; Cæser, Ymerawdwr Rhufain. Ni ddewisodd gyfoethogion y byd, byddinoedd y ddaear, enwogion cadfridogol maes y gwaed, cewri athroniaeth, nac enwogion areithyddol a meistriaid y gynulleidfa: yr oedd y rhai hyn oll yn ei erbyn, yn ymosod arno, ac yn cynllwyno i'w ddyfetha; tra mai gwehilion y byd, yn ol barn yr oes hono a ddewisodd efe: pysgotwyr, publicanod, a phechaduriaid. Wedi eu dewis, ni roddodd iddynt aur ac arian i brynu arfau a chodi byddinoedd yn ol dull y byd hwn; ond gosododd ynddynt ddigon o elfenau gorchfygol—"ei ras ef." Cyfranodd

Iesu o hono ei hun, o'i gyflawnder ei hun, elfenau i gynyrchu dylanwad anorchfygol ynddynt hwy, i'w ddadblygu trwyddynt—“Teyrnas nefoedd o'ch mewn chwi y mae.” Gwnaeth hwynt yn lestri i drosglwyddo yr elfenau oeddynt ac ydynt i orchfygu pob gelyn.

Yr oedd Crist mor llawn fel nad allai fod yn guddiedig. Felly hefyd y mae ei wir ganlynwyr, aelodau ei gymdeithas, dinasyddion ei deyrnas—maent mor llawn o'r elfenau nefol, fel nas gallant fod yn guddiedig. Maent fel dinas ar fryn, yr hon ni ellir ei chuddio; maent yn halen y ddaear, ac yn oleuni y byd. Mae eu gweithredoedd da mor amlwg nes y mae dynion yn eu gweled ac yn dychwelyd i roi gogoniant i Dduw.

Yn awr personau fel hyn, cymeriadau o'r nodweddion yna, yw aelodau y gymdeithas Gristionogol. Ac a'u cymeryd fel *achos*, ni all yr effaith fod ond yn fendithol—y dylanwad fod ond yn un bendigedig dda—dylanwad llesol a dyrchafol i'r gymdeithas ddynol drwy y byd.

## PENNOD IV.

*Y Teulu Cristionogol.*

Y man cyntaf y mae dynion yn dod i gysylltiad a'u gilydd, neu y gymdeithas gyntaf a ffurfiant, yw y teulu. Dechreuwyd hi yn Eden, a pharha o hyd yn undeb rhwng dyn a dynes. Dechreuad teulu yw undeb dyn a dynes, yn wr a gwraig. Dyma y fam-gymdeithas. Nid oedd arferiad hyd yn nod y genedl Iuddewig, y genedl buraf ei moesau a rhagoraf ei breintiau, y cyfryw tebycaf i wneyd yr undeb priodasol yn ffynonell cysur i aelodau y teulu. Nid oedd dewisiad personol na chymellion serch dwy galon yn blaenori yn ffurfiad yr undeb hwn, eithr trefniadau yrhieni oedd y cwbl. Felly hefyd yr oedd yn mhlith cenedloedd paganaidd; nid ufuddhau i ddarbwyllion argyhoeddiadol cariad eu calonau a wnai y mab a'r ferch wrth ymbriodi, ond yn hytrach gorfod cydymffurfio yr oeddent a threfniadau masnachol eu rhieni neu eu ceidwaid: nid oedd cariad, serch, a barn personol o gwbl i weithredu ar y ddau cyn eu gwneyd yn un—yn deulu. Ac ni ystyrid yr

undeb yn gyffredin o fawr bwys, fel y cawn ddangos mewn man arall. Ond y mae Dylanwad Cristionogaeth ar y fam gymdeithas hon yn dra rhagorol. Mae wedi cynyrchu yn naturiol yn ol ei helpenau cyfansoddiadol, yr arferiad o ddewisiad personol, ac o garu cyn priodi, a phriodi am fod caru yn weithredol yn myned yn mlaen rhwng y priodfab a'r briodferch; a phriodir hyd angau. Dyma y fath gymdeithas a ffurfir gan ddylanwad Cristionogaeth rhwng y ddau ryw; cymdeithas wedi ei ffurfio fel yna yw priodas yn ol egwyddorion y Testament Newydd: rhaid ei bod o'r nodweddion a nodwyd cyn y gall fod yn deilwng o gael ei galw yn *ordinhad Gristionogol*. Bod rhai a elwir yn Gristionogion yn ymbriodi dan ddylanwad cymellion eraill, ac yn byw yn anghariadus, yn tori priodas, &c., sydd wirionedd. Ond nid yw hyn i'w briodoli i ddylanwad Cristionogaeth; eithr i ddylanwad pethau gwrth-Gristionogol. Cariad yw prif elfen Cristionogaeth; ac y mae yr elfen hon yn cyfranu yn helaeth o honi ei hun i bob cymdeithas a ffurfia. Mae Cristionogaeth yn gorchymyn yn bendant i wr a gwraig *garu* eu gilydd, a pharchu y naill y llall—ymgadw oddiwrth bawb eraill, a bod yn bur i'w gilydd—un



gwr ac un wraig—cyd-gyfaneddu hyd angau. Pan y mae personau yn byw neu yn ymddwyn fel arall, y mae hyny am eu bod dan ddylanwad dyeithr i Gristionogaeth Gymdeithasol. Mae cysegredigrwydd priodas, serch a chariad y priodfab a'r briodferch, a dewisiad personol, yn hynodion a neillduolion yr oes Gristionogol a gwledydd Cristionogol; ac y maent yn fendigedig.

*Parhad Priodas.*—Dywed Geikie yn ei *Life and Words of Christ*, fod dysgeidiaeth yr athrawon Iuddewig yn amser Crist yn caniatáu rhoi llythyr ysgar os buasai gwraig wrth barotoi ciniaw i'w gwr yn dygwydd gadael i'r ymborth losgi! Ac yr oedd y Rhufeinwyr yn ystyried y gallasai gwr a gwraig ddadgysylltu pryd y mynent. Gwnaeth Cicero, ar ol bod yn briod ddeg-ar hugain o flynyddoedd, anfon ei wraig, Terentia, ymaith.

Gwnaeth Cato, yr ieuengaf, ysgaru â'i wraig er mwyn ei rhoddi yn wraig i'w gyfaill. Ond y mae Cristionogion yn ystyried priodas yn gymdeitnas am fywyd. Gwir fod eithriadau i hyn, megys caniatáu llythyr ysgar am odineb, ac am greulonder gwarthus. Ac y mae Cristionogaeth wedi dylanwadu i ddyrchafu priodas, pa le bynag y mae y Beibl, yr efengyl, a

Christianogion yn allu llywodraethol ar gymdeithas.

Ond un peth yw gwneyd haeriad, a pheth arall yw profi yr haeriad yn wirionedd. Mae yn bosibl i ni briodoli gormod o ddaioni i Gristionogaeth, fel ag y mae dosbarth anffyddol yn priodoli iddi lawer o ddrygioni. Pe gadawsem ein gosodiadau uchod heb ychwanegu prawfion i'w cywirdeb, buasem yn euog o'r un peth a Mr. Ingersoll; gwneyd haeriadau heb eu profi.

Mae yn bosibl profi ein gosodiadau mewn amryw ffyrdd, megys yn gyntaf, Dysgeidiaeth y Testament Newydd parth priodas. Mae Crist wrth siarad am briodas yn dweyd: "Ond yr wyf fi yn dywedyd i chwi fod pw bynag a ollyngo ymaith ei wraig, ond o achos godineb, yn peri iddi wneuthur godineb: a phwy bynag a briodo yr hon a ysgarwyd, y mae efe yn gwneuthur godineb." Mat. 5: 32. "Oblegid hyn y gad dyn dad a mam, ac y glyn wrth ei wraig, a'r ddau fyddant yn un cnawd. O herwydd paham, nid ydynt mwy yn *ddau*, ond un cnawd. Y peth, gan hynny, a gysylltodd Duw nac ysgared dyn." Mat. 19: 5, 6. Yn y geiriau yna gwelir mai *dau* yn unig sydd yn cael eu gwneyd yn un; felly, nid oes yma

le i amlwreiciaeth i osod troed i lawr. Gwelir hefyd fod priodas o osodiad Duw, a'i bod yn annhoradwy ond gan Dduw trwy law oer angau. Mae priodas yn cael lle pwysig hefyd yn ysgrifeniadau yr Apostol Paul. Dywed: "Anrhydeddus yw priodas yn mhawb, a'r gwely dihalogedig; eithr puteinwyr a godinebwyr a farna Duw." Heb. 13: 4.

Pan gofom i Cæsar wneyd cyfraith i ddiwygio moesau, a chefnogi priodas, gan ganiau gwobrau a ffafrau neillduol i famau priod, ac i dadau a feddent blant cyfreithlon, gwelwn reswm digonol dros fod yr apostol yn ysgrifenu cymaint ar y mater yma. Dywedir fod gwragedd o rengoedd uchaf cymdeithas yn Rhufain yn gosod eu henwau yn nghofrestrau y puteindai cyhoeddus. Pa ryfedd, felly, fod cymaint o sylw yn cael ei dalu i'r pwnc hwn yn Epistolau Paul? Dyfynwn rai o'i sylwadau: "Ac i'r rhai a briodwyd, yr wyf yn gorchymyn, nid myfi, chwaith, ond yr Arglwydd, nad ymadawo gwraig oddiwrth ei gwr: ac os ymedy hi, arhoed heb briodi, neu cymoder hi a'i gwr: ac na ollynged y gwr ei wraig ymaith." 1 Cor. 7: 10, 11. "Y gwyr, cerwch eich gwagedd megys y carodd Crist yr eglwys, ac a'i rhoddes ei hun drosti."

Eph. 5 : 25. " Ond chwithau hefyd cymain un, felly cared pob un o honoch ei wraig, fel ef ei hunan ; a'r wraig edryched ar iddi barchu ei gwr." Eph. 5 : 33. " Y gwyr, cerwch eich gwragedd, ac na fyddwch chwerwon wrth-ynt." Col. 3 : 19.

*Dysgyblaeth y Teulu.*—Mae Paul wrth eguro egwyddorion cymdeithasol parth teulu, yn ychwanegu at ddyledswyddau gwr a gwraig, ddyledswyddau rhieni a phlant. " Y plant, ufuddhewch i'ch rhieni yn mhob peth ; canys hyn sydd yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda. Y tadau, na chyffrowch eich plant fel na ddigalonont." Col. 3. 20, 21. " Ond maethwch hwynt yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd." Eph. 6 : 4. Y mae hefyd mewn teulu yn fynych gysylltiad meistr a gwas. Felly gosodwn yma orchymyn Cristionogaeth i'r rhai hyn : " Y gweision, ufuddhewch yn mhob peth i'ch meistriaid yn ol y cnawd ; nid a llygad wasanaeth, fel boddlonwyr dynion, eithr mewn symlwydd calon yn ofn Duw ; a phab beth bynag a wneloch, gwnewch o'r galon, megys i'r Arglwydd, ac nid i ddynion." Col. 3 : 22, 23. " Y meistriaid, gwnewch i'ch gweision yr hyn sydd gyfiawn ac uniawn : gan wybod fod i chwithau Feistr yn y nefoedd." Col. 4 : 1.

Mae yn eglur wrth y dyfyniadau uchod fod Cristionogaeth yn cymell pawb i gydnabod eu lle, ac ymddwyn yn gariadus a chyfiawn tuag at eu gilydd, gan fod Duw yn eu dal yn gyfrifol am bob peth a wnant; "A pha fesur y mesuroch yr adfesurir i chwithau."

Yn nesaf, gellir profi ein gosodiad wrth edrych ar briodas a theulu tu allan i ddylanwad Cristionogaeth. Yn hanes cenedloedd y byd cawn dri math o briodasau: Gwraig yn meddu llawer o wyr; gwr yn priodi llawer o wragedd, ac un gwr i un wraig, ac un wraig i un gwr. Gwyr pawb mai y math olaf o briodas sydd mewn bri ac arferiad yn mhob man lle y mae Cristionogaeth yn cael dylanwad llywodraethol ar gymdeithas ac arferion y bobl. Yr oedd crefydd y patriarchiaid ac eiddo Moses yn gefnogol iawn i'r math yma, ond yn Nghristionogaeth, y mae y dylanwad gorchfygol o'i blaid. Cristionogaeth sydd wedi, ac yn parchu *calonau* y teulu dynol yn ddyladwy. Wrth barchu calonau, y mae priodas yn cael ei lle priodol; nid nwyd ac nid golud, sydd yn blaenori, ond gwir deimlad y fynwes. Wrth fabwysiadu y dull Beiblaidd o briodas, y mae y rhyw fenywaidd yn cael ei dyrchafu. Gwedi i'r Ymerawdwr Constantine broffesu

Cristionogaeth, gwaharddodd ysgariad, a dyrchafodd briodas i safle uwch nag y bu erioed cyn hyny yn mhlith y Rhufeinwyr a'r Groegiaid. Ac erys ei waharddiad yn ei rym hyd heddyw yn eglwys Rhufain.

Ac y mae i raddau helaeth mewn arferiad yn Ewrop ac America. Yn yr amser gynt, nid oedd priodas ond pryniad, neu roddiad, neu ddaliad, a lladrad; hyny yw, yr oedd dyn yn dod i feddiant o wraig yn yr un dull a modd ag oedd yn dod i feddiant o ryw bethau eraill. Dywed Chambers fod cytundeb gwerthiad yn sylfaen cysylltiad priodasol yn mhob cyfundrefn o gyfraith henafol: gwerthid y merched gan eu tad yr un fath ag y gwerthid rhywbeth arall ganddo. Yr oedd y cytundeb yn cael ei wneyd heb ymgyngori dim a'r rhai oeddent i ymuno yn un mewn priodas—cytundeb rhwng y ddau dad oedd. Rhoi y ferch i fyny gan y tad, a'i chymeryd adref gan y priodfab oedd yr unig ddefod briodasol mewn llawer man; a'r unig brawf o briodas oedd meddiant o'r briodferch gan y priodfab.

Yn raddol daethpwyd i ymgyngori a'r plant cyn eu huno mewn priodas. Ac fel y nodwyd yn barod, yn mhob man lle y mae eg-

wyddorion Cristionogaeth yn llywodraethu, y mab a'r ferch eu hunain dan ddylanwad cariad a chymellion serch at eu gilydd, sydd yn gwneyd y cytundeb priodasol; tra nad yw y rhieni ond caniatâu, y llywodraeth ond cydnabod, a'r eglwys ond gweddio am fendith ar y cysylltiad.

*Amlwreiciaeth.*—Caniateid amlwreiciaeth i bawb, ond i'r offeiriaid, yn yr Aipht. Caniateid hefyd, a hyny ar sail esiampl eu duwiau a'u duwiesau, i frodyr briodi a'u chwiorydd! Yr oedd cyfraith a chrefydd Babilon a Persia yn caniatâu llawer o wragedd i'w breninoedd; a phob gwraig yn cael ei gosod ar ei phen ei hun—byw yn unig. Ac yr oedd hyd yn nod y Magiaid yn cyfreithloni cyfathrach gnawdol rhwng brawd a chwaer, tad a'r ferch, mam a'r mab.—*Rollin's Anc. Hist.*

Darfu Alexander Fawr wneyd llawer o ddaioni i ddiddymu y ffeidd-dra hwn. Ac er fod engreifftau o foesau isel ac amlwreiciaeth yn mhlith plant Duw yn y Beibl, eto nid yw hyn yn cael cefnogaeth gan y grefydd ddwyfol. Nid oes gorchymyn na chaniatad wedi cael ei roi o'r nef i neb gael mwy nag un wraig tra y byddo hono byw; "Canys y wraig y mae iddi wr, sydd yn rhwym wrth

y ddeddf i'r gwr, tra y byddo efe byw : ond o bydd marw y gwr, hi a ryddhawyd oddiwrth ddeddf y gwr. Ac felly, os a'i gwr yn fyw, y bydd hi yn eiddo gwr arall, hi a elwir yn odinebus ; eithr os marw fydd ei gwr hi, y mae hi yn rhydd oddiwrth y ddeddf ; fel nad yw hi odinebus, er ei bod yn eiddo gwr arall." Rhuf. 7 : 2, 3. Dyna y ddeddf, deddf Sinai, yn ol fel y deallai Paul hi ; ac yr oedd ef yn sicr o fod yn ei deall gystal a neb, wedi ei addysgu ynddi wrth draed Gamaliel. Ac felly hefyd y mae deddf yr efengyl—deddf mynydd Seion.

Ac y mae priodas perthynasau agos yn cael ei wahardd yn bendant yn y Beibl. Mae gwahaniaeth rhwng goddefiad a gorchymyn. Mae Duw yn goddef llawer o ddrygau yn y byd ; ond nid yw hyny yn profi mai dyna ei ddymuniad a'i ewylllys ; goddef amlwreiciaeth o herwydd dyfnder llygredd eu nwyd wnaeth Duw i Israel, a goddef llythyr ysgar wnaeth Moses o herwydd calon-galedwch y bobl, ond nid felly yr oedd o'r dechreuad, eithr yn wryw a benyw y creodd Duw hwynt. Rhaid oedd i Mahomed wneyd Beibl newydd iddo ei hun a'i ganlynwyr cyn y gallodd sefydlu amlwreiciaeth ac israddoldeb y rhyw fenywaidd.



Felly hefyd y gorfu i Brigham Young a Joseph Smith ychwanegu cyfrol o ddysgeidiaeth at y Gyfrol Ddwyfol, cyn cael awdurdod digonol dros amlwreiciaeth. Mae y ffeithiau hyn yn awgrymu ffaith arall, sef nad yw y Testament Newydd yn caniatáu i ddyn gael mwy nag un wraig.

Mae Cristionogaeth wedi dyrchafu y rhyw fenywaidd, wedi rhoi urddas ar y teulu, ac wedi cysegru priodas â chysegriad sanctaidd a dedwydd.

Ac er fod *socialism* gan wahanol *socialists* yn Scotland, Ffrainc, ac America, wedi gwneyd ymdrech wrol i ddifodi y ffurf Feiblaidd o deulu, gellir dyweyd, fel ag y dywedodd un arall—"Y mae y teulu yn graig yn erbyn yr hon, nid yn unig bydd pob ymosodiad yn ofer, ond hefyd, distrywir yr ymosodwr yn chwilfriw wrth ei tharo. Ni allwn, beth bynag, ddychymygu am well ac uwch sylfaen naturiol o deimladau ysbrydol, na pherthynasau teuluol. Y mae unrhyw ymgais i fyned tu draw i'r sefydliad teuluaid, fel sylfaen pob cymdeithas a bywyd, yn ddiwygiad yn erbyn natur, ag sydd yn syrthio yn ol i gymysgaeth—*chaos*."—*Old Faith, &c.*, p. 291.

Yn ol cyfraith Rhufain, yr oedd y gwrag-

edd mor ddarostyngedig i'w gwyr ag oedd y caethion i'w perchenogion hwy.—*Liddell's History of Rome*, p. 400.

Ac fe allai y perchenog wneyd o'i gaethwas fel y mynai heb fod yn gyfrifol i neb am hyny. Dichon y byddai yn anhawdd cael gwell darlun o gyflwr teulu anghristionogol hollol ac o sefyllfa israddol y "rhyw deg" nag a geir yn anerchiad gwraig y Parch. Dr. Butler, y cenadwr cyntaf a anfonwyd allan i'r India gan y Methodistiaid. Yn yr anerchiad dywedai Mrs. Butler: "Y mae y menywod yn yr India, yn myned oddiamgylch a gorchudd dros eu gwynebau. Mae y tadau yn fynych yn ddigofus iawn pan y mae merched yn cael eu geni iddynt; ac y mae y mamau yn cael eu curo weithiau i farwolaeth gan eu gwyr am fod mor anffodus a rhoddi genedig-aeth i ferched. Credir yn India gan y brodorion paganol, os na bydd gan ddyn fab i'w gladdu ef, fod ei enaid yn disgyn i ryw creadur israddol: nis gall merch rwystro yr anffawd yna i'w thad; ac o ganlyniad lleddir lluaws o ferched yn eu mabandod, neu yn yr esgoreddfa. Dyweddïir y ferch pan yn faban; ac ni wyr hi ddim am ei darpar-wr, ac ni cha ei weled chwaith hyd nes eu priodir. Ac ar eu dydd

priodas cânt gyfarfod a'u gilydd a siarad a'r naill y llall am y tro cyntaf: a bwytant un pryd o fwyd gyda eu gilydd: ond ar ol hyny ni cha y wraig byth eistedd i gydfwyta a'i phriod. Y mae hi yn byw allan o'r golwg, mewn trigfan o'r enw zenana, lle y gall gael ei lladd heb fod neb o'r tu allan yn gwybod, gan ei bod yn hollol yn meddiant ei gwr: gall ef wneyd a hi fel y myno. Ni chaniateir i neb ond ei gwr, ei mab, a'r offeiriad fyned ati i'r zenana. Gwelir hen wragedd wedi eu gadael ar lan yr afonydd i farw, a'u traed yn, neu wrth y dyfroedd!

Yr unig hawl-fraint a fedd y wraig yw mell-dithio ei gwr. Ac am y zenana, lle bawlyd, anaddas, hyd yn nod i greaduriaid israddol ydyw; ac y mae yn groes drom i fenywod Americanaidd i ymweled a'r trigfanau afiach hyn." [Traddodwyd yr anerchiad a gynnwysai yr ymadroddion yna o flaen *The Methodist Conference at Fall River, Mass., May, 1881.*]

Dyna gyflwr cymdeithas o dan ddylanwad paganiaeth y 19eg ganrif! Dyna y fath briodas, y fath barch a osodir ar greadur o'r un natur a phriodolddau a pharhad a ninau. Ond y mae dylanwad Cristionogaeth yn dwyn hyd yn nod frodorion India i gydnabod cyd-

Mae y  
 ystyr o'r  
 ystyr o'r  
 Mae y  
 Mae y

Yn awr y mae digon wedi cael ei ysgrifenu  
 genym i ddangos y gwahaniaeth dirfawr sydd  
 rhwng cymdeithas Gristionogol a chymdeithas  
 baganaidd. Gwelir yn eglur ragoriaeth pri-  
 odus, teulu, a chartref Cristionogol ar  
 eiddo rhai paganol. Yma, lle y teyrnasa  
 Cristionogaeth, y mae cariad a pharch gan y

gwr a'r wraig at eu gilydd ; anwyldeb a gofal tad a mam yn amgylchynu yr holl blant yn annibynol ar eu rhyw, a dygir hwynt i fyny gyda phleser a dyddordeb neillduol yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Ac y mae y gweision a'r meistriaid yn teimlo mai brodyr ydynt, ac mai ffyddlondeb a chyfiawnder sydd i'w nodweddu. Felly nis gall y rhai a osodir yn y teulu hwn lai na theimlo awyr iachus a pheraroglus yn eu bywiogi a'u hadloni. A phan yr ant allan i ffurfio teulu eu hunain, byddant yn debygol iawn o ddylanwadu yn llesol ar gymdeithas, yn enwedig os byddant hwy eu hunain yn bersonol wedi darparu elfenau Cristionogaeth i'w calonau i lywyddu eu bywyd.

Mae lluwys o fân-gymdeithasau, yn y rhai y daw dynion i gysylltiadau â'u gilydd megys cymydogion, ond digon ar hyn yw nodi fod Cristionogaeth yn peri i'w deiliaid wneyd i eraill fel yr ewyllysiant i eraill wneyd iddynt hwy—i bob un garu ei gymydog fel efe ei hun. Os gwneir hyn, bydd pob peth yn dda mewn cymydogiaeth. Mae hefyd gymdeithasau dyn-garol, cymdeithasau addysgol, cymdeithasau llenyddol, cymdeithasau i gyfarfod a gwahanol angenion yr hil ddynol, ond gofod a balla i

ni draethu arnynt un ac un yma. Bydd i am rai o honynt gael sylw wrth ymdrin â gwa hanol faterion cyn gorphen y traethawd hwn. Ond y mae dau beth cymdeithasol wedi derbyn i raddau helaeth, ac yn derbyn i raddau helaethach ddylanwad Cristionogaeth mewn modd neillduol—crefydd a gwladlywiaeth.

*Crefydd.*—Y mae Cristionogaeth yn grefydd, ac y mae yn effeithiol iawn ar grefyddau y byd. Nid oes ganddi ond un Duw, un efengyl, un Ceidwad, un aberth, un gobaith, ac un nefoedd, i bawb; ac felly, y mae yn naturiol yn dylanwadu i uno dynion â'u gilydd, a'u gwneyd yn un genedl sanctaidd, un bobl briodol i Dduw, ac i frysio yr amser hyfryd ar y ddaear, pryd na, "bydd ond un gorlan ac un bugail." Y mae dylanwad cymdeithasol Cristionogaeth yn effeithio i ddileu *caste*, ac i ddifodi pob peth a duedda i ysgaru dynion oddiwrth eu gilydd o ran teimlad ac anwyldeb.

*Gwladlywiaeth.*—Yr un modd y mae mewn cysylltiad a gwladlywiaeth; er nad yw Cristionogaeth yn traethu yn benodol, nac yn cefnogi yn neillduol, unrhyw fath o ffurf-lywodraeth wladol, eto y mae tuedd ei helfenau i gymodi pawb, a'u cael i fyw mewn heddwch.

Cyfeiria lygad ein gobaith i'r dyfodol dymunol hwnw, pryd y bydd Cristionogaeth wedi dylanwadu ar y bobl "i guro eu cleddyfau yn sychau, a'u igwaewffyn yn bladuriau;" pryd na "chyfyd cenedl gleddyf yn erbyn cenedl, ac na ddysgant ryfel mwyach." Daw y materion hyn dan sylw eto wrth ein bod yn ym-drin â gwahanol bethau yn fanylach yn y penodau dilynol.

## RHAN II.—YR ADEILAD

*Arweiniad.*

Ni welir dylanwad ond yn ei elfenau a'i ffrwythau. Yr ydym yn barod wedi dangos elfenau Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn rhan gyntaf y gwaith hwn; y mae genym yn awr i ddangos ei ffrwythau. I wybod dylanwad yr haul ar arwynebedd y ddaear, rhaid sylwi ar y cyfnewidiadau a effeithir ganddo. Gwelir dylanwad ei oleuni yn neillduol yn ymlid ymaith dywyllwch y nos; gwelir dylanwad ei wres yn poethi, berwi, a llosgi; sychu, caledu, a thoddi.

Mae y cyfnewidiadau a gymerant le yn dangos ei ddylanwad ar y pethau y daw i gyffyrddiad â hwynt. Mae i Gristionogaeth Haul cyfiawnder; gwelir ei ddylanwad yn ymlid ymaith dywyllwch moesol, anwybod-aeth yr oesau oddiar wyneb deallawl dynion, parth natur a'i Chreawdwr, parth defnyddiau a'u helfenau, parth deddfau naturiol, moesol, ac ysbrydol, a'u defnyddioldeb, a'r perygl o'u troseddu, ac Awdwr y rhai hyn. Mae dylanwad Cristionogaeth yn toddi calon galed pech-



adur, a'i gwneyd fel llyn dwfr; yn gwneyd y marw moesol yn fyw i rinwedd; yn agoryd y deall ysbrydol i weled ardderchawgrwydd trefn gras; yn peri i'r drygionus adael ei ffyrdd pechadurus, a dychwelyd at yr Arglwydd; i gashau y drwg, ac i lynu wrth y da. A dangos hyn drwy brofi ein gosodiadau fydd amcan y pennodau canlynol.

## PENNOD V.

*Cymdeithas yn y Gorphenol, a Chymdeithas yn y Presenol.*

*Dosran 1.*—Crefydd, Moesoldeb, a Gwybodaeth.—Mae crefydd yn rhan o dueddion y natur ddynol; mae crefydd yn gyffredin i bob oes a chenedl yn hanes yr hil ddynol. Ond nid yr un grefydd sydd gan bawb: amrywia cenedloedd ac oesau yn ngwrthddrychau a defodau eu crefydd. Mae yr un peth yn wirionedd parth moesoldeb; ac y mae moesoldeb a chrefydd yn berthynasau mor agos fel na chawn eu cadw ar wahan yn y traethawd hwn. Felly hefyd y mae gwybodaeth yn berthynas agos iawn i grefydd, ac y mae crefyddwyr wedi bod ac yn bod yn gefnogwyr gwresog i wybodaeth — blaenoriaid y naill oedd, ac yw, blaenoriaid y llall; ac o ganlyniad traethwn ar y rhai hyn gyda eu gilydd yn yr un dosbarth.

Golwg digon digalon a ffiaidd sydd i'w gweled ar gymdeithas yn mhob man, lle nad yw Cristionogaeth wedi gwasgaru ei bendith-

ion yno, fel ag i beri iddynt gael eu teimlo yn ddylanwad effeithiol.

Pan ddaeth Iesu Grist i'r byd, yr oedd cymdeithas mewn cyflwr isel iawn. Dywed un awdwr galluog, a'r hwn y cytuna awduron eraill, fod y byd y pryd hwnw yn ei farn grefyddol yn dra amrywiol. Yr oedd y rhan orllewinol o hono yn rhanedig i dri dosbarth: Canlynwyr Epicurus, Zeno, a Plato. Credai y dosbarth cyntaf fod Duw, ond nad oedd yn ymyraeth dim a'r byd presenol; a bod llawer o dduwiau israddol i'r Duw mawr.

Credai yr ail ddosbarth fod y byd yn ddwyfol, a bod Duw yn byw ynddo. Credai y dosbarth olaf o'r tri fod natur yn cynwys Duw, ac mai oddiwrth natur y deillia yr enaid dynol, ac mai i natur y dychwela yn ol yn y diwedd. Yr oedd rhyw debygolrwydd i hyn yn marn y Dwyreinwyr hefyd, er fod gwahaniaeth lawer rhyngddynt a'u cyfoedion gorllewinol. Yr oedd crefydd Groeg a Rhufain yn fwy allanol a gorwych nag eiddo y Gorllewin yn gyffredin. Mae swm gwirionedd a thegwch yn y dyfyniad canlynol: "Y mae haneswyr eglwysig weithiau yn cael eu cyhuddo o osod allan gyflwr moesol y byd paganaidd yn rhy ddu; ac yn sicr y mae ochr oleu i fywyd yn

yr Ymerodraeth Rufeinig olaf, yr hon y myn Mr. Leek, ac eraill a ymhyfyrdant i rodio ar yr ochr heulog i ystrydoedd Rhufain, i ni edrych arni. Ond y mae tu dalenau Tacitus yn ddu gan gofnodion o droseddau; ac y mae condemnïad yr Apostol Paul o foesau y Rhufeinwyr yn cael cadarnhad a chefnogaeth mewn mwy nag un dadguddiad o fywyd claddedig Pompeii. "Pe caem weled bywyd mewnol cymdeithas y cyfnod hwnw yn bortreiedig o'n blaen," ebai Proff. Jolloett, "buasem yn troi ymaith oddiwrth y fath olygfa gyda dygasedd a galar." Pan oedd athronwyr yn areithio yn hyawdl am rinwedd, yr oedd drygioni yn tyfu yn rhy gyffredin, fel nad gwiw oedd llefaru yn ei erbyn, neu ei nodi allan yn warth. Er pregethu moesoldeb, yr oedd caethwasiaeth yn pentyru ei ddrygau i gymdeithas; ac yr oedd llafur rhesymol yn soddi i ddianrhydedd. Er i'r awdurdodau gwladol ychwanegu ychydig at ragorfreintiau y menywod, eto yr oedd priodas wedi myned ac yn cael aros yn gytundeb masnachol yn eu golwg. Fel engreiffiau o hyn, cawn Cato yn gyru ymaith ei hen a'i ffaeledig weision; a dywed Juvenal fod un feistres yn ei digofaint wedi croeshoelio ei chaethwas; ac yr oedd anifaileiddiwch yr oes

yn cael ei foddhau yn y golygfeydd creulon a welid yn y Coloseum.”

Yr oedd gwyr a gwragedd yn ymadael a'u gilydd pryd y mynent; a chaniateid i'r caethion ymgyfathrach: er mwyn lluosogi a magu caethion i'w meistriaid. Mae nodweddion y troseddau am y rhai y cospid â marwolaeth yn dangos tywyllwch meddyliol a dibrisiad bywyd dyn. Canfyddir hyn yn y modd creulon yr ymddygid at garcharorion rhyfel, ac yn neillduol yn ymddygiad yr Iuddewon yn hawlio croeshoeliad Crist, ac yn nghydymffurfiad y Rhufeinwyr a'u cais, er eu bod ar yr un pryd, wedi prawf manwl, yn cydnabod Crist yn ddifai! Ni chaniateir pethau fel yna heddyw yn un wlad wareiddiedig: rhaid profi euogrwydd y carcharor cyn y caniateir cosb arno; os yn ddiuog, amddiffyna y gyfraith ef rhag cael cam, a chosbir ei gam-gyhuddwyr a'i ymosodwyr. Gwelir hefyd greulonder gresynus yn hanes dinystriad olaf Jerusalem gan Titus o Rufain.

Dangosir cigeiddiwch rhyfeddol ac anfoesoldeb du iawn gan yr Iuddewon at eu gilydd tra yr oedd y ddinas yn warchaedig. Ond y mae creulonder mwy, a duach moesoldeb yn cael eu dangos yn ymddygiad y Rhufeiniaid

at yr Iuddewon ffoedig o'r ddinas pan oedd y newyn du yn annyoddefol yno. Gorchymynwyd i'r milwyr Rhufeinig ddal pob Iuddew a'i groeshoelio o flaen llygaid edrychwyr o'r ddinas warchaedig.

Dywedir fod 400 neu 500 yn hoeliedig ar groesau yr un pryd lawer boreu. O'r diwedd yr oedd y ffoedigion mor lluosog, a'r croeshoelio mor aml fel nad ellid cael digon o goed i wneyd croesau at y gwaith. O ganlyniad torid ymaith aelodau y ffoedigion o'r ddinas, a gorfodid hwynt i ddychwelyd yn y cyflwr hwnw i'r ddinas a'r newyn. Ac er hyn oll, ni orchfygwyd ystyfnigrwydd yr Iuddewon—yr oeddynt yn hollol anifeilaidd eu teimladau. Gwell oedd ganddynt ladd eu hunain a lladd eu gilydd, na rhoi fyny yn orchfygedig ac heddychol i'r goresgynwyr, er y buasent wrth hyny yn cael arbediad bywyd ac arbediad i'w teml sanctaidd. Arwydd o ddiffyg gwybod-aeth a dynoliaeth ddyrchafedig yw ymlyniad wrth ystyfnigrwydd pen-boeth a chreulon fel yna. Arferai y cenedloedd yn yr oesau gynt feddianu y tiriogaethau a enillent mewn rhyfel drwy orchfygiad, a chymerent y bobl yn gaethion a gwerthent hwy fel y gwerthid anifeilaidd neu nwyfau. Wedi i Julius Cæsar ddar-

ostwng Prydain, cymerodd lawer o'r brodorion yn garcharorion a gwerthwyd hwynt yn marchnad Rhufain yn gaethion.

Yr oedd pob cenedl yn ystyried pawb tu allan i'w cenedl eu hunain yn farbariaid. Ac yr oedd hyd yn nod athronwyr yr oesau gynt yn cyfrif fod y barbariaid wedi eu creu i fod yn gaethion i bobl wareiddiedig. Hefyd arferid cigeiddiwch rhyfedd—cymerid aelodau y corph ymaith—eid â phen y gelyn gorchfygedig adref ar drostan fel arwydd buddugoliaeth, tra y gadewid ei gorph yn ymborth i adar a bwystfilod.

Mae pethau o'r nodwedd hyn yn cael eu harferyd yn awr gan Indiaid Gogledd America, yr hyn a ddengys mai tuedd natur lygredig llwythau anwaraidd y byd ydyw cigeiddo yn y modd mwyaf creulon eu gelynion, a gorfol-eddu yn eu gwaith anfad.

Nid oedd cyflwr ein mam-wlad, Prydain, yn rhagori fawr ar wledydd eraill mewn moesoldeb a chrefydd. Rhaid cyfaddef gyda Mr. Thomas Levi fod ein cenedl cyn iddi gael Cristionogaeth yn isel a gresynus iawn. "Yr oedd dylanwad yr offeiriaid Derwyddol ar y bobl yn ddiderfyn; ac ni ddarostyngwyd y meddwl dynol erioed yn îs gan eilunaddol-

iaeth nag y darostyngwyd y Celtiaid, yn enwedig yn Mhrydain, gan Dderwyddiaeth . . . Esgymunid pob un nad ymddarostyngai iddynt (yr urdd Dderwyddol); ni chai ddyfod i'w haberthau, ni chai gydymddyddan a'i gymydogion, ac ni chai ei amddiffyn gan y gyfraith. Yr oedd llawer o'u cyflawniadau crefyddol yn farbaraidd a gwaedlyd. Offryment aberthau dynol er mwyn cadw drygau ymaith. Weithiau codent bleth-adail, llanwent hi o blant, ac hyd yn nod â dynion mewn oed, a llosgent hwy yn fyw." — *Prydain Fawr*, *tu d.* 2, 3.

Ac os gwir yw syniad llawer o feirniaid hanesyddiaeth, mai athronwyr Indiaidd ymfudol oedd y Derwyddon, y mae cyflwr Prydain yn ddarlun o gyflwr India; ac y mae cyfatebiaeth neillduol ynddynt hefyd. Ac felly gosodir cyflwr y byd yn hynod o isel a barbaraidd iawn. Ond pan ddaeth Cristionogaeth i Brydain, yr oedd gallu chwildroadol a dyrchafol wedi cyrhaedd y bobl yno, a gorfu i'r barbareaiddiwech hwn ddiflanu yn raddol o'r Ynys Wen; a chodwyd y bobl o iselder dwfn i uchelder gwareiddiad, moesoldeb, a chrefydd ddynol a dwyfol. Ac y mae cyflwr Prydain heddyw, er yn mhell o fod yn berffaith, eto,



yn dra rhagorol, ac yn ddangosiad teg o nod-wedd a thuedd Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth. Dywedir i Gristionogaeth mewn llai na chan' mlynedd ar ol dyfodiad Awstin i'n ynys, ymdaenu drwy holl deyrnasodd Lloegr. Ac y mae haneswyr o'r un farn a Mr. Levi pan y mae yn sylwi fod y "dosbarth isel-af yn gaethion gorthrymedig yn Mhrydain, y rhai a drinid ac a werthid fel anifeiliaid; ystyrid caethwas yn fwy o werth i'w feistr na buwch neu ych, ac agos cymaint a cheffyl."—*tu d. 26.*

Dyna gyflwr cymdeithas Lloegr a Chymru yn yr oesau gynt, a Christionogaeth sydd wedi effeithio y diwygiad eglur a welir ynddynt heddyw. Nid yn unig nid oes caethion yn Mhrydain gartref, ond hefyd y mae wedi rhyddhau y caethion oll yn ei holl diriogaethau, y rhai a breswylir gan genedloedd eraill, ond a lywodraethir ganddi ni. Mae yr enwog Canon Farrar hefyd yn ein cynysgaeddu â darlun du iawn o gyflwr y byd cyn dyfodiad Cristionogaeth iddo: "Yr oedd y byd wedi myned yn hen, a chanfyddid ynfydrwydd paganiaeth yn hynod o echryslon ynddo. Dilynwyd anffyddiaeth mewn credo, fel y mae bob amser yn dygwydd, yn mhlith pob cenedl, gan

ddirywiad moesol. Yr oedd anwiredd ac anghyfiawnder wedi cyrhaedd eu heithafion. Yr oedd athroniaeth wedi colli ei safle ymfrostgar, ond yn ngolwg ychydig bersonau rhagorfreintiol yr oes. Yr oedd camwedd yn beth cyffredinol; ac ni wyddid am feddygiaeth rhag yr arswyd a'r distryw a achosai i filoedd."—*Life of Christ*, p. 110.

Mae Mr. Rollin yn ei *Ancient History* yn ysgrifenu ar hanesiaeth henafol gwahanol genedloedd gan osod allan eu crefyddau, eu moesau, a'u cyflwr cymdeithasol, yn nghyd a dylanwad Cristionogaeth foreuol ar y byd. Mae i bob crefydd gyfryngau gwybodaeth, ac felly yr oedd yn y dyddiau gynt. Yr oedd Oraclau a pha rai yr ymgyngorai yr addolwyr yn aml er hyfforddiant parth eu dyledswyddau a'r dyfodol.

Fel ffrwyth ymgyngoriadau â'r mynegyddion ffugiol hyn, cawn fod creulonder rhyfedd yn cael ei arferyd fel gwasanaeth crefyddol. "Yr ydym," meddai Mr. Rollin, "wedi gwel- ed yn mhlith y Carthaginaid, dadau a mamau yn fwy creulon na'r creaduriaid rheibus; yn annynol, yn rhoi fynny eu plant, bob blwyddyn yn diboblogi eu dinasoedd drwy ddinystrio eu hieuenctyd grymusaf, mewn ufudd-dod i alwadau tybiedig gwaedlyd eu gau-dduwiau.

Dewisid yr aberthau heb dalu gwarogaeth i radd, rhyw, oed, na chyflwr. "Pa fodd y gallent," ebe Lactanius, "osod gwaeth cosbed-igaeth hyd yn nod i ddangos eu *dygasedd mwyaf*, nag wrth ysbeilio eu hedmygwyr o bob teimlad dynol, na thrwy eu gorfodi i dori gyddfau eu plant eu hunain, aci drochi eu dwylaw cysegr-ysbeiliol â'r fath dad-leiddiad atgas!"—*Ancient History—Introduction p. 19.*

Ni ellid cario pethau fel yna yn mlaen heb fod miloedd lawer o ystrywiau twyllodrus yn cael eu harferyd. Ac yr oedd llawer iawn o'r twyll yn cael ei ddadguddio yn barhaus yn Delphi a manau eraill. Eto parhaodd yr oraclau hyn mewn bri am fwy na dwy fil o flynyddoedd, a hyny hyd yn nod yn mhlith athronwyr dyfn-ddysg, tywysogion galluog, ac yn mysg y cenedloedd mwyaf gwareiddiedig a goleu. Ond pan daflwyd goleuni Cristionogaeth arnynt, diflanasant; ac y mae dylanwad yr efengyl yn gwneyd ffwrdd ag aberthiad o fywyd dynol yn aberthau dros bechod, gan fod Iesu Grist ag un offrwm wedi cael i ni, yr hil ddynol, dragywyddol ryddhad, fel nad oes eisiau lladd dyn er mwyn sicrhau heddwch â Duw. "Y mae y tadau yn unol yn eu tystiolaethau, a chadarnheir y dystiol-

aeth gan awduron paganaidd yn unfrydol, fod yr oraclau wedi dystewi ar ol i Grist ddechreu llefaru yn neu drwy yr efengyl wrth y byd. Gwir na ddarfu i'r oll o honynt ddystewi ar unwaith fel pe yn wyrthiol, ond yn raddol naill ar ol y llall, fel ag yr oedd Cristionogaeth yn dod yn adnabyddus i'r bobl, ac yn enill tir yn y byd."

*Dosran 2.*—Gwladlywiaeth a Chynydd Gwladol.—Yr oedd cyflwr gwladlywiaeth yn hynod druenus cyn dyfodiad Cristionogaeth i'r byd. Mae hyn yn eglur yn y ffaith fod ymerodraeth ormesol Rhufain Baganaidd yn ysgwyd ei theyrnwialen waedlyd dros y byd adnabyddus. Hefyd y mae yr un peth yn weledig yn nghymeriad y personau oeddynt mewn awdurdod gwladol yn y cyfnod hwnw. Pe na byddai genym ond Brenin yr Iuddewon, Herod Fawr, yn ddangosiad o'i gyd-deyrnaswyr, mae ef yn ddigon i brofi ein gosodiad. Y fath lofrudd, y fath ormeswr, y fath anfad-ddyn, oedd Herod Fawr, fel y mae yn drais ar y natur ddynol i orfod edrych arno! Lladdodd offeiriaid a phendefigion ei genedl; parodd i aelodau y Sanhedrim gael eu lladd; hefyd dienyddodd archoffeiriaid, ac hyd yn nod ei berthynasau agosaf yn ol y cnawd, ei wrag-

edd a'i blant, a hynŷ am ei fod yn rhyddrwygdybus! Tua diwedd ei oes greulon, gwnaeth i ddau athraw Iuddewig, a deugain o'u hysgolheigion gael eu llosgi yn fyw i farwolaeth, am iddynt dreio tynu i lawr yr eryr auraidd a osododd ef uwch ben porth mawr y deml yn groes i gyfraith y genedl. Ac yr oedd yn yr *Hippodrome* brif deuluoedd y deyrnas, a blaenoriaid y llwythau, a gorchymyn caeth oddiwrth Herod i'w gosod i farwolaeth y fynydd y buasai ef farw. Cofier hefyd mai yr Herod hwn laddodd holl fabanod gwrywaidd Bethlehem a'r cylchoedd gyda yr arcan i ladd y baban Iesu. Ac y mae haneswyr yn dyweyd nad oedd Herod, yn ei gymeriad anfad a'i ymddygiadau creulon, yn eithriad i eraill yn yr oes hono, ac nad oedd ei weithredoedd yn eithafol yn ngoleuni arferiadau llywodraethwyr paganaidd yr hen fyd. Sonia Suetonius mewn cysylltiad â genedigaeth Augustus, fod, ychydig amser cyn iddo gael ei eni, broffwydoliaeth yn Rhufain y genid brenin i'r Rhufeinwyr yn fuan. Ac i osgoi hyn gwnaeth y Senedd Werinol orchymyn i'r holl fechgyn a enid y flwyddyn hono gael marw yn eu mabandod. Ac y mae Eusebius yn dyfynu o Hegesippus, i Domitian orchymyn dinystrio holl hiliog-

aeth Dafydd brenin Israel, gan ei fod yn ofni gallu cynyddol Cristionogaeth. Y mae y pethau hyn yn taflu golŷuni ar gyflwr isel y byd yn ei berthynas â llywodraethau gwladol yr oesau gynt. Ac y mae edrych ar y byd yn awr, ac yn neillduol ar y gwledydd Cristionogol, yn dangos gwahaniaeth dymunol yn ffafr y presenol, ac yn gosod allan ragoriaeth cymdeithasol y byd dan ddylanwad Cristionogaeth.

Mae Cristionogaeth wedi ymgymeryd a diwygio y byd yn mhob ystyr a phob cymdeithas; ond mae y gwaith mor fawr a'r rhwystrau mor aml, a'r gelyn mor gryf, fel mai yn araf iawn y mae yn gweithredu, eithr yn sicr er hyny. Nid yw unbenaeth llywodraethol yn ffurf-lywodraeth gyson ag ysbryd Cristionogaeth. Gwir nad yw Crist wedi gosod allan yn ei Air un gyfundrefn wladol benodol, neu ryw ffurf neillduol o lywodraeth—mae yn ddystaw ar y mater hwn; ac os ydym i gymeryd dystawrwydd yn arwydd o foddlonrwydd, neu os oes rhyw addysg i ni i'w gymeryd oddiwrth hyn parth natur llywodraeth, rhaid i ni yn naturiol ystyried ymerodraeth Rhufain yn esiampl—un lywodraeth i'r holl fyd, a hono yn un hollol unbenaethol, or-

thrymus a phaganol. Ond nid ydym i edrych ar bethau yn y goleu yna; ac nid i ddystawrwydd yr Iesu yr ydym i edrych am gyfarwyddyd parth y modd y dylai gwlad gael ei llywyddu, ond yn hytrach i egwyddorion ac ysbryd ei grefydd. Ac yn sicr y mae cymellion ei grefydd yn tywys ei ddeiliaid i ffurfio gwladlywiaeth hollol wahanol i'r hyn oedd pan y daeth ef i'r byd mewn cnawd.

Dysga Crist i'w holl ddeiliaid i gydnabod mai "brodyr ydynt." Y mae ef am ffurfio un teulu o bawb, heb gydnabod y naill yn fwy na'r llall yn deulu breninol. Y mae efe yn diddymu y gwahaniaeth a fodolai rhwng dynion, ac a osodid allan yn y termau "caeth" a "rhydd;" gesyd ef y naill a'r llall yn ogyfuweh—yn deulu Duw, cenedl sanctaidd, pobl briodol i'r Arglwydd; efe yw eu Brenin ysbrydol a thragywyddol. Nid ydyw er hynny yn dysgwyl i'w ddeiliaid ddiorseddu brenin-oedd y ddaear a dymchwelyd teyrnasoedd y byd drwy rym arfau cnawdol a materol; eithr yn hytrach "arfau ein milwriaeth ni nid ydynt gnawdol, ond nerthol trwy Dduw i fwrw cestyll i'r llawr." (2 Cor. 10: 4). Mae Duw yn bwrw cestyll annuwioldeb i'r llawr drwy blanu ei egwyddorion yn nghalonau dynion, a

gosod ei Ysbryd o'u mewn. Ac y mae teyrn-  
 asoedd yn dymchwelyd, a breninoedd yn di-  
 flanu yn naturiol mor gyflym ag y mae eg-  
 wyddorion Crist ac ysbryd Duw yn cymeryd  
 meddiant llywodraethol ar y bobl. Brenin-  
 oedd ac ymerawdwyr yn dod i gydnabod eu  
 lle, a boddloni ar fod yn gydradd a phawb  
 eraill. Nid ydym wrth hyn yn golygu fod  
 llywodraethau gwladol i gael eu llwyr ddi-  
 ddymu gan ddylanwad yr efengyl. Rhaid i  
 ddynion wrth swyddogion ac arweinwyr  
 gwladol yn ogystal ag arweinwyr a swyddog-  
 ion eglwysig. Ond credwn fod cyfnewidiad  
 yn cael ei effeithio gan yr efengyl parth y  
 modd y mae cael swyddau gwladol: *cymwys-  
 der personol*, ac nid gwaedoliaeth teuluol sydd  
 yn cael ei wneyd yn *safon* eu swyddogaeth; a  
 dewisiad y werin, ac nid yr eiddynt hwy eu  
 hunain, sydd i'w gwneyd yn swyddogion.  
 Gallen feddwl fod y syniadau hyn yn cael eu  
 hawgrymu gan ein Hathraw mawr yn y geir-  
 iau canlynol wrth ei Apostolion. "Chwi a  
 wyddoch fod y rhai a dybir eu bod yn llyw-  
 odraethu ar y cenedloedd, yn tra-arglwydd-  
 iaethu arnynt, a'u gwyr mawr hwynt yn tra-  
 awdurdodi arnynt. Eithr nid felly y bydd yn  
 eich plith chwi; ond pwy bynag a ewyllysio



fod yn fawr yn eich plith, bydded weinidog i chwi; a phwy bynag o hōnoch a fyno fod yn benaf, bydded was i bawb.” Marc 10: 42—45.

Ac y mae hanesiaeth yn cefnogi ein syniadau, fel y cawn ddangos eto. Gallem dybied fod tuedd naturiol Cristionogaeth yn ei chysylltiad â phethau gwladol yn creu Gwerinlywodraeth — llywodraeth o'r bobl, gan y bobl, ac i'r bobl. “Yr oedd Cristionogaeth gyntefig yn hynod o ffafriol i sefydliadau rhydd a gweriniaethol. Gwir ei bod yn gwneyd y bobl yn llai daearol eu hymlyniad; ond eto, wrth ddyrchafu a phuro eu moesoldeb, yr oeddynt yn cael eu paratoi i hunanlywodraeth a rhyddid. Yr oedd perffaith gyd-raddoldeb yn y cynulleidfaoedd Cristionogol cyntaf; a phob awdurdod yn deillio oddiwrth y bobl. Gwerinol yn ddiau oedd ffurf yr eglwys gyntaf; ac felly y Presbyteriaid yn yr ail ganrif ar bymtheg a sefydlasant yr eglwys yn ol cynllun a chynffurf yr eglwys gyntefig; ac oddiwrth hyny arweiniwyd hwynt i sefydlu sefydliadau gwerinol yn y wladwriaeth.

Mae Cristionogaeth yn gefnogol iawn i ryddid. Mae Protestaniaeth yn cyduno yn well â Gweriniaeth nag ag un ffurf-lywodraeth arall. Mor fuan ag y gwnaeth y Diwygiad

roi yr efengyl a'r Beibl i'r bobl gyffredin, yr oeddynt yn hawlio diddymiad caethwasiaeth, a chydabyddiad o'u hiawnderau cyntefig a breiniol yn enw rhyddid Cristionogol."—*Montesquieu.*

Gwelir yr un gwirionedd yn y ffurf-lywodraethau ag ydynt wedi cael eu sefydlu gan ddynion llawn o egwyddorion ac ysbryd Cristionogaeth; megys, Gweriniaeth yr Unol Dal-aethau, a gogwyddiad parhaus Prydain Fawr at yr unrhyw ffurf-lywodraeth: gwelir fod Lloegr, er yn araf, eto yn sicr, yn agosáu at Weriniaeth—rhoddir mwy o ryddid, tecach cyfreithiau, a mwy o gynrychiolaeth; caniateir i'r bobl gael mwy o'u hewyllys yn y wlad-lywiaeth, fel y mae Cristionogaeth yn dod yn fwy dealladwy a dylanwadol yn y wlad. Byddai yn ormod o waith mewn traethawd eisteddfodol i olrhain cynydd pob gwlad er mwyn profi natur dylanwad Cristionogaeth ar ffurf-lywodraeth wladol; ond nis gellir cael gwell na thecach engraifft o hyn na hanes Prydain Fawr. Dyma wlad sydd wedi myned-trwy gyfnewidiadau lawer, ac wedi bod dan ddylanwad llawer o genedloedd o wahanol gredoau crefyddol a gwladol, a saif heddyw yn y rhes flaenaf mewn moes, crefydd, a threfn,

er nid mor rhydd a'r Unol Dalaethau. Mae yn eglur i bob un ag sydd wedi darllen hanes Prydain yn fanwl ac ystyriol, fod trefn, cyf. iawnder, rhyddid, a llwyddiant gwladol yn gynyrchion naturiol y grefydd Gristionogol. Yn hanes Prydain Fawr gwelir yn eglur fel ag yr oedd Cristionogaeth bur yn cymeryd gafael ar feddwl y bobl; fod y wladwriaeth yn dod yn fwy cyfreithiol a theg, a iawnderau dyn yn dod i fwy o fri, a masnach yn cynyddu. Cawn hefyd fod cyflogau yn codi, a'r bobl yn dod i well sefyllfa dymorol.

Ar ol ymddangosiad a llafur y Diwygwyr yn yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, yr oedd mwy o ryddid yn cael ei ganiatau, a mwy o awdurdod yn cael ei gydnabod yn y werin; gogwyddai y llywodraeth yn araf dros glogwyni trais a gormes i ddwylaw y bobl, ac nid y bobl yn suddo yn ddyfnach yn llaw y brenin: yr oedd y brenin ei hunan yn dod i law y werin—y wlad yn dod yn fwy gwerinol yn barhaus; os nid mewn enw, eto mewn ffaith. Yn canlyn y Diwygiad nerthol a gariwyd yn mlaen gan Wicliffe, daeth mwy o awdurdod i Dy y Cyffredin.

Yr oedd yr enwog Brotestanes Elizabeth yn teyrnasu yn Mhrydain o 1559 i 1603, A. D.,

ac ni welodd Lloegr gymaint o adfywiad masnach erioed cyn hyny, ag a welodd yn y cyfnod hwnw. Ac er nad oedd Elizabeth yn deall Cristionogaeth yn drwyadl, nac yn teyrnasu yn hollol gyson â Christionogaeth, eto yr oedd crefydd yr orsedd y pryd hwnw yn fwy Cristionogol nag y bu cyn hyny erioed yn Mhrydain Fawr. Nodweddid ei theyrnasiad gan ryddid gwladol a chrefyddol. Mae hyn i'w weled yn amlwg yn nyoddefiad Ty y Cyffredin yn gwrando araeth odidog y Puritan Peter Wentworth, yr hwn a draddododd araeth yn llawn o hawliau y bobl—rhyddid yn seinio drwyddi oll—rhyddid gwladol a chrefyddol—llais i'r bobl ac i'w cydwybod yn y Senedd yn 1576 O. C. Ac eto ni chafodd yr areithiwr ond cosb ysgafn am y fath feiddgarwch. Ni ddaeth Lloegr i ddeall cysylltiad brenin a'r bobl yn iawn, a gwerth cyfansoddiad sefydlog llywodraeth hyd yn nheyrnasiad William III. (1695—1702), yr hwn “a daflodd hawl ddwyfol breninoedd gyda y gwynt, a dangosodd mewn Senedd rydd ac annibynol fod awdurdod y goron yn dylifo o ewyllys y genedl.”—*Prydain Fawr, tu dal.* 462.

Y mae amseriad pasiad deddfau neillduol a sefydliad gwahanol gymdeithasau yn Lloegr yn profi yr un pwnc.

Wedi i Gristionogaeth Brotestanaidd gael ei sefydlu ar orsedd Prydain Fawr, wedi i'r Beibl gael ei argraffu yn iaith y werin, a'i wasgaru yn mhlith y bobl at eu gwasanaeth, cawn Brydain yn dyrchafu mewn moesau, gwybodaeth, a rhyddid. Ac nid ydym yn synu dim i'r deddfau rhyddfrydol a ganlyn gael eu gwneyd, a'r cymdeithasau bendithiol a sefydlwyd, ddyfod i fodolaeth yn yr amseroedd y cymerodd hyny le. O herwydd y maent yn gynyrchion naturiol yr had a hauwyd yno yn flaenorol; ac y maent yn sefyll yn eu cysylltiad a'u gilydd i raddau helaeth fel achos ac effaith.

Pasiwyd yn Mhrydain yn 1772, O. C., ddeddf fod pob caethwas a diriai yn Lloegr yn berson rhydd; ac yn 1807, O. C., diddymwyd y gaethfasnach yn hollol yn Mhrydain; ac yn 1834, O. C., difodwyd caethwasiaeth yn y trefedigaethau Prydeinig.

Yn awr pan gofiwn fod y Diwygwyr Wesley a Whitfield yn Lloegr, a Howell Harris a Daniel Rowlands yn Nghymru, wedi bod yn gweithio yn egniol i ledaenu, drwy y deyrnas, egwyddorion pur a chywir-gred Cristionogaeth, cyn pasiad y deddfau uchod, a bod amrai o gymdeithasau Cristionogol wedi cael eu

sefydlu yn flaenrol i'r deddfau; megys Cymdeithas Genadol yr Eglwys yn 1778 O. C.; Cymdeithas y Traethodau Crefyddol yn 1779 O. C.; Cymdeithas Genadol Llundain yn 1795 O. C.; y Gymdeithas Feiblaidd yn 1804 O. C.; y Gymdeithas Wyddelig yn 1806 O. C.; y Gymdeithas Genadol Iuddewig yn 1808 O. C.; heblaw llaws o rai eraill o'r un amcanion, yn nghyd a sefydliad yr ysgol genedlaethol a'r ysgol Sabbothol, nid rhyfedd fod rhyddid wedi enill tir yn y wlad, fod y deddfau uchod wedi cael eu gwneyd, a bod dynion yn cael eu dyrchafu, a gwareiddiad yn ymdaenu yn fuddugoliaethus dros y byd. Mae tystiolaethau unfrydol haneswyr yn gefnogol iawn i'n syniad parth cynydd Lloegr dan ddylanwad Cristionogaeth yn fwy na than un dylanwad arall.

Cyfleuwn dystiolaethau ychydig o honynt yma, ac ychwanegwn atynt eraill yn y penodau dilynol. Bydd darllen y tystiolaethau hyn yn sicr o ddylanwadu ar bob meddwl diragfarn i fod yn fwy parchus o rodd fawr cariad y Duw tragywyddol.

Mae yr hanesydd enwog Guizot, wrth draethu ar gyflwr cyntefig Prydain a sefydliad llywodraeth Lloegr yn cyfleu y syniadau can-

lynol: “Uniad *rhyddid* meddyliol fel y bodolai yn yr hen amser, a *gallu* meddyliol fel y dadblygai ei hun yn y sefydliadau Cristionogol, yw yr elfen wreiddiol a phrif nodwedd gwareiddiad diweddar. Ac y mae yn ddiamheu mai yn mynwes y chwyldroad a ddygwyd oddiamgylch gan Gristionogaeth yn mherthynas trefniadau ysbrydol a thymorol, neu berthynas y meddwl a’r byd allanol, y cafodd y chwyldroad newydd hwn ei darddiad a’i oruchafiaeth gyntaf.” Dywed Mr. D’Aubigne, mewn cysylltiad a’r Diwygiad a ddechreuwyd drwy offerynoliaeth M. Luther, ac a gariwyd yn mlaen yn y gwahanol wledydd gan Calvin ac eraill: “Amlygodd Cristionogaeth yr un gallu adgenedliadol yn yr unfed-ganrif-arymtheg ag a ddangosodd ar ei chychwyniad cyntaf: yn mhen pymtheg canrif, cynrychodd yr un gwirionedd yr un effeithiau. Gorchfygodd yr efengyl yn nydd y Diwygiad, fel yn nyddiau Petr a Paul, yr anhawsderau mwyaf gyda nerth buddugoliaethus: cynrychodd ei gallu godidog y cyffelyb effeithiau o’r gogledd i’r deheu, ar genedloedd tra gwahanol o ran arferion, cymeriadau, a galluoedd meddyliol. Cyneuodd y pryd hwnw, fel yn amser Stephan a Iago, dân brwdfrydedd ac ymgys-

egriad yn y cenedloedd difywyd, a chododd hwynt i wres merthyrdod.”

Hanesydd arall a ysgrifennai parth Cristionogaeth a rhyddid fel hyn; “Pan ddaw yr enaid i gydnabod ei berthynas uniongyrchol a gallu uwch-ddynol, mae athroniaeth hawl ddwyfol breninoedd, a dyledswydd deiliaid i roi ufudd-dod llwyr a pherffaith iddynt, yn ymgilio am byth. Fel hyn y mae Protestaniaeth a rhyddid gwladol wedi gwasanaethu y naill y llall drwy holl hanesiaeth ddiweddar. Daethant i waered law yn llaw drwy yr oesau o goll-farnedigaeth a gwaed; gyda tharian wrth darian, y safasant ar faes y frwydr yn Lloegr, Cymru, Ysgotland, Holland, a Germany; ochr yn ochr y chwifwyd hwy ar draws y cefnfor gan yr un aden; ochr yn ochr y tyfasant dan y ffynidwydden a'r gelynen, yn unigrwydd y Byd Newydd. Cymerer parthlen Ewrop, a noder allan y gwledydd hyny a gyrhaeddasant agosaf at ryddid cyhoeddus trwyadl, a byddis wedi nodi allan diriogaethau Protestaniaeth. Nodwch y parthau ag y mae bywyd gwladol a meddyliol yn curo wanaf, a disgyn eich llygaid ar wledydd yn y rhai y mygwyd Protestaniaeth yn foreu yn ei gwaed ei hun, o'r lle y distrywiwyd



rhyddid gwladol a meddyliol gyda hi"—*Ferguson*.

Sylwa Mr. T. Levi ar gynydd Prydain a dywed: "Er fod cynydd cymdeithasol a moesol ein gwlad yn ymddangos ar brydiau yn anghanfyddadwy, eto ceir fod dylanwadau dirgel o'i mewn yn cyson weithredu i berffeithrwydd uwch; ac y mae yn bleser edrych ar welliant a dyrchafiad graddol Prydain Fawr o'i hiselder gwyllt a barbaraid, i'w gorsedd ddyrchafedig bresenol, i eistedd yn flaenaf yn mysg cenedloedd y ddaear." Ac y mae yn ddiameu genym mai "y dylanwadau dirgel o'i mewn yn cyson weithredu i berffeithrwydd uwch," oedd elfenau Cristionogaeth yn meddyliau y werin—elfenau a gyflwynwyd iddynt drwy y Beibl ac ymdrechion y Diwygwyr crefyddol: canlynyddion Diwygiadau crefyddol oedd y gwelliantau mewn moesau, cyfreithiau a rhyddid; ffrwythau y pren Cristionogol ydynt. Mae awdwr pwysig yn cydolygu yn gywir a'r syniadau hyn. Wele ei dystiolaeth: "Mae goruchafiaethau Prydain Fawr yn tarddu yn benaf o un ffynonell—rhyddfrydigrwydd. Yn lle erlid dyeithriaid, cefnogai hwynt; yn lle eiddigeddu wrth eu rhagoriaeth, ceisiai ddysgu a gwella wrth eu

hesiampl. Wrth ddilyn y llwybr hwn yn ddiysgog, y daeth o'r diwedd i ragori ar ei meistriaid, ac i gymeryd y ile blaenaf ei hun." — *Wade's England's Greatness*, p. 291.

Wrth sylwi ar y dystiolaeth hon, dylid cofio yr hyn ydym eisoes wedi ei ddangos, sef mai Cristionogaeth ddaeth a'r *rhyddfrydigrwydd* crybwylledig uchod i Brydain: Cristionogaeth ddysgodd iddi barchu dyeithriaid; cyn dyfodiad Cristionogaeth i'r ynys nid oedd fawr barch i estroniaid yno; ymddygid tuag atynt fel yr ymddygid mewn gwledydd eraill, yn elynol. Dysg Cristionogaeth ni i garu pawb—caru ein cymydog fel ni ein hunain; ac y mae pob cenedl yn gymydog i'r Cristion.

Mae Wade, Knight, Snowblet a Levi, yn un farn yn y syniadau a ganlyn, y rhai osodwn ger bron yn iaith Mr. Levi ei hunan: "Diameu mai dirgelwch nerth a dyrchafiad y deyrnas hon (Lloegr), uwchlaw holl deyrnas-oedd y ddaear yw, fod egwyddorion Cristionogaeth wedi cael cymaint o le yn ei chyfansoddiad, a chymaint o warogaeth gan ei thrigolion." — *Prydain Fawr*, *tu dal.* 488.

Ac y mae Mr. Green, yr hanesydd diweddaraf—gwaith yr hwn a ystyrir y prif waith ar

hanes trigolion Lloegr, yn hollol yr un farn a'r mawrion dysgedig a nodwyd uchod.

Mae pethau eraill, megys rhaniad y tir a thaliad trethoedd, yn dal cysylltiad agos a chymdeithas a gwladlywiaeth. Ond digon ar hyn yw nodi fod yr hen gyfundrefn dirol wr-iogaethol wedi diflanu i raddau helaeth, ac y mae "Mesur Tir y Werddon" a basiwyd drwy ddylanwad Mr. Gladstone yn ddiweddar yn nghyda gogwyddiad y meddwl cyhoeddus fel ei dangosir yn awr gan y bobl yn Ysgotland, Lloegr, a Chymru, yn hawlio diwygiad yn nghyfraith y tir drwy yr holl deyrnas. Mae y bobl wedi blino ar weddillion y *feudal system*, ac y maent yn ngoleuni llachar y bedwerydd-ganrhif-ar-bymtheg, ac o dan ddylanwad dysgeidiaeth y Beibl, yn hawlio y tir i'r werin ac nid ei adael yn eiddo rhyw ychydig o bersonau hunan-deitlog. Ac o berthynas i dalu trethi, mae Cristionogaeth yn cymell ei deiliaid i gydnabod a pharchu y rhai sydd mewn awdurdod arnynt, a "rhoddi eiddo Cæsar i Cæsar, ac eiddo Duw i Dduw." Cyflawnodd Crist wyrth er mwyn cael arian i dalu y drethdrosto ef ei hun a'i Apostol tlawd ei amgylchiadau. Ac felly y mae ei esiampl a'i orchymyn yn cyd-gymell pawb i dalu y trethoedd a

pharchu y llywodraethwyr. Parch i'r hwn y mae parch yn ddyledus, a threth i'r hwn y mae treth yn ddyledus. Nid trwy wrthod talu y trethoedd, ac nid trwy godi arfau, y mae teyrnasoedd y byd i ddyfod yn eiddo ein Harglwydd ni a'i Grist Ef; eithr trwy ddysgu egwyddorion y Testament, a thrwy gael cariad Crist ar led yn nghalonau penaethiaid a deiliaid, y mae yr amser hyfryd i wawrio, trwy gael gwybodaeth yr Arglwydd i doi y ddaear fel y toa dyfroedd y môr—pawb yn adnabod yr Arglwydd o'r lleiaf hyd y mwyaf.

*Dosran 3.* — Cyd-genedlaetholdeb. — Mae ychydig o sylwadau ar y pwnc hwn yn briodol yma; ond nid oes angen llawer o ffeithiau i brofi neu i ddangos fod Cristionogaeth yn dylanwadu i ffurfio cymdeithas gyd-genedlaethol, yn tynu cenedloedd at eu gilydd. Yr oedd y Groegiaid yn genedl athronyddol—cenedl wrteithiedig; ond yr oeddent yn gyfranogion o nodweddion cenedloedd paganaidd yn gyffredin. Yr oedd elfenau eu hundeb cenedlaethol yn cael dangosiad a chryfhad yn undeb gwaed, undeb iaith, undeb defodau crefyddol, ac undeb arferion, cyd-gyfarfyddent wrth yr oraclau, ac yn y gwyliau cenedlaethol. Yr oedd eu hundeb yn undeb i gadw eu han-

nibyniaeth trefedigaethol. Yr oedd yn an-mhosibl i Groegyddiaeth enill tir a dal y byd yn un, gan na chydabyddid cydraddoliaeth y llwythau, ac unoliaeth y teulu dynol: tu allan i'w cenedl, barbariaid oedd pawb, gwrth-ddrychau i'w gwrthod a'u cashau. Pan dorodd rhai o'u penaethiaid dros y terfynau er mwyn boddloni uchelgais bersonol, gwnaethant hyny ar draul agor y ffordd iddynt gael eu dinystrio; er llwyddo am ychydig, llwyddo i golli eu bodolaeth genedlaethol annibynol a wnaethant.

Y mae yr un peth yn wirionedd am y Rhufeinwyr a holl genedloedd y byd: mae rhyw ddygasedd a chulni yn y naill genedl at y llall; ac y mae "*caste*" yn gwthio llwythau a chenedloedd oddiwrth eu gilydd. Ond y mae Cristionogaeth yn meddu undeb eangach na chylch cenedl a gwlad; neu, yn hytrach, y mae amgyffrediad eangach o'r pethau hyn gan Gristionogion. Golygant fod undeb gwaed rhwng pob dyn; ac ymdrechant ymdrech deg i gael undeb crefyddol rhwng pob person, o bob llwyth, iaith, a phobl, a rhyddid brodyr a chwiorydd i'r oll yn efengyl Crist.

Y mae Cristionogaeth drwy daenu ar led yn nghalonau ei deiliaid gariad Crist, yn cymell

iawn i gart a gilydd a charu hyd y nod eu  
 gartym : a gwned da i'r rhai a wnant niwed  
 i'w. I'r y fengyl genedloedd at eu gil-  
 ydd : ma h'gwrthau gwahanol a rhwymyn  
 gart a mangreidd : una wledydd, a ffurfia  
 rhyngddynt undeb cyd-genedlaethol. Mae y  
 duodd undeb hon yn cael dadblygiad yn y  
 cledfryd yr y traws-gamlesydd, yn y ffyrdd  
 tan-ddaearol a wneir o un wlad i wlad arall ;  
 marts yr un a wneir yn bresenol dan yr  
 English Channel i gysylltu Lloegr a Ffrainc.  
 Tyllir mynyddau, a gorchuddir afonydd a  
 phontydd anferth i'r dyben i ddyfod a gwled-  
 ydd a chenedloedd i undeb a'u gilydd. Mae  
 y llythyr-god, y pellebyr, a'r pell-leferydd, yn  
 ddangosiad o'r un awyddfryd : cynyrchion  
 gweithrediad Cristionogaeth ar y deall a'r  
 galon yw y rhai hyn. Ac y mae yr oll yn  
 dangos fod yn y byd yn awr ddylanwad new-  
 ydd anadnabyddus i'r henafiaid ; dylanwad yn  
 gweithredu er enill pawb, yn raddol, i gyd-  
 feddwl, cyd-deimlo, cyd-garu, a chydweithio ;  
 a hyny er mwyn dadblygiad dynoliaeth a lles  
 yr holl gorph, yn ol cyfiawnder ac mewn  
 heddwch.

Yr oedd Paul yn pregethu yr athrawiaeth  
 hon wrth yr Areopagiaid ar Mars Hill yn

Athen, pan y dywedai fod Duw o un gwaed wedi gwneyd pob cenedl i breswyllo ar wyneb yr holl ddaear—un Duw, un gwaed, ac un ddaear. Ceisiai yr Apostol gan yr Atheniaid i beidio ymgodi o ran eu teimladau a'u syniadau uwchlaw pawb eraill; cymellai hwynt i barchu pawb fel eu perthynasau agos, o'r un gwaed, a thrigolion yr un byd, a chreaduriaid yr un Creawdwr.

Nid yw yr egwyddor hon yn Nghristionogaeth yn lythyren farw yn y Cristionogion. Mae y cymdeithasau cenadol, y personau a aberthant eu harian, a'r cenadon a ymgyflwynant i waith cenadol yn mysg paganiaid anwaraidd y byd, yn dangos yr egwyddor hon mewn gweithredoedd teilwng o edmygedd.

*Dosran 4.*—Manteision y gorphenol.—Nid ydym i feddwl fod y byd yn gwella yn naturiol yn yr oes hon am fod pethau yn awr yn addfedu o ran eu hunain yn eu tymor priodol; ac na chafodd y byd fanteision na chewri yn y pedair mil cyntaf o flynyddoedd oes ei breswyliaid gan ddynion.

Pe buasai athrylith, hyawdledd, cyfoeth, a gallu milwrol, yn medru diwygio y byd, buasai hyn wedi ei wneyd i berffeithrwydd uchel cyn dyfodiad Cristionogaeth iddo.

Bu yr Aipht yn gartref gwybodaeth, crefydd sytheth, a gallu milwrol enwog, ac yn vehwanegol ar hyn bu Rhagluniaeth yn gwenu yn neidloidi ar y wlad hono: ond er hyn oll, ymllyrodol a syrthiodd i ddiinodedd. Y mae yr Aipht heddyw yn hen wlad, ac yn hen wlad druenus ei chyflwr, yn wrthddrych tosturi, ac yn faes agored i elusengarwech weithio yn mysg trigolion gwir angenus. Daeth Babilon, Media a Persia i fri mewn gwybodaeth, crefydd a gallu milwrol a gwladol—cawsant gewri lawer, ond gorchfygwyd hwynt, a diflanodd eu dylanwad. Cododd y Macedoniaid i awdurdod, a'r Groegwyr ar eu hol hwynt, gydag Alexander Fawr yn dad y llywodraeth; ond gorfu iddynt hwythau ymgilio o'r maes gan adael Rhufain a'i lluman i arglwyddiaethu y byd; ond maent oll wedi diflanu er ys oesau bellach, gan adael y byd yn yr un cyflwr isel, yn nghanol tywyllwch mawr a barbareidd-dra du.

Dywed Rollin, wrth edrych ar hanes y byd cyn i Iesu Grist ddod a'i grefydd iddo, "Wele yma, a siarad yn iawn, ddarlun ar radd fechan o barhad yr oesau, o ogoniant a gallu ymerodraethau y byd; mewn gair, o bob peth mwyaf gorwych ac abl i enyn edmygedd yn



mawredd dynol! Y mae pob ardderchawg-  
rwydd, drwy gyd-gyfarfyddiad dymunol, yma  
i'w gael; tân athrylith, lledneisrwydd chwaeth,  
yn cael eu canlyn gan farn gadarn; gallu ar-  
eithyddol anghyffredin yn cael ei gario i'r per-  
ffeithrwydd mwyaf, heb ymadael oddiwrth  
natur a gwirionedd; gogoniant arfau rhyfel,  
a chelf a gwyddor; gwroldeb yn gorchfygu, a  
medr yn llywodraethu. Y mae y byd wedi  
cael yn agos bob math o ffurflywodraeth:  
patriarchiaeth, breniniaeth, ymerodraeth a  
gweriniaeth o wahanol fathau; ac eto, ni all-  
asant ddiwygio y byd. Y fath dorf o ddyn-  
ion mawrion o bob dosbarth y mae y darlun  
yn godi i'n sylw! Y fath freninoedd galluog  
a gogoneddus! Y fath gadfridogion! Y fath  
orchfygwyr! Y fath lywodraethwyr! Y fath  
athronwyr dysgedig! Y fath ddeddf-wneuth-  
urwyr edmygol!"—*Ancient History*, p. 566.

Ond er y cwbl, gadawyd y byd mewn ystyr  
foesol, yn isel; mewn ystyr grefyddol, yn  
eilunaddolgor; o ran gwybodaeth, yn dywyll-  
wch; ac o ran cyfraith wladol, yn greulon,  
gorthrymus ac anwaraidd.

Ond er na fedrodd y mawrion uchod godi y  
byd i safle foesol ac anrhydeddus; daeth Un  
i'r byd yn llawn o'r elfenau "gras a gwirion-

Yn hysbysu i'r holl bobol, a  
 yn hysbysu i'r holl bobol i wneud  
 yn hysbysu i'r holl bobol all rei ffordd  
 i'r holl bobol i'r holl bobol i'r holl bobol  
 i'r holl bobol i'r holl bobol.

Yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol  
 yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol  
 yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol  
 yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol  
 yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol  
 yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol  
 Ond am Iesu,

Yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol

Yn hysbysu i'r holl bobol i'r holl bobol

Ac eto y mae yn orchfygu byd-glodus.

Gorchafiaeth allanol yn unig oedd eraill yn  
 gaei; ac felly, o angenrheidrwydd, yn diflanu.  
 Ond Crist, gorchafiaeth fewnol yw ei eiddo  
 ef. Y mae yn gosod ei ddylanwad ar y galon,  
 yr ewyllys, y serch, a'r deall, a hyn ar bob un  
 o'i ddeiliaid yn bersonol. Ac wedi gorchfygu  
 y mewnl, ufuddha yr allanol yn ewyllysgar  
 a diolchus. Gorchfygu er mwyn caethiwo a  
 darostwng wnaeth pawb eraill; gorchfygu er  
 mwyn rhyddhau a dyrchafu y mae Iesu: "Os  
 y Mab a'ch rhyddha chwi, rhyddion fyddwch  
 yn wir." Nid rhyddid ysbrydol yn unig sydd

briodol feddwl i'r geiriau yna, eithr rhyddid daearol a thymorol hefyd.

Y mae natur goruchafiaeth Cristionogaeth yn sicrhau ei pharhad a'i helaethiad. Llwyd orchfygir y byd gan ddylanwad Cristionogaeth. Mae crefydd Crist i gael cymdeithas yn gwbl dan ei dylanwad; ac y mae yn ddymunol genym ar ol edrych dros y maes i allu tystio fod Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn crefyddoli, moesoli, gwareiddio, dysgu, uno, a heddychu pawb; yn dwyn y berthynas a fodolai yn wreiddiol rhwng dynion, ac a fodola eto, i amlygrwydd, a sefydlu anwyldeb goleuedig a rhesymol rhwng pawb o bobl y byd.

## PENNOD VI.

*Crynhoad o Ffeithiau a'u Hawgrymiadau.*

Mae Cristionogaeth yn dylanwadu i ddysgu, moesoli a chrefyddoli y byd. Cefnogir y gosodiad yna gan brif awduron yr oesau. "Daeth Homer, y bardd Groegaidd, yn apostol gwareiddiad, ac yn dad gwrteithiad meddyliol; gwnawd ef, drwy ei weithiau, yn brif athraw i feibion Groeg; yn gymellydd i feddyliau urddasol a gweithredoedd beiddgar gwroniaid."—*Dr. Newman.*

Daeth ar ei ol ef gewri llenyddol eraill, yn feirdd ac yn athronwyr; gwnawd Groeg yn gartref gwrteithiad meddyliol, fel ag y bu Rhufain yn ganolbwynt llywod-ddysg. A daeth cynyrchion meddyliau y Groegiaid, drwy redwelïau Italaidd, yn alluoedd dylanwadol iawn ar y byd o blaid gwareiddiad a dysgeidiaeth. Ond er fod cynyrchion cewri Groeg yn frith gan grefydd a duwiau, eto fel yr oeddent yn dyfod yn mlaen drwy yr oesau, ac i blith gwahanol genedloedd, yr oeddynt yn gadael eu dylanwad a'u nodweddion crefyddol ar ol yn eu mangre enedigol; yn unig car-

ient ddylanwad ar y meddwl yn ffafr gwybodaeth, ac ar yr ymarweddiad yn ffafr moesoldeb; ond ni allent wneyd dim â'r galon a'r gydwylbod yn ffafr eu duwiau a'u crefydd.

Rhaid oedd cael ffrwd gref a rhinweddol o Jerusalem i lanhau y galon a thawelu cydwylbod euog. Yr oedd dylanwad Cristionogaeth yn orchfygol ar baganiaeth; yn glanhau dysgeidiaeth oddiwrth gyfeiliornadau crefyddol. Yr oedd dylanwad yr "afon bur o ddwfr y bywyd" y fath ag i atal yn hollol rediad ffrydiau crefyddol Homer, Hesiod, Pindar, Æschylus, Sophocles, Aristophanes, Socrates, Plato, Aristotle, &c.

Pe buasai bardd a barddoniaeth yn alluog i adferyd y byd, buasai Homer ac eraill wedi llwyddo; pe buasai hyawdledd areithyddol yn medru dod a'r byd i'w le, buasai hyn wedi cael ei wneyd gan Demosthenes, prif siaradwr yr hil ddynol.

Pe gallai athronwyr dwfn-ddysg wareiddio dynion a'u dyrchafu, buasai hyn wedi cael ei wneyd gan bersonau fel Socrates a Plato. Yr oedd Socrates yn wir fawr fel athronydd; braidd na welodd wirioneddau mawrion Cristionogaeth yn llyfr natur. Yr oedd Plato yn athronydd moesoldeb a gwladlywiaeth gyda y

goreu o ddynion a ddaeth i'r byd erioed, ac ystyried yr oes yr oedd yn byw ynddi. Yr oedd y ddau gawr hyn yn dysgu dirwest, cyfiawnder, a bywyd rhinweddol. Er hynny, yr oedd hadau llygredigaeth yn eu hathrawiaeth, yn enwedig parth cysylltiad y bobl a'r llywodraeth wladol.

Honent fod y bobl yn bodoli er mwyn y llywodraeth, ac nid y llywodraeth er mwyn y bobl. Cafodd y byd, fel y nodwyd eisoes, ddynion mawr eraill. Dyna Aristotle, er engraifft, yr oedd ef yn ddysgawdwr mawr a dylanwadol; a dywedir iddo ddyfod yn agos iawn yn ei drefniadau at angen dynolryw. Ond er cael cewri mewn dysg, hyawdledd, rhinwedd a gallu, eto, enw Iesu sydd yn bwysig yn y byd; ynddo ef y mae gallu dyrchafol dynoliaeth; efe a'i gyfundrefn sydd wedi, ac yn codi, y byd tua'r nefoedd. Nid rhyfedd fod yr enwog T. Erskine wedi ysgrifenu y sylwadau canlynol wrth gydmaru y Beibl â llenyddiaeth gyffredin yr oesau. "Yn y Beibl gosodir Duw allan fel yn gwneyd pob peth, ac fel yn achos a thuedd pob peth; ac y mae dyn yn ymddangos yn unig fel y saif yn ei gysylltiad â Duw naill a'i fel creadur gwrthryfelgar neu yn wrthddrych dwyfol ras.

Tra yn y byd, ac yn llyfrau hanesiol y byd, yn ol ei farn ei hun, ymddengys dyn fel pe yn gwneyd pob peth ei hunan; ac y mae can lleied o gyfeiriad at Dduw a phe na byddai gwrthddrych felly yn y bydysawd." Y mae hyn yn awgrymu nad yw dylanwad llenyddiaeth ddynol tu allan i ddadguddiad Dwyfol yn dylanwadu i uno y byd a Duw.

O'r tu arall, y mae yn amlwg fod Cristionogaeth yn cymodi y creadur a'i Greawdwr— yn gwneyd dyn yn grefyddol yn ogystal ac yn ddysgedig. Bod Cristionogaeth wedi gwneyd hyn eisoes sydd osodiad a ategir gan dystiolaethau hanesyddol. Ac yn mbellach, ni ddaeth llenyddiaeth i fri gwirioneddol a sier hyd nes i Gristionogaeth ddyfod i anrhydedd yn y byd; wedi iddi hi enill gorseddau teyrnasoedd i'w deiliaid y cafodd gwrteithiad meddyliol gyflawn ddadblygiad; pryd hyn y daeth ysgolion o'r A B C yn mlaen hyd yr W a'r Y ysgolawl, yr Alpha a'r Omega dysgeidiaeth, i'fodolaeth a bri yn mysg cenedloedd y ddaear; ac yn mysg y cenedloedd Cristionogol y mae ysgolion a gwybodaeth yn cael cefnogaeth a nawdd y lluaws, ac nid yn y gwledydd paganaid. Y mae yn anhawdd peidio teimlo wrth sylwi ar ogwyddiad pethau, fod

dylanwad Cristionogaeth o blaid agor holl gelloedd y deall, a holl drysorau llenyddiaeth; cymella yn gefnogol bob meddwl uchelryw i ddwyn allan syniadau prydfferth a chywir, parth natur, daear a dyn, yn ogystal a dysgeidiaeth parth yr ysbrydol.

Yn sicr, y mae meddwl arwyddocaol iawn yn y ffigyr, "Haul cyfiawnder a gyfyd i chwi . . . . a meddyginiaeth yn ei esgyll." Gwedi i'r Haul hwn godi, daeth yn ddydd goleu ar y byd moesol—ar wybodaeth a chrefydd. Y mae eisoes waith wedi cael ei wneyd yn y byd a barha byth, er pan gododd yr Haul hwn. Mae cyfiawnder wedi dyfod gydag ef—gwasgara dueddiadau cyfiawn yn mysg y bobl; mae ei fendithion yn feddyginiaeth ag sydd yn gwella y byd, er yn raddol, eto yn sicr. Dylanwadodd ei oleuni a'i wres ar ffynonellau natur, ac ar gloion y byd i'w hagoryd. Gwedi i'r Haul hwn godi, mae gwyddoniaeth a chelfyddyd wedi gwneyd gorchestion synfawr; darganfyddwyd deddfau lawer yn natur; ac y mae cywreinrwydd y meddwl dynol mewn celfyddyd wedi ymenwogi drwy ddyfeisiadau lluosog. Mae y byd wedi gwneyd gwaith mawr, wedi teithio llawer tuag at berffeithrwydd er pan ymddangosodd yr Haul hwn yn



ffurfafen y byd i wneyd y dydd Cristionogol. Yr ydym yn cael yn hanes Prydain Fawr, mai wedi i Gristionogaeth fyned yno y dechreuodd y trigolion ymddadebru o'u cwsg i ymgymeryd a'r gwaith o wella eu hamgylchiadau, a lluosogi eu cysuron drwy ddiwydrwydd personol. Yn nheyrnasiad Elizabeth y bu Lloegr yn fwyaf ymroddol i fasnachu a gwledydd eraill—y daeth morwriaeth yn elfen bwysig—y daeth y bobl i godi tai gweddus iddynt i fyw ynddynt—i amaethu yn gelfyddgar—i fynu ymborth o radd uchel, ac i wisgo yn drwsiadus a gweddaidd. Daeth llenyddiaeth i fri, a'r wasg i anrhydedd. Dyma yr adeg y cymerwyd at wneyd defnydd teilwng o'r argraff-wasg. Ac er y gorfu i lawer o fynachdai gael eu dinystrio o herwydd culni ac ystyfnigrwydd Pabyddol y mynachod, eto sefydlwyd llawer o ysgolion uwchraddol yn y wlad, a pharhant i gynyddu o hyd mewn nifer, ac y maent yn llaw-forwynion Cristionogaeth i ddiwyllio a magu y werin yn addysg ac athrawiaeth gwareiddiad, moesoldeb, gwybod-aeth, rhinwedd, a chrefydd. Y mae yr un math gynydd i'w weled yn amser Cromwell, y Senedd Fach, a'r Weriniaeth Brydeinig yn yr ail-ganrif-ar-bymtheg. Hyd y dyddiau hyny,

ni bu person mwy Cristionogol mewn awdurdod gwladol erioed yn Lloegr; ac fel canlyniad naturiol, ni bu rhyddid cydwybod yn mhob ystyr yn cael mwy o le yn y wlad nag yn y tymor hwnw. Yr oedd Cromwell yn gofalu hefyd i ddefnyddio pob cyfleusdra i gael pob gwlad a llywodraeth ag yr oedd cytundeb rhwng Lloegr a hwynt, i sicrhau, nid yn unig ryddid masnachol, ond hefyd ryddid cydwybod, a phrawf teg yn mhob llys. Nid oedd egwyddor rhyddid crefyddol yn cael ei deall yn y wlad hon hyd adeg fyth-gofiadwy y Weriniaeth; Cromwell ydoedd ei hesboniwr a'i sylfaenydd."—*T. Levi, Prydain Fawr, tu dal.* 402.

Gellir dyweyd am Weriniaeth yr Unol Dal-aethau hefyd, fod nodwedd rydd ei chyfansoddiad wedi cael ei ganfod a'i gyfleu, neu ei osod yn safon y llywodraeth, gan ddynion crefyddol, wrth edrych ar a myfyrio Cristionogaeth yn ei gweithrediad eglwysig. Ac y mae gogwyddiad presenol Ewrop, yn ogystal a theimladau a meddyliau cenedloedd mwyaf goleuedig y byd, yn naturiol yn galw am ryddid—rhyddid cyflawn. "Mae yn eglur nas gall dynoliaeth byth sylweddoli y drychfeddwl o berffeithrwydd cymdeithasol, ond drwy

neu fel cymdeithas resymol, drwy undeb a brawdoliaeth y teulu dynol, a chysoni pob unigolyn â'r rheswm dwyfol. . . . Sier yw nasgellir ei ddwyn oddiamgylch byth drwy sefydliadau gwladol yn unig, gan unrhyw gydbwysiad o'r galluoedd cyd-genedlaethol. Cristionogaeth yn unig all effeithio y brawdoliaeth cenedlaethol hwn, a rhwymo yn nghyd y teulu dynol mewn cymdeithas rydd, resymol a moesol."—*Guizot History of Civil.*, p. 31, n.

“ Mae deddfau cymdeithasol Crist a'i apostolion tu hwnt i bob dadl, y rhai perffeithiaf a roddwyd erioed i'r byd.”—*Christian Soc.*, p. 42.

Pan yr ystyriom yr hyn y mae y Beibl a Christionogaeth wedi wneyd yn y byd, nid yw yn rhyfedd fod y syniadau canlynol i'w cael yn “*Freeness of the Gospel*,” gan y diweddar T. Erskine, Esqr.: “ Y mae yn anhosibl edrych i'r Beibl gyda gradd gyffredin o sylw a myfyrdod, heb deimlo ein bod wedi dyfod i awyrgylch foesol hollol wahanol oddiwrth yr hyn a anadlwn yn y byd, ac yn llenyddiaeth y byd.”

Mae Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn Dduwgarol a dyngarol. Nid oes achos cofnodi dim i brofi fod crefydd Crist yn dod a.

dyn i garu Duw; mae y gosodiad yma yn hunan-brofedig. Ac y mae yr ysgolion, yr ysbyttai, a gwahanol gymdeithasau noddawl ac elusenoi a hynodant y cyfnod hwn oddiwrth bob cyfnod arall yn oes y byd, yn profi DYNGARWCH Cristionogaeth. Gellir dyweyd gyda phriodoldeb neillduol, fod yr ysgolion yn dyst-golofnau o Grist fel Athraw; yr ysbyttai yn gof-golofnau o hono fel Meddyg, a'r cymdeithasau gwahanol yn golofnau mynegol o hono fel Dyngarwr; cynyrchion ei oes ef ydynt.

Dyna "*The Royal National Life-boat Institution*" yn engraifft deg o ddylanwad Cristionogaeth i gadw bywyd naturiol dyn. Achubwyd 12,282 o fywydau drwy gymorth y Gymdeithas hon, erei dechreuad yn 1824 O. C. hyd 1861 O. C. Mae wedi-gwario miloedd lawer o arian i wneyd bywyd-fadau, a'u defnyddio mewn gwahanol fanau, a GWEINIDOG EF-ENGYL CRIST oedd prif ddyfeisydd y gelf fendigedig hon. Y mae yn yr Unol Dalaethau hefyd ei "*Life Saving Service, an Organized Bureau of the Treasury Department,*" i'r un amcan a'i chwaer gymdeithas yn Mhrydain Fawr.

Yn yr hen amseroedd, yr oedd mordeithwyr yn ofni llong-ddrylliad ar unrhyw lan, rhag y

byddai yno haid o lofruddion a fyddent yn byw ar beth o'r fath, a chael eu lladd er mwyn cael eu heiddo. Yn awr, y mae ar hyd glanau ein moroedd a'n llynoedd mawrion orsafoedd a darpariadau i gynorthwyo, ac i achub bywyd a meddianau morwyr a mordeithwyr a oddiweddir â llong-ddrylliadau o fewn eu cyrhaedd. Yn 1880, dygwyddodd 300 o alanas-trau i longau yn nhiriogaethau y "*Life Saving Service*," yn cynwys ar eu byrddau 1,989 o bersonau; ond ni chollwyd o'r rhai hyn ond naw. Dyma beth o ffrwyth Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth. Pethau oes Crist yn y byd, a phethau gwledydd Cristionogol, ydynt y pethau hyn, er eu bod yn cael eu hanfon gan ddyngarwch Cristionogol i wledydd eraill. Y mae yr ymgeision hyn yn ngwledydd Cristionogol yn dra gwahanol i ymddygiadau trigolion paganaidd Bagdad yn 1831, mewn cysylltiad â bywydau dynion yno. Yno, amser y pla mawr, cododd yr afon, a golchodd ymaith 15,000 o'r trigolion; ond ni wnaeth y bobl un ymdrech i'w hachub, nac un sylw o'r peth.—*Divine Government, Dr. Melash, p. 247.*

Meddylier eto am y gwahanol Gymdeithasau Cenadol o eiddo Cristionogaeth, y rhai a

anfonant genadon i bob parth o'r byd i ddysgu a gwareiddio y paganiaid, a bydd hyn yn sicr o ddylanwadu ar y meddwl yn ffafriol i Ddylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth. Gosodwn ger bron yma ddarlun yn dangos y gwahaniaeth sydd rhwng dynion dan ddylanwad paganiaeth a dynion dan ddylanwad Cristionogaeth. Cawn y darlun yn yr hanesyn canlynol gan y cenadwr Affricanaidd cyntaf, sef Mr. Moffat. Dywed: "Yn un o'm teithiau cyntaf, daethum, gyda'm cymdeithion, i bentref paganaidd ar lanau yr Orange River. Yr oeddem wedi teithio llawer, ac yr oeddem yn newynog, sychedig, a blinedig iawn; ond gwnaeth trigolion y pentref yn lled swrth ein gorchymyn i aros draw, a sefyll dipyn o ffordd oddiwrth y pentref. Gofynasom am ddwfr, ond ni wnaent ei roi ef. Cynygiais iddynt y tri neu'r pedwar botwm oedd weddill ar fy nghôt am ddracht o laeth, ond gwrthodasant ef. Yr oedd ein rhagolygon felly am noson arall o newyn, o gyrhaedd dwfr, er fod afon yn ein golwg, yn eithaf digalon a thruenus iawn. Ond gyda gwyll y nos, gwelem wraig yn cyfeirio tuag atom dros y bryn draw ag oedd rhyngom a'r pentref. Yr oedd yn cario ar ei phen faich o goed, ac yn ei llaw lestr yn

llawn o laeth. Pan sydd yn y gwahanol wled-  
 gosododd y coed tywyll genedloedd, a gofyn-  
 tref. Daeth yr anwaid fad ar y byd? Rhodd  
 phen, a darn mawr ac iuddlau yn ddywyl  
 ddwfr yn y llaw ar y Testament Newydd  
 yngan gair; cyneudd gan y wring dda b  
 arno. Gofynasom ni  
 oedd; ond aros yn ni yn ychwanegu  
 ni ddymuno yn daer ad. Os ydyw  
 fath garedigrwydd anleithas, dda  
 eithriad. Yna treigloddeithas fel can  
 gruddiau tywyll, ac adroddiaeth grefyddol y  
 'Yr wyf yn ei garu Ef, eidd ychydig llawn  
 chwi; ac yn sicr, y mae yn ddywyl yr  
 i roi i chwi phioled o ddwfr oer y  
 Y mae fy nghalon yn llawn, felly  
 ddyweyd y llawenydd a deimlaf wrt  
 gweled yn y lle pellenig hwn.' Wedi de  
 ychydig o'i hanes, a'i bod yn ganwyll unig,  
 neu yr unig ganwyll ag oedd yn goleuo yn y  
 lle tywyll hwnw, gofynais iddi pa fodd yr  
 oedd yn gallu cadw i fyny oleuni Duw mewn  
 lle hollol amddifad o gymdeithas y saint?  
 Tynodd o'i mynwes gyfrol o'r Testament New-  
 ydd yn y Dutchaeg, yr hwn a dderbyniodd  
 oddiwrth Mr. Helm, pan yn ei ysgol flynydd-  
 au yn ol. "Hwn," meddai, "yw y ffynon o'r

antonomant genadon i bob parth yr **olew** sydd yn  
 y gwanidlo y paganaid, a **Dyma fan y gwel-**  
 y dylanwadu ar y meddwl indeithasol Crist-  
 lanwad Cymdeithasol Crist **deyrngarol, gwrol,**  
 wrth ger bron yma darlun **estament** wedi dy-  
 hennu'r hysidi rhwng dyr. **ellir ddysgwyl fel**  
 paganaeth a dynion dan frolau o'r Ysgrythyr-  
 oeth. Gawn y darl **wyd** ac a wasgarwyd  
 llyngar y genadwr **Aiol** genedloedd y ddae.  
 Mr. Moffat. Dywed *l Foreign Bible Society.*  
 cyntaf, dactylon, gy, ffred dylanwad gwaith y  
 tref paganaidd ar), ychwanegwn waith Cym-  
 oeddem weh tei **un** nodwedd, *The American*  
 newyneg. syd Y mae hon yn meddu 7000 o  
 gwnaeth tei **orthwyol**; ac hyd 1876 O. C., yr  
 gorchymys **cyhoeddi** yn ngwahanol ieithoedd  
 addio **38,125,000** o gyfrolau o'r Ysgrythrau  
 genedtaidd. Ac y mae *Chambers' Encyclopaedia*  
 y **dyweyd** fod tua 250,000 o'r Beibl, a 500,000  
 o'r Testament Newydd, ar draul o tua \$400,-  
 000 bob blwyddyn, yn cael eu hargraffu gan  
 y Gymdeithas hon; ac y mae wedi cyhoeddi a  
 gwasgaru yn mysg y deillion 12,000 o gyfrol-  
 au o'r Beibl mewn argraffiad cyfaddasedig at  
 eu hangen yn eu cyflwr annymunol, a'r rhan  
 luosocaf o honynt wedi eu rhoddi yn rhad.  
 Gosoder at hyn eto y gwahanol gymdeithasau



o'r un amcanion ag sydd yn y gwahanol wledydd, a chan yr amrywiol genedloedd, a gofyn-er, Beth all eu dylanwad fod ar y byd? Rhaid ei fod yn bwysig, ac i raddau yn debyg i eiddo dylanwad yr un Testament Newydd hwnw a nodwyd uchod oedd gan y wraig dda hono yn Affrica dywyll.

Mae Cristionogaeth yn ychwanegu dedwyddwch hefyd i'r byd. Os ydyw Cristionogaeth yn gwella cymdeithas, rhaid ei bod hefyd yn dedwyddoli cymdeithas fel canlyniad naturiol. Nid oedd dysgeidiaeth grefyddol y paganiaid yn cynyrchu ond ychydig iawn o ddedwyddwch. Dywedai fod yr enaid yn myned o un corph i gorph arall, a'i fod yn agored i gael ei osod mewn corph creadur israddol, neu fyned i ddifodolaeth hollol; ac weithiau gorfodid iddo grwydro ol a blaen, heb obaith am orphwysfa yn unrhyw fan byh; neu ynte fyned i Tartarus—uffern. Gwroniaid yn unig oedd yn cael myned i Elysium—nefoedd. Yn sicr, nid oes yn y daliadau yna fawr o gysur i neb, yn enwedig pan yr ystyrir yr hyn oedd yn gwneyd person yn "wron." Nid rhinwedd a daioni, eithr beiddgarwch buddugoliaethus, oedd elfenau gwroniaeth ganddynt.

Ond y mae Cristionogaeth yn gwerthfawrogi yr ymdrechion goreu er lles cymdeithas yn gyffredinol, ac yn dal gobaith am ddedwyddwch didrai o flaen pawb, a phob peth yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw. Mae marw yn orphwys oddiwrth lafur a lludded, yn gysur i'r blinedig, yn "fyned i mewn i lawenydd yr Arglwydd" i'r gorthrymedig a'r cystuddiol. Ac hyd yn nod i'r annuwiol, dangosir y Tad yn Dduw trugarog a graslawn, llawn cariad, yn gallu achub hyd yr eithaf, a maddeu yr holl anwiredd heb gofio'r camwedd mwy, a hyny i'r penaf o bechaduriaid a ddel ato i brofi gwirionedd ei addewidion, a chael sicrwydd fod llinellau y bardd yn wirionedd,

"Tra dalio'r lamp i losgi maes,  
Yr adyn gwaethaf all gael gras."

Felly, ar y cyfan, y mae mwy o gysur i'r hwn sydd yn credu yn y Beibl nag i'r hwn nad yw yn gwybod dim am dano, neu na sydd yn credu ynddo fel Llyfr Dwyfol. Mae Cristionogaeth yn ateb y byd yn dda; y mae hyn i'w weled yn eglur yn ei llwyddiant a'i buddugoliaethau bendigedig yn mhob gwlad ac yn mhlith pob cenedl yr ymwela â hwynt. Dywed ystadegau fêd yn 1880, 410,900,000 o

bersonau ar enw Cristionogaeth. Ni wnaeth y grefydd hon enill y poblogrwydd hwn heb gyfarfod â rhwystrau lawer; eto, y mae wedi llwyddo yn ei grym ei hunan, heb orfodaeth gallu materol.

Gwnaeth yr Iuddewon eu goreu i ddyfetha Cristionogaeth yn ei mabandod, yn ei genedigol fan daearol—Palestina; darfu i lywodraeth Rhufain ymosod arni â holl rym y byd, ond methodd y cyfan. Y mae Cristionogaeth eto yn “ymdaith yn amllder ei grym.” Llwyddodd Rhufain i orchfygu y byd teyrnasol; distrywiodd y genedl Iuddewig a’u crefydd genedlaethol ddirywiedig, ond enill tir newydd o hyd wnai Cristionogaeth yn yr amser hwnw fel yn awr, er fod Rhufain a’i holl egni yn ei herbyn. “Gwnaeth Ymerawdwyr Rhufain ddadymchwelyd a llethu y genedl Iuddewig braidd i’r dim; orchfygu teyrnasoedd, a gorfodi awdurdodau gwladol y byd gwareiddiedig i dalu gwarogaeth iddynt; ond methasant, er eu holl allu milwrol, ac er cymaint eu cyfoeth a’u dylanwad, ddileu Cristionogaeth, neu orfodi milwyr Crist i roi eu harfau i lawr, a phlygu i ddefodau a gofynion paganiaeth.”—*Garner’s Connection of Sacred History*, p. 499.

Methodd fflamiau tân Smithfield, er yn

effeithio diflaniad cyrff y merthyron, wrthse yll a diffodd tân Cristionogaeth, rhwystro y fuddugoliaethus wybodaeth y groes, fel dysgid gan Wickliffe a'r Lollardiaid; a gorf i'r gelyn atal ei dân a'i adael i ddiffodd, gan fod Cristionogaeth yn anllosgadwy. Mae peth wedi marw ond Cristionogaeth ei hunan. Enill i'w ffordd ei hunan y mae hi. A phaeystyriom y cyfryngau at waith sydd gan Cristionogaeth yn awr; y fath dorf o weithwyr, yn bersonau, cymdeithasau, arian a llyfrau, ac agoriad i bob gwlad, gallwn yn ffyddiog ddysgwyl pethau mawrion iawn yn y diffodol. Ac yn ddiôs, y mae Dylanwad Cyrdeithasol Cristionogaeth yn fawr a bendithio

## PENNOD VII.

*Ail-ymweliad a Maes y Testyn.*

Mae pwnc ein testyn mor bwysig, fel nad ydym yn teimlo i ddiweddu ein hymdriniaeth ag ef heb droi yn ol ac ail-chwilio yr holl faes o'r newydd, gan hyderu y bydd hyn yn foddion i osod ein brawddeg olaf o'r benod flaen- orol yn wirionedd mor eglur fel na fydd lle i un amheuaeth parth ei chywirdeb lochesu yn meddwl y darlennydd ystyrbwyll. Mae y maes mor helaeth, a'r tystiolaethau mor lluosog fel ag i'n gorfodi i fod yn foddlon ar ychydig allan o lawer o ffeithiau amrywiol i ategu ein gosodiad.

Tra y mae dyfyniadau o weithiau awduron enwog wedi cael eu gosod yn y traethawd hwn eisoes, y mae yn ddiâu genym y bydd ychwaneg o'r un pethau yn llesol i gynorthwyo y meddwl i wneyd dyfarniad teg ar y pwnc. I'r dyben i'n galluogi i fod yn feirniaid cymwys, mae yn briodol ac angenrheidiol i ni gael golwg ar

*Y Mynedol a'r Presenol.*

Yr ydym yn barod wedi rhoi cipdrem o gyflwr y byd pan ddaeth Crist iddo. Ac er mor

annymunol yr oiygfa, ceisiwn gymeryd un olwg ar y cyfnod hwnw eto.

“ Yr oedd teyrnasiad drygioni drwy y byd yn ymddangos fel pe wedi cyrhaedd ei uchder mwyaf pan ddechreuodd Ioan Fedyddiwr bregethu yn anialwch Judea. Yn Rhufain yr oedd pethau yn eithafol druenus. Dewis-ddyn yr Ymerawdwr Tiberius oedd yr adyn gwaradwyddus Cyaneus. Ond daeth diwedd i ysgelerwaith a rhedegfa y creulon-ddyn hwn; eithr nid cyn iddo lanw y byd ag arswyd. Dygodd i fywiogrwydd hen gyfreithiau anarferedig o craeth; ac yr oedd hyn wedi gwasgaru dinystr arianol dros yr ymerodraeth. Yr oedd gweithrediadau gorfodol wedi gwneyd meddianau yn ddiwerth braidd; yr oedd methdaliad yn mhell ac agos. Llenwid y llysoedd a dynion yn dymuno galwad yn ol y cyfreithiau gwrthunol hyn; tra ar yr un pryd yr oedd y cyfoethogion yn cadw eu harian yn segur. Trwy hyn yr oedd masnach drwy y byd wedi marweiddio.

Yr oedd llawer o'r cyfoethogion wedi eu darostwng yn gardotwyr; a'r tlodion yn dyfnhau yn barhaus yn is i drueni ac angen. I ychwanegu at y dinystr cyffredinol hwn, yr oedd dosbarth o bersonau wedi ymgymeryd a

bod yn achwynwyr. Ai y rhai hyn at yr awdurdodau, gwnaent eu hymosodiadau, a derbynid eu tystiolaethau ar unwaith ; a mynych anghofid myned trwy ffurfiau y gyfraith, gan mor barod yr oedd y swyddogion diegwyddor i weithredu yn gosbawl yn ol haeriadau yr achwynwyr digywilydd hyn.

Felly llenwid y carcharau gan dorfeydd euog, yn ol tystiolaethau yr achwynwyr, eithr diniwed, pe cawsent gyfiawnder ; a gadewid hwynt yno i farw ; a theflid cyrph menywod a phlant, yn ogystal a chyrph gwrywod, i'r Tiber, yn hytrach na myned drwy y ffurf gyffredin o berthynas iddynt.

Yr oedd Tiberius yn myned yn fwy aflan, ffaidd a chreulon yn barhaus ; yr oedd bywyd a rhinwedd fel eu gilydd wrth draed ei drugaredd ; nid oedd neb yn ddiogel rhag yr achwynwyr gwarthus, a theyrnasai arswyd yn mhob man.

Yr oedd llofruddiaeth wrth orchymyn yr awdurdodau, ac aberthau creulon yn lluosogi yn ddyddiol. Cynaliai yr Ymerawdwr lodd-est-wyliau gorlawn o anfoesoldeb a ffeidd-dra. Crynai y gwledydd pellaf o flaen Rhufain. Yr oedd awyrgylch Rhufain yn dew gan darth gwaed dynol ; yr oedd llofruddiad a hunan-

laddiad yn arferion y dydd; ac nid oedd hyd yn nod y menywod yn ddiogel rhag min y cleddyf dinystriol. Darlun fel yna ydym yn gael o Rufain a chymdeithas pan ddechreuwyd pregethu yr efengyl. Ac O, mor dderbyniol gan y miloedd a dyrent yn dyrfaoedd i glywed gan Ioan fod "teyrnas nefoedd yn nesáu." Yr oedd y bobl yn dra awyddus i weled prophwyd newydd, mewn gobaith ei fod yn dod ag ymwared iddynt o'u cyflwr truenus.

Gwelir cyflwr moesol a chymdeithasol y byd cyn cael Cristionogaeth yn ei dylanwad arno, yn ymddygiadau Herod Antipas at Ioan Fedyddiwr, ac yn chwaeth Herod, Salome, a'i merch. Dawnsio yn fedrus oedd yn agor calon Herod i wneyd yr addewid fwyaf i'r ddawnsyddes; nid oedd toripen dyn da a diniwed yn ormod gan Herod i'w gadw rhag gwarth yn ngolwg gwahoddedigion glythion; a gwell gan Salome gyngori ei merch i geisio pen Ioan Fedyddiwr ar ddysgl er mwyn dial ei llid arno am anghymeradwyo ei godineb â Herod, yn hytrach na cheisio rhywbeth o fudd iddi. Ond dyna chwaeth a nodwedd yr oes! Waeth ymddengys nad oedd hyn yn beth dyeithr yn y dyddiau hyny; ac y mae pethau yr un mor atgas yn cael eu harfer yn ein dyddiau ni yn



mhlith y paganiaid. Dywed Herodotus i Amestus, gwraig Xerxes, ar ei blwydd-ddydd genedigol, mewn gwledd un flwyddyn, hawlio i'w gwr roi fynny wraig Masistes, er mwyn boddloni ei nwyd genfigenllyd hi. Eiriolodd y tywysog ar ran y wraig a garai mor anwyl, ond yn hollol ofer. A gorchymynodd Xerxes iddi gael ei rhoi i fynny; a thynwyd hi yn ddarnau, a thafwyd hwynt i'r cwn! Dywedir hefyd y byddai Caligula yn fynych yn Rhufain yn gosod dynion diniwed i arteithiau ger bron y rhai a fyddent yn gwledda yn ei balas, ac anfonai am gleddyfwyr medrus, a gorchymynai iddynt ddangos mor fedrus oeddynt i dori ymaith benau carcharorion yn mhresenoldeb y gwahoddedigion er difyrwch iddynt. Mewn gwledd gyhoeddus yn Rhufain, gwnaeth Caligula i swyddog dori ymaith ddwyllaw caethwas am iddo fyned a dysgl arian oddiar ei eisteddle; a gorfodid y creadur tlawd i fyned o amgylch ogylch y byrddau a'i ddwyllaw toredig yn hongian wrth linyrn wrth ei wddf, a dangosiad arno yn hysbysu ei drosedd! Cynelid gwleddoedd cyhoeddus, ac er difyrwch i'r gloddestwyr, gosodid cleddyfwyr a'u cleddyfau i ymladd brwydau angeuol. Weithiau newidid yr olygfa drwy osod creaduriaid

rheibus i ymladd â dynion ; ac yr oedd cynifer a haner can' mil, ac hyd yn nod bedwar ugain mil, o bobl yn ymdyru i edrych ar yr erchyll-waith hwn gyda phleser ! Dyna i chwi gymdeithas a chwaeth dynion na wyddent ddim am dylanwad Cristionogaeth ar eu deall a'u calon. Dyna i chwi yr hen ddyddiau ; dyna y byd heb Grist.

Mor wahanol ydyw heddyw ! Mae gwledydd a llywodraethau Cristionogol yn talu mwy o barch i anifeiliaid y maes nag a delid gan y Rhufeinwyr a'r Groegwyr pan yn uchder eu gogoniant, i ddyn ; i.e, i wraig rinweddol, hoff gan ei phriod ! Mae yn hawdd genym gredu yn nghywirdeb y darlun hwn, am fod cyflwr gwledydd paganaidd yn yr oes hon yn gosod ger bron cenadon yr efengyl yr un math ddarluniau yn union, fel y cawn ddangos eto. Tystiolaeth cenadon yn gyffredin yw a ganlyn, a ddyfynir genym o waith Dr. Knowlton : "Y mae cyflwr moesol y paganiaid, fel ei rhoddir gan yr Apostol Paul yn Rhufeiniaid 1 a 3, yn wir i'r llythyren mewn cysylltiad â phaganiaid pob gwlad ! Yn mhob gwlad baganaidd, mae celwydd a lladrad, twyll a rhegu, pardduo cymeriad, cynllwynion a chynhyrfaidau bradwrus, llwgr-wobrwyo, gorfodaeth, a

thrais, yn gyffredinol; ac y mae anlladrwydd, godineb, a gwrywgydiad, yn eithafol gyffredin." Cawn ragor o'r darluniau torcalonus hyn ar ein gwaith yn chwilio y maes i gael gweled y byd yn dod dan ddylanwad Cristionogaeth.

*Caethwasiaeth a Christionogaeth.*

Mae cadw caethion, a gwneyd dynion yn gaethion, yn hen arferiad; pa mor hen, nid oes galwad arnom i ateb yn awr; ond digon yn bresenol yw dyweyd, ei fod yn henach yn y byd na Christionogaeth; yr oedd mewn bri mawr pan ddaeth Crist i'r byd mewn cnawd. Felly ni ellir priodoli bodolaeth caethwasiaeth i ddylanwad Cristionogaeth, er fod rhai gwledydd Cristionogol yn euog o'i lochesu am dymor. Cawn fod breninoedd a llywodraethwyr wedi bod yn euog o feithrin caethwasiaeth er mwyn elw personol a theyrnasol, yn mhob oes. Yn 1861 O. C., dywedai Cochin, ysgrifenydd enwog yn Ffrainc: "Gwnaeth Yspañ mewn llai na dau can' mlynedd fwy na deg cytundeb i awdurdodi ac amddiffyn, er mwyn lles personol y llywodraeth, drwy drosiad mwy na 500,000 o fodau dynol yn gaethion, gan roi toll ar y rhai hyn i'r swm o \$10,000,000. Lloegr hefyd, yn amser y frenines Ann, a

wnaeth gytundeb, er ei helw gyda y gaethfasnach, a llawnodwyd y cytundeb hwn gan Es-gob Bristol, Deon Windsor," &c., &c.

Pan oedd Wilberforce, Clarks, &c., yn 1807, a mesur yn y Senedd i ddiddymu y gaethfasnach, siaradodd amrai yn ei erbyn am ei fod yn tori ar draws hen arferiad yr oesau. Dywedodd Earl of Westmoreland: "Hyd yn nod pe gwelwn yr holl Bresbyteriaid, Methodistiaid, pregethwyr a phawb, yn unol yn erbyn caethwasiaeth, eto gwnawn bleidleisio yn eu herbyn oll." Ond cofier mai nid ar dir Beiblaidd a Christionogol y siaradai fel yna. Nid y Cristion sydd yn llefaru, eithr y dyn anianol yn cael ei arwain gan ei deimlad llygredig a dall-bleidiol. Nid cyfiawn nodi y ffeithiau hyn yn engreiffiau i brofi fod y grefydd Gristionogol yn cefnogi caethwasiaeth, waeth y mae Cristionogaeth wedi dylanwadu ar y byd i gasâu caethwasiaeth yn drwyadl. Hen beth paganol yw caethwasiaeth. Mae hyn yn eglur wrth edrych yn ol i'r cyfnod paganol yn mhob gwlad. Nid yn unig yr oedd caethwasiaeth mewn bri yn y dyddiau gynt, ond hefyd yr oedd cyflwr y caethion yn hynod o anghy-surus. Arferid gadael ieuenctyd Lacedominia allan i ymosod ar y caethion er mwyn ar-

feriad ; ac ar un ymosodiad, dywedir i 3,000 o'r caethion gael eu lladd ! Pan gymerodd Alexander Thebes, gwerthodd y bobl i gyd yn gaethion. Cadwynid caethion wrth byrth palasau y mawrion yn Rhufain, iddynt gael bod yn gyfarwyddwyr i'r gwahoddedigion i wleddoedd. Gwnai C. Pollio daflu y caethion a droseddent yn ei erbyn i'r llyn, yn ymborth i greaduriaid y dwfr. Yn y flwyddyn 12 C. C., gadawodd un Col. Isodorus i'w etifeddion 4,116 ogaethion. Yr oedd y caethwas yn llai ei werth na thir, neu anifeiliaid. Yr oedd hen gyfraith yn Rhufain yn gosod cosb o farwolaeth am ladd ych oedd yn aredig ; ond ni wneid un gosb am ladd caethwas. Gwnaeth Crassus ar unwaith, ar ol rhyfel y Spartans, groeshoelio deng mil o gaethion ! Darfu i Augustine, a hyny yn groes i'w addewid, dros-glwyddo i'w meistriaid i'w lladd ddeng-mil-ar-hugain o gaethion a ymladdasant dros Sextus Pompeius. Trajan hefyd, y goreu o'r Rhufeinwyr yn ei ddydd, a wnaeth i ddeng mil o gaethion ar unwaith ymladd gornestau cleddyfau am gant a thri-ar-hugain o ddyddiau yn yr *amphitheatre*, er mwyn creu difyrwch i'r miloedd edrychwyr ! Nodir y ffeithiau hyn er mwyn dangos cymdeithas y dyddiau gynt dan.

ddylanwad paganiaeth. Ac os oes rhyw un am gyhuddo Cristionogaeth o fod yn cynyrchu a chefnogi caethwasiaeth a chreulondeb, cydmared y ffeithiau uchod a'r ffeithiau a geir parth cyflwr cymdeithas yn y gwledydd lle y teyrnasa egwyddorion Cristionogaeth. Galwer i gof yr hyn a wnaeth Lloegr a'r Unol Dalaethau er mwyn diddymu yn llwyr gaethwasiaeth o'u tiriogaethau a'u terfynau, ac yna ceir gweled y gwahaniaeth sydd rhwng paganiaeth a Christionogaeth mewn perthynas i'r anghenfil hwn.

### *Cyfnewidiadau Cymdeithasol.*

Nid annhebyg oedd y byd yn gyffredinol i'r hyn yw Canolbarth Affrica yn bresenol mewn ystyr gymdeithasol. Yn ol tystiolaeth teithwyr enwog, cawn fod pobl Canolbarth Affrica yn hollol ddigynydd. Maent yn rhanedig i wahanol lwythau gelymol a rhyfelgar, heb gyd-ymgymysgu, byth yn heddychol. Noethion ydynt, a noeth yw eu penaethiaid; ac y mae gan y penaethiaid awdurdod hollol ar fywyd a meddianau y bobl. Maent yn hynod o greulawn mewn rhyfel. Mae y dynion a gymerir yn gaethion mewn rhyfel, fel rheol, yn cael eu lladd, a'r menywod a'r plant

yn cael eu gwneyd yn gaethion dros fywyd. Mewn rhai engreiffiau, difodwyd llwyth cyfan mewn un diwrnod. Ni anghofir trosedd byth, ond dielir o genedlaeth i genedlaeth. Mae aml-wreiciaeth yn beth cyffredin. Priodir â pherthynas agos, megys gwraig yn priodi ei llysfab, &c. Mae plant penaeth, ar ol i'w tad farw, yn ymladd am y flaenoriaeth—ym-ladd nes lladd y pleidiau i gyd, ond y trechaf; yna llywydda ef y llwyth yn berffaith ddiogel rhag bradwriaeth. Mae heidiau lawer yn crwydro o'r naill fan i'r llall, ac yn ymosod yn annysgwyladwy ar sefydliadau yn y nos, gan losgi y trigfanau, a thywys y trigolion am tua phum' cant neu fil o filldiroedd i'w gwerthu yn gaethion yn Khartoum. Nid oes un math o iaith ysgrifenedig ar y cyfandir, ond yr hyn a drefnwyd gan genadon Cristionogol; ac nid oes ganddynt ond traddodiad geneuau yn hanes am y gorphenol. Ni ddaeth na Christion na Mahometaniad i gysylltiad â'r Monbuttoos erioed cyn i Schweinfurth fyned yno. Y mae y gwrywod yn gwisgo peth dillad am danynt; eithr ni wisga y menywod ddim—maent yn hollol noeth. Y llwyth hwn yw y mwyaf cnawdysol (*cannibal*) yn holl Affrica. Un dynged sydd yn aros pawb a ddaliant, a

hyny yw, bod yn ymborth iddynt. Peth cyffredin arall yw, i ddau lwyth uno a'u gilydd i ddyfetha llwyth arall, ac yna rhyfela drachefn a'u gilydd am yr oruchafiaeth. Ond y mae y wawr wedi tori arnynt hwy, a gellir dysgwyl clywed am danynt hwy yr un math newyddion ag a geir am wledydd a chenedloedd eraill a fuont yn yr un cyflwr cymdeithasol, ac yn ymbleseru a'r un arferion, megys, er engraifft, y

*Sandwich Islands.*

Yn y flwyddyn 1820 O. C., yr aeth cenadon gyntaf o America i Sandwich Islands. Y pryd hwnw, yr oedd y brodorion yn wylltion ac anwaraidd hollol, mor drylwyr felly ag yw trigolion y White Nile yn Affrica yn bresenol. Ond yn awr, maent yn wareiddiedig a Christionogol; maent yn llywodraethu eu hunain yn anrhydeddus dan gyfansoddiad, ac yn ol cyfreithiau sefydlog a theg. Mae ganddynt lysoedd barn, a threfn, a chosb am drosedd, fel ag i enill edmygedd dynion o safle Dr. Rufus Anderson, yr hwn ar ol iddo ddychwelyd o'i daith yno ychydig flynyddau yn ol, a ddywedodd, "Nid wyf yn petruso cyhoeddi trigolion y Sandwich Islands mor deilwng a'r Unol Dalaethau i'w galw yn Gristionogol."



Pr un dosbarth y perthyn ynysoedd eraill,  
megys

*Y Feejee Islands.*

Rhifa y rhai hyn tua 80; poblogaeth, 200,000. Tua 56 mlynedd yn ol, yr oedd trigolion yr ynysoedd hyn yn gnawd-yswyr, neu ganibaliaid, o'r math waethaf. Ofnai y morwyr long-ddrylliad yn agos iddynt ag ofn eithafol, waeth gwyddent fod pob morwr a ddygwyddai gael ei dafu i'w glanau drwy long-ddrylliad, neu drwy unrhyw ffordd arall, yn sicr o gael ei ddal, ei ladd, a'i rostio yn union, a'i fwyta. Y mae Dr. Anderson yn rhoi yr hanesyn a ganlyn am yr hyn a ddygwyddodd yno yn mhen ychydig flynyddoedd ar ol i'r efengyl am y groes gyrhaedd y glanau. Cafodd llong Americanaidd ei dryllio ar y môr; aeth rhai o'r morwyr mewn cwch, ac ar ol crwydro yn mysg y tonau am ganoedd o fill-diroedd, cyrhaeddasant dir. Deallasant eu bod ar un o ynysoedd y Feejee; collasant bob gobaith am eu hywyd. Ond un o honynt, wedi codi llyfr i fyny o'r tywod, a waeddodd allan, "Jack, yr wyf yn dyweyd, mae pob peth yn dda, dyma Feibl. Diolch i Dduw, mae Cristionogaeth yma, a chawn ein harbed." Felly y bu; mae y bobl hyn yn awr yn Grist-

ionogion. Mae gan 100,000 o honynt yn awr yr Ysgrythyrau yn eu hiaith; mae 90,000 yn myned i'r ysgol Sabbothol, a gwasanaeth crefydd y Duw byw; mae 28,000 yn aelodau eglwysi Cristionogol; mae cannibaliaeth, amlwreiciaeth, a baban-leiddiad, yn cyflym ddiflanu o'r ynysoedd. Felly hefyd y gellir nodi am

*Fiji.*

Mewn cyfarfod blynyddol yn Sydney, Australia, yn ddiweddar, dywedai cenadwr Wesleyaidd, y Parch. Isaac Rooney, am ei waith yn Fiji: "Trwy ras Duw, nid oes canibaliaeth yn awr yn y wlad hono. Enillwyd Fiji trwy ymdrech galed a chostfawr; ac y mae y rhai oeddent ar y cyntaf yn fwyaf gwrthwynebus i'r genadaeth yno, yn bleidwyr gwresog iddi yn awr. Mae llwyddiant y genadaeth yn Fiji heb ei ail yn un wlad arall. Yn ystod y pymtheg mlynedd diweddaf, nid oes dim llai na 65,000 o'r dynion-fwytawyr hyn wedi cael eu henill drosodd at Gristionogaeth; ac y mae 30,000 o honynt yn awr yn proffesu ffydd yn Nghrist. Ac nid oes braidd un ty yn Fiji gan y brodorion, lle nad oes gwasanaeth teuluol Cristionogol yn cael ei gario yn mlaen. Nid wyf yn barod i ddyweyd fod yr holl frodorion

yn wir Gristionogion, eithr credwyf mai Cristionogion mewn enw yn unig yw llawer o honynt; eto, yr wyf yn credu, ond i'r gymdeithas hon ganiatau athrawon, yn ol dymuniad y blaenoriaid brodorol, y gellir gwneyd gwaith mawr yno yn y dyfodol." Priodol hefyd sylwi ychydig ar

*Madagascar.*

Dechreuwyd cenadaeth yn Madagascar yn 1820, gan "The London Missionary Society," dan nawdd y brenin Radama. Mewn wyth mlynedd, gwnaeth y cenadon drefnu iaith y bobl yn ysgrifenedig; cyfansoddasant ramadeg a geiriadur; cyfieithasant yr Ysgrythyrau i'r iaith frodorol, a dysgasant floedd i ddarllen, ac argyhoeddwyd llawer iawn o bechod. Ond drwy fradwriaeth y frenines, lladdwyd y brenin rhyddfrydig hwnw, a chymerodd hi-thau yr orsedd. Ymosododd ar Gristionogaeth, gyrodd y cenadon o'r wlad, a bu erledigaeth greulon am 25 mlynedd. "Gwerthwyd y Cristionogion, crogwyd hwynt, trywanwyd hwynt, llabyddiwyd hwynt a cheryg, tafliwyd hwynt dros glogwyni uchel, llwythwyd hwynt a haiarn a chadwynau i'w gyru i alltudiaeth, llosgwyd hwynt, croeshoeliwyd hwynt, a

gwerthwyd llawer o honynt yn gaethion.”—  
*Dr. R. Anderson.*

Ond hithau a fu farw, a'r wlad a gafodd lonydd. Teyrnasodd ei mab ar ei hol; yr oedd ef yn fwy tebyg i'w dad nag i'w fam yn ei deyrnasiad. Galwodd yn ol y cenadon, ac yn fuan daeth trefn a rhyddid yn ol i'r deyrnas; yr oedd dynoliaeth yn arglwyddiaethu drwy ddylanwad Cristionogaeth.

Nid oes eisiau i mi nodi allan yr addysgiadau sydd yn codi yn naturiol oddiwrth ffeithiau hanesyddol y gwledydd a enwyd, canys gwel y darlennydd yn eglur ddylanwad da a dyrchafol Cristionogaeth ar gymdeithas yn y ffeithiau eu hunain. Cymerwn olwg eto ar y ddylanwad hwn mewn cysylltiad a gwahanol ddsbarthiadau a phethau, megys,

*Y Rhyw Fenywaidd, Cartref, a Chymdeithas.*

Dywedai Dr. Poor unwaith wedi iddo ddychwelyd gartref o'i faes cenadol: “Yr y'ch chwi, y rhai ydych wedi byw drwy eich hoes mewn gwlad Gristionogol yn hollol amddifad o amgyffrediad cywir am ddrygau paganiaeth.”

Proff. Seelye a ddywedai: “Yr oedd fy ymddangosiad cyntaf ar dir paganaidd yn cyf-

leu i mi olygfa galon-rwygol ; y fath wahan-iaeth sydd rhwng Ewrop ac Affrica, y grefydd Gristionogol, Mahometaniaeth a phaganiaeth ! Mor rhyfedd a synfawr yr ymddangosai pob peth i mi, fel y teimlais yn union wedi i mi lanio ar y cyfandir yn barod i alw ar bob un a gofyn iddo, a oedd yn gwybod y fantais o gael genedigaeth ar dir Cristionogol. Teimlwn i fynwesu fy mhlant â'm dwylaw, a dyweyd wrthynt am ddiolch i Dduw am y fendith fwyaf o bob bendith, sef dysgeidiaeth a gwrteithiad mewn gwlad lle mae y Beibl a Christionogion. Yr oedd fy enaid yn cael ei gynhyrfu yn ddyddiol, ei dristâu a'i glafychu yn barhaus wrth y golygfeydd a welwn yno."

Ychydig amser cyn ei farw, dywedodd y Llyw. Seward wrth ei gyfaill Proff. Seelye, yr hwn oedd y pryd hwnw ar gychwyn i'w daith genadol i'r wlad lle y bu Mr. Seward yn byw am flynyddau : " Ni chewch fywyd cymdeithasol yn un man ond yn y byd Cristionogol. Nid yw trigolion y byd paganaidd yn deall y gair cartref." Profodd Mr. Seelye eiriau ei gyfaill yn wirionedd yn ol ei dystiolaeth uchod. Nid yw bywyd teuluaid, ar yr hwn y gorphwys pob cymdeithas dda, yn beth

dealledig gan y Chineaid, Japaniaid na'r Mahometaniaid.

Mae ymddangosion bywyd cymdeithasol, ag ydynt mor bwysig yn nghyfundrefn grefyddol Crist, yn hollol anadnabyddus i bawb tu allan i'r gwledydd Cristionogol. Dyma fel y disgrifia un ddynes genadol bethau yn Natal, Deheubarth Affrica: "Dywed y brodor am ei ferched, 'Hwy ydynt fy anifeiliaid, fy arian, a fy maeliaeth. Fy ngwragedd ydynt fy anifeiliaid, fy ngheffyl, fy aradr, a fy nghart.' Am ei wraig dywed, 'Prynais hi, ac y mae genyf hawl i'w churo a'i lladd os ewyllysiaf.' Y mae y tad, neu y brawd hynaf, yn gwerthu y ferch neu y chwaer i'r hwn a roddo fwyaf o anifeiliaid am dani; ac felly, yn ei chysylltu am fywyd â pherson yn fynych y mae hi yn ei lwyr gasâu. Mae y wraig yn gweithio yn y maes, gan gario ei baban ar ei chefn. Caria goed o'r anialwch, dwfr o'r afon, a choginia fwyd, a phan y byddo pob peth yn barod, y mae y gwr yn myned at y bwrdd ac yn bwyta nes ei ddigoni. Os bydd peth yn weddill, y mae y menywod yn bwyta, ac ar eu hol hwynt y plant. Ond os mai ychydig o fwyd fydd yno, gall y dyn fwyta y cyfan, tra yr erys y wraig a'r plant yn newynog."

Yn y flwyddyn 1856, gwnawd ymchwiliad yn India parth yr arferiad creulon o lofruddio merched pan yn eu mabandod, a chawd 26 o bentrefi heb gymaint ag un ferch dros chwe' mlwydd oed, a 30 o bentrefi a dim ond 37 merch ynddynt. Gwnawd ymchwiliad yn ddiweddarach gan y *Lieut. Governor of the North Western Provinces of India*; ymwelwyd a 10 pentref, ac ni chafwyd ond un ferch yn y deg; mewn 27 pentref, nid oedd ond 23 o ferched, ac mewn 9 pentref, ni chaed ond 7 merch. Felly penderfynwyd fod lladd merched yn beth cyffredin iawn yno. Y mae y bobl yn cael gwragedd drwy eu lladrata o wledydd eraill. Nid ydynt yn ystyried merch yn werth ei chadw a'i magu—dyna baganiaeth!

Cawn yr enwog genadwr Affricanaidd Moffat yn sylwi ryw dro wrth fwrw golwg ar waith yr efengyl: "O, y fath gyfnewidiad y mae efengyl Crist a gair ei ras 'ef wedi effeithio yn mhlith y Bechnana yn Neheubarth Affrica er pan aethum yno gyntaf! Ni ymddangosent yn meddu ar gydwybod neu unrhyw ddrychfeddwl am ddrwg yn eu harferion creulon a diraddiol. Ni feddent un drychfeddwl am gyflwr dyfodol; meddylent eu bod yn marw fel anifeiliaid y maes, ac yn myned i

ddifodiant hollol. Cofiwyf i mi ymweled ag un o honynt, yr hwn oedd yn lled wybodus, ac yn ddyn ymdrechol a dylanwadol yn ei wlad; ac yr oedd bob amser yn ymddwyn yn garedig iawn i mi. Yr oedd yn marw, a gofynais iddo beth oedd ei feddyliau parth y dyfodol. Atebodd, "Y mae y cyfan yn dywyll i mi, yn dywyll iawn; nis gallaf ddyweyd wrthy ch y fath dywyllwch sydd o'm blaen."

Yn awr, y mae yno ganoedd lawer yu y goleuni, yn gorfoleddu yn ffydd Crist, ac yn y gobaith o anfarwoldeb. Gwelais rai yn marw yno mewn tangnefedd, parod i ymadael a bod gyda Christ yn y goleuni tragywyddol. Gynt yr oeddent yn barhaus yn ymrysongar a gelynyol; un llwyth a feddai anifeiliaid yn ofni myned a hwy yn agos i lwyth arall i'w gwerthu, rhag iddynt gael eu troi ymaith. Weithiau lleddid holl drigolion pentref cyfan, bryd arall dinystrid haner llwyth. Ond yn awr, teimlir dylanwad yr efengyl yno, ac y mae gelynyon wedi dod yn gyfeillion. Y mae cyfathrach heddychol rhwng y llwythau a'u gilydd; ac y mae masnach a'r celfau bywyd gwaraidd yn gyffredin ganddynt" Dyna ddangosiad o Ddylanwad Cymdeithasol Crist ionogaeth.



*Llwyddiant a Chynydd Gwladol.*

Mae hwrw golwg dros hanes a chyflwr gwahanol wledydd, yn ein tywys i sylwi ar Ddylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn gweithredu yn rhyfeddol mewn gwahanol ffyrdd, ac ar wahanol gysylltiadau ac arferion. Yr ydym wedi sylwi yn lled helaeth ar y byd paganaidd a dylanwad Cristionogaeth ar ei gymdeithas; yn awr cymerwn ail olwg ar wledydd mwy goleu—gwledydd na fynant eu galw yn baganaidd.

*Cyflwr Ewrop.*

Pan oedd Pabyddiaeth yn teyrnasu, y Beibl heb ddod yn eiddo y bobl, y Diwygiad Protestanaidd heb dori allan, Cristionogaeth gyflawn heb gael gafael yn y bobl, cawn y darluniad canlynol o gyflwr Ewrop y pryd hwnw, yn cynwys o 400 i 1600 O. C.: "Am fil o flynyddoedd, cadwyd poblogaeth Ewrop yn sefydlog (*stationary*). Yr oedd arwynebedd y Cyfandir y rhan fwyaf yn goedwig ddisathr; yma a thraw yr oedd mynachdai, a phentrefi bychain. Yr oedd yr iseldiroedd ar hyd welyau yr afonydd, yn gorsdiroedd, mewn rhai manau yn ganoedd o filldiroedd o hyd, yn rhoi allan heintiau dinystriol, gan wasgaru y

cryd yn mhell ac yn agos. Yn Paris a Llundain, nid oedd y tai goreu ond rhai agored, wedi eu dwbio a llaid, a'u toi a gwellt, neu a chorsenau; nid oedd iddynt ffenestri; ac hyd nes i'r felin lif ddod, ychydig iawn oedd a lloriau coed iddynt. Ni wyddid dim am lenloriau fel y rhai presenol; ychydig iawn o wellt wedi ei wasgaru ar y llawr oedd *carpet* y dyddiau hyny. Nid oedd ychwaith simneiau i'r tai; elai y mwg allan trwy dwll y clo.

Nid oedd ond ychydig ymgeledd rhag y tywydd mewn trigfanau fel yna. Ni ymdrechid sychu a dwfr-ffosi y tir. Tefid pob carthion drwy y drws yn bentwr, ac yno y byddai yn ymyl y ty yn sawru yn afachus. Yr oedd y gwrywod, y menywod, a'r plant, oll yn cysgu yn yr un ystafell; ac nid yn anaml yr oedd anifeiliaid y teulu yn gwmni iddynt yn yr un ystafell gysgu. Yr oedd yn anhosibl mewn cymysgaeth o'r fath hyn mewn teulu, i lanweithdra, diweirdeb a moesoldeb, gael eu cadw mewn bri ac arferiad. Cwdaid o wellt, yn gyffredin, oedd y gwely, a gobenydd pren. Yr oedd glanweithdra personol yn hollol anhysbys. Yr oedd swyddogion uchel y llywodraeth, ac hyd yn nod swyddogion eglwysig, megys Archesgob Canterbury, yn llawn llau.



Felly, meddir, oedd cyflwr Thomas à Becket, gwrthwynebydd enwog un o freninoedd Lloegr. I guddio amhuredd personol, rhaid oedd defnyddio peraroglau yn helaeth a mynych. Ymddilladai y dinesydd mewn croen, gwisg a barai iddo am flynyddau; ac yr oedd yn myned yn drom gan faw, ac yn afiach gan fryntni, ar ol rhai blynyddau o wisgiad, gan nad oedd yn arferiad i'w glanhau byth. Cydnabyddid dyn mewn amgylchiadau cysurus, os gallasai fforddio i gael cig ffres i giniaw unwaith yr wythnos."—*Dr. J. W. Draper, New York.*

*Prydain a'r Anglo-Saxons.*

Tua'r flwyddyn 1430 O. C., ymwelodd Æneas Sylvius, yr hwn wedi hyny a wnaed yn Pope Pius II., a'r ynysoedd Prydeinig; ac y mae ef wedi tynu darlun du iawn o gyflwr cymdeithas yno yr amser hwnw. Dywedai am dai y bobl gyffredin, eu bod wedi eu had-eiladu a cheryg heb dwbgalch; y tô o dyweirch; y llawr o groen caled carw. Yr oedd eu hymborth yn gynwysedig o lysiau a rhisgl coed; mewn rhai manau, ni wyddid dim amfara. Bwthynod o gorsenau wedi eu dwbio a llaid; tai adeiledig o bolynod, heb simneiau; tan mawn, heb le braidd i'r mwg fyned allan;

ffeuau llawn o aflendid personol, corphorol, a moesol, heidiog o lau a phryfed ; tusw o wellt wedi ei rwymo am eu haelodau i gadw yr oerfel draw ; ac nid oedd cyflwr y bobl gyfoethog nemawr gwell.

William o Malmesbury, wrth son am foesau isel yr Anglo-Saxons, a ddywed : “Eu boneddigion, yn ymroi i lythineb a thrythyllwch, nid aent byth i'r eglwysi, ond darllenid yn frysiog yn eu clyw, er na wrandawent, yn eu hystafelloedd gwely, cyn iddynt godi, lithiau yr eglwys gan yr offeiriaid. Yr oedd y bobl gyffredin yn ysglyfaeth i'r rhai mwy galluog a chyfoethog. Cymerid eu meddianau oddiarynynt, a llusgid eu cyrph i wledydd pell ; teflid eu gwryfon i'r puteindai, neu gwerthid hwy yn gaethion. Yfed oedd eu galwedigaeth gyffredin nos a dydd, a drygioni a gwanychiad meddwl cryf, cymdeithion meddwdod, oedd yn dilyn eu hoferwaith dinystriol. Yr oedd castellau y barwniaid yn ffauau lladron. Y mae y croniclau Saxonaidd yn cofnodi fod y menywod a'r gwrywod yn cael eu dal, a'u llusgo i'r lleoedd cedyrn hyn, eu hongian wrth eu bawdiau, neu wrth eu traed ; cyneuid tan o'u hamgylch, a rhwymid llinynau cylymog o amgylch eu gyddfau ; ac arferid llawer o ar-

teithiau eraill i'r dyben o dynu allan bridwerth, neu adbryniad."—*Conflict Between Religion and Science*, p. 266.

Wedi deall y ffeithiau a osodir allan yma yn mherthynas y bobl a'r eglwys ac a'r Beibl, nid ydym yn synu cymaint at eu cyflwr isel. Nid aent i'r eglwys, ni wrandawent y gwasanaeth, ni ddarllenent y Beibl; felly nid Cristionogaeth oedd yn dylanwadu arnynt i fod yr hyn oeddynt. Sylwer ar y gwahaniaeth a welir yn y gwledydd hyn yn bresenol!

Pwy wrth deithio Ewrop a Phrydain Fawr yn awr a ganfydda debygolrwydd rhwng y darluniau uchod a'u cyflwr yn bresenol? Eu palasau gorwych, eu hymborth amrywiol a iachus, eu glanweithdra personol, a'u rhyddid cymdeithasol? Y mae y cyfnewidiadau hyn wedi dyfod, nid drwy ddylanwad allanol, cleddyf, neu ormes, canys methodd y pethau yna drwy yr holl oesau a'u heffeithio; eithr dylanwad mewnol yn effeithio yn allanol. Egwyddorion Crist yn y galon, gwersi Crist yn y deall, a rhinweddau Crist yn y bywyd, ddaeth a'r cyfnewidiadau bendigedig hyn oddiamgylch. Mae y gosodiad yna yn cael ei brofi yn eglur iawn wrth gydmaru dylanwad Cristionogaeth yn awr mewn gwledydd pag-

anaidd, a'r dylanwad a gariodd yn Ewrop. Mae yr un achos yn cynyrchu yr un effaith. Achwynai y cenadwr McLauren fel hyn :

“ Pan ydym yn dysgu Teloogoos yn egwyddorion Cristionogaeth, ni fynant wisgo ac ymborthi fel cyn eu troedigaeth, ac ni fynant fyw mewn tai o nodwedd y rhai a wnelent y tro iddynt cyn hyny. Deuant ar ol cael ymborth a dillad newydd ysbrydol i'r enaid i fynu ymborth, dillad a thai gwell i'w cyrff.”

Dywedai cenadwr arall : “ Rhaid i'r pagan-iaid gael gwell bwyd, gwell dillad, gwell tai, a gwell dodrefn, ar ol cael y grefydd Gristionogol.” Ac y mae yr holl genadon yn cyddwyn tystiolaeth i gadarnhau cywirdeb y tystiolaethau hyn. Ac o ganlyniad, y mae yn deg a naturiol i ni gasglu fod Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn achos o gyflwr diwygiedig a dyrchafol Ewrop, Prydain, a'r Unol Dalaethau. Felly y mae diwydrwydd yn cael ei gefnogi a'i symbylu gan yr efengyl. Mae hyn yn cael ei brofi yn hanes cysylltiad Cristionogaeth â gwledydd paganauidd. Myn y pagan argyhoeddedig gael offerynau amaethyddol, a phob peth yr un fath, mor bell ag y gall, a'r Cristion yn Ewrop ac America. Engreifftau : Cyn i'r efengyl fyned i'r Sandwich

Islands, nid oedd yr ynysydd yna yn meddu un lle gwasanaethol yn y byd masnachol; ond yn awr, y mae banerau prif genedloedd masnachol y byd yn chwyfio yn awyrgylch eu porthladdoedd, a'u llongau yn trosglwyddo nwyddau trafnidol i mewn ac allan o'r ynysydd hyn. Gwerthwyd 200 o erydr mewn un flwyddyn i'r un genadaeth gan yr un masnachydd; ac anfonwyd gwerth \$1,200 o nwyddau i genadaeth arall yn Neheubarth Affrica. Fel yna y mae y paganiaid dychweledig i gyflwr ysbrydol newydd, yn mynu dod i gyflwr tymorol a masnachol newydd; y mae Cristionogaeth yn ychwanegu at ddiwydrwydd y byd, ac yn dadblygu adnoddau y ddaear. Y mae yn ffaith hanesyddol fod cymdeithas wedi dyrchafu o gyflwr isel iawn o ran tai a dodrefn, ymborth a dillad, a threfn a rhyddid, gyda thoriad gwawr y Diwygiad Crefyddol yn Ewrop. Tri chan' mlynedd yn ol, nid oedd gan hyd yn nod fawrion Lloegr ond math o fwthynod clai, heb ffenestri gwydr ynddynt, heb ddodrefn gwych, a lloriau ceryg, heb ond yn unig wellt neu wair drostynt. Nid oedd simneiau hyd 1300 O. C. Ychydig ffurymau oedd yn lle cadeiriau, a gwelyau gwael iawn oedd ganddynt; ystyllen yn fwrdd,

a phawb ar y llawr yn ei hamgylchynu. Yr oedd cyllyll a ffyrch yn bethau dyeithr iawn ; a defnyddid tafell o fara yn lle plâd, a bwyt-eid y plâd yn y diwedd.

Tua dechreu 1600 O. C. y daeth cyffrawd y gwelliantau cyffredinol i Prydain Fawr, a gwyr pob hanesydd mai dyna yr amser y daeth Cristionogaeth yn ddylanwad pwysig ar gymdeithas yno. Mae moethau ymborth a dillad, cysur tai a dodrefn, yn ogystal a diogelwch bywyd a meddianau, cynydd gwybodaeth a rhyddid, dyrchafiad moesau a gwareiddiad, yn mhlith y pethau a gyd-gynyddasant dan ddylanwad pur Cristionogaeth ar gymdeithas.

Wrth draethu ar y cyfnod hwn yn hanes Lloegr, y mae yr hanesydd enwog J. R. Green, M. A., yn cyfleu syniadau fel hyn : “ Am gan’ mlynedd, yr oedd y bobl wedi byw yn nghanol chwyldroadau ysbrydol. Nid yn unig yr oedd y byd o’u hamgylch, ond hefyd y byd o’u mewn—y byd o feddwl a theimlad yn mhob mynwes—wedi trawsffurfio yn hollol. Yr oedd gwaith yr unfed-ganrif-ar-bymtheg wedi llong-ddryllio traddodiad o grefydd, o wybodaeth, o drefn wladol a chymdeithasol ; gwrthodid yn awr y pethau a dderbynid gynt o’r canol-oesau fel buddion, heb wneyd un cyn-



yg at eu beirniadu. Yr oedd rhyddid meddwl, hunan-ymddibyniaeth, a barn bersonol, wedi meddianu y bobl, ac adnabyddai pob un ei hunan yn allu pwysig, o bosibl rwydd mawr, er da neu er drwg. Teimlodd y genedl y cyfnewidiad. Yr oedd myfyrio yr Ysgrythrau yn waith cyffredinol y bobl. Duwinyddiaeth oedd prif elfen fyfyrion y cyfnod. Ond nid oedd diwygiad crefyddol ond un o effeithiau y Beibl. Yr oedd y Llyfr yr un mor bwysig yn nadblygiad gwybodaethol y bobl. Mor bell ag y mae a fydd y genedl yn gyffredinol a'r mater, nid oedd ond ychydig iawn o lenyddiaeth, yn rhyddiaeth na barddoniaeth, yn yr iaith Saesoneg pan orchymynwyd rhoi y Beibl yn yr eglwys. Mae holl lenyddiaeth yr iaith Saesoneg yn frith gan syniadau, dullwedd, a brawddegau y Beibl. Ond nid oedd dylanwad y Beibl ar gymdeithas yn llai nag ar lenyddiaeth; ac yr oedd ei ddylanwad ar foesau a chymeriad y bobl yn llawer mwy eglur nag mewn dim arall. . . . Yr oedd yr effaith yn rhyfeddol—y genedl yn eglwys.”—*Green's History of the English People, II., p. 13—16.*

*Ai Cristionogaeth sydd yn Deilwng o'r Clod?*

Wedi bwrw golwg dros y maes yn o hel-aeth, a phriodoli yr effaith dymunol i Grist-

ionogaeth fel achos, a phrofi hyn i raddau pell gan resymau a thystiolaethau pwysig, nid gormod genym eto, wrth draethu ar bwnc mor bwysig a hwn, mewn oes mor oleu a hon, ac er cyfarfod a thuedd feirniadol ac amheuol llawer iawn o'r rhai a ddichon ddarllen y traethawd hwn, i ymholi yn fanylach, ac ateb mewn ffordd arall; neu gymeryd llwybr gwa-hanol i gerdded yr un maes ag ydym eisoes wedi myned drosto, gan sylwi ar rai ffeithiau nad ydym hyd yn hyn wedi rhoi cyflawn chwareu teg iddynt, ac ymgyngori â rhai tystion sydd hyd yma heb gael eu galw yn mlaen i'r tyst-fan.

Mae rhai personau yn y byd yn barod i briodoli cynydd a diwygiad moesol a gwybod-aethol yr oes hon i achosion annibynol ar Gristionogaeth. "Gwareiddiad," ebe Mr. Ingersoll, "rhyddid, cyfiawnder, caredigrwydd, a dadblygiad deallawl, ydynt oll flodau a flod-euant yn yr eira, hiffiedig. Ni ellwch eu cael yn un lle arall; a dyna y rheswm ein bod ni yn y Gogledd yn wareiddiedig, a dyna y rheswm fod gwareiddiad bob amser gyda y gauaf." Mae ynfydrwydd ar-wyneb yr haerriad yna, ac anwiredd yn ei galon. Onid yw Cristionogaeth yn gwareiddio dynion yn mhob gwlad?

Onid ydym eisoes wedi dangos gwledydd Deheuol yn myned, dan ddylanwad Cristionogaeth, yn waraidd, rhydd, moesol, elusengar, a deallawl? Ac onid yw anwareiddiad a chaethiwed, a thywyllwch anwybodaeth, wedi, ac yn teyrnasu yn yr un wlad ag eira hiffiedig a gauaf gerwin?

Pe cymerem y Cyfandir Americanaidd yn engraifft o'r byd, caem ddangosiad eglur o dwyll-haeriad Col. Ingersoll. Onid oes rhanau mwy gogleddol o'r cyfandir hwn na'r Unol Dalaethau yn cael eu trigianu gan fodau dynol? Os yw ymresymiad Mr. Ingersoll yn gywir, rhaid i ni edrych i'r tiriogaethau gogleddol o Greenland yn groes i Alaska—i ardaloedd yr ia a'r eira cyson—lle nad yw yr hinsawdd yn ystod yr holl flwyddyn yn codi uwchlaw nod y rhew ond yn unig yn mis Gorphenaf, am y cynydd, y gwareiddiad, y rhyddid, a dadblygiad deallawl mwyaf yn y byd! Os yw ei osodiad ef yn wirionedd, rhaid i'r Unol Dalaethau foddloni ar gymeryd safle israddol i British America, Danish America, a'r holl diriogaethau ag ydynt yn agosach i'r Pegwn Gogleddol na hi! Y mae edrych ar ddangoslen o wledydd y ddaear, ac ar gyflwr a hanes y gwahanol wledydd yn peri i ni synu fod neb o ddeil.

isid yr oes oleu hon mor ffol a gwneyd yr haeriad a ddyfynwyd genym o ysgrif Col. R. Ingersoll, a gyhoeddwyd yn *The North American Review* am Awst, 1881.

Cawn yr un awdwr, yn ei ddarlithiau, yn dyweyd fod cynydd y byd i'w briodol i gynydd y penglog dynol : " Wedi edrych ar benglogau dynol o bob oes a gwlad, sylwais fod yr un gwahaniaeth rhwng y penglogau hyn ag oedd rhwng eu cynyrchion, a dywedais : Wedi y cwbl y mae yr holl yn fater syml o ddad-blygiad meddyliol."—*The Skulls*.

Ai gwir y gosodiad? Dywed Proff. Dana fod y penglogau henaf, sef eiddo y dyn careg a gafwyd yn Mentone, ac eiddo y llall a ddarganfyddwyd yn Cro-Magnon, yn cydmaru yn hynod o ffafriol ag eiddo y bobl mwyaf gwareiddiedig a dysgedig, ac fod penglogau dynion gwyllt Affrica mor fawr ag yw eiddo Ingersoll, yn ol eu mesuriad.

Y mae Mr. Alfred Russell Wallace yn gosod mesuriad a maintioli cydmarol y penglogau dynol fel hyn : "Yr ydym yn gweled nad yw canol-radd maintioli penglog yr anwariaid iselaf, o bosibl, yn llai na phump i chwech, o'i gydmaru ag eiddo yr hiliogaethau uchelaf mewn gwareiddiad."

Y mae Proff. B. G. Wilder, M. D, ar ol rhoi tafleni o fesurau a phwysau gwahanol ymenyddiau a phenglogau yn sylwi: "Y mae y tafleni hyn yn cadarnhau yr hyn ydym wedi dal sylw arno drwy ein bywyd meddygol, sef y gall ymenydd mawr a deall bach gydfodoli yn yr un person; ac ar y llaw arall, fod yn bosibl i ymenydd bach a deall mawr fod yn yr un man. Mae gan fochyn fwy o ymenydd nag sydd gan gi, eto ci yw y callaf o lawer. Y mae y Peruviaid yn bobl wrteithiedig, er hyny ymenydd bychan sydd ganddynt." Dyna ddigon i ddymchwelyd y gosodiad yna eto o eiddo yr haerllug Ingersoll anffyddol. Ac mewn cysylltiad ag hinsawdd gwlad, onid o'r Deheu cynes y daeth Cristionogaeth i Brydain? Onid yw Cristionogaeth wedi byw mewn gwledydd tymerus cyn i wledydd yr "eira a'r gauaf" ei chael? Ac oni fu dynion enwog a dysgedig yn y byd cyn Crist? Sier yw, nid i oes na gwlad, penglog mawr, na hinsawdd oer, eithr yn hytrach i egwyddorion yn y penglog, a gras yn y galon—hinsawdd ysbrydol—y perthyn yr achos o gyflwr rhinweddol a deallol y byd Cristionogol. Os ymholir paham y darfu i Gristionogaeth gollu y gwledydd a'r cenedloedd cyntaf y gwnaeth ei hymddangos-

iad ynddynt, y mae Dr. J. W. Draper yn ateb yn dra phriodol. Y mae ef yn ddigon meddylgraff i ganfod ffeithiau, a gweled cysylltiadau achosion ac effeithiau, ac y mae yn ddigon o wr boneddig i gydnabod y gwirionedd. Yn ngoleuni ei syniadau ef, gwelwn mai nid am fod Cristionogaeth yn analluog i sefyll ei thir, eithr am ei bod wedi cael ei chymysgu â phaganiaeth y collwyd hi o'i gwledydd cyntaf. Cymysgiad paganiaeth a Christionogaeth yn amser Awstin fu yn achos o ddwyn pethau gwladol a chrefyddol llygredig i'r hyn a elwid yn grefydd Gristionogol.

Pe buasai pleidwyr proffesedig Cristionogaeth ond iawn ymddwyn, a phe cadwesid elfenau estronol allan, buasai Dylanwad Cristionogaeth yn dda, rhydd, gwerinol a pharhaol; cefnogol i wybodaeth a rhyddid. Ni ddylid ystyried cymysgaeth o baganiaeth a Christionogaeth yn *Gristionogaeth*. Felly wrth edrych ar gyflawniadau Awstin a phawb eraill a honent eu bod yn Gristionogion, dylid chwilio i gael allan pa elfen oedd yn achos o'r weithred; pa egwyddor a gynyrchodd y ffrwyth; pa gynhyrfu oedd i'r gwaith; ni ddylid ystyried caethwasiaeth, llofruddiaeth, a gorthrwm yn gynyrchion dylanwad Cristionogaeth, os na

ellir dangos elfenau yn y grefydd hono, a'i heiddo hi ei hunan, ydynt yn naturiol yn eu cynyrchu.

Ni ellir profi mai Cristionogaeth osododd y Pab yn arglwydd daearol ac ysbrydol; nid oes un elfen yn nghrefydd Crist yn tueddu at hyn. Eithr gellir dangos yn hawdd mai cynyrch paganiaeth ydyw y Pab a'i anffaeledigaeth. Yr oedd y paganiaid yn arfer dwyfoli eu breninoedd a'u gwroniaid ar ol eu marw, ac yn raddol daethant i'w dwyfoli tra yn fyw. O'r fan yna tarddodd y drychfeddwl a bersonolir yn y Pab fel llywydd gwladol ac eglwysig anffaeledig. Cymysgiad â phaganiaeth fu yn achos i Gristionogaeth gael ei gorchfygu gan Fahometaniaeth; neu dyna yr achos i wledydd gilio yn ol i dywyllwch paganiaeth.

Os ydyw Cristionogaeth i ddal y byd dan ei dylanwad, rhaid i ddynion beidio ei huno âg egwyddorion gau—rhaid iddi beidio ymbriodi â duw y byd hwn—rhaid peidio ei “hieuo yn anghydmarus.” Rhaid gofalu cadw elfenau estronol allan. Y mae hi ei hun yn bur, galluog, a byw. Cefnoga bob peth da er ddblygu dyn yn y cyfanswm o hono yn y byd hwn, ac i'w gymwyso i fyw mewn dedwyddwch yn dragywyddol.

*Gwyddoniaeth a Christionogaeth.*

Y mae rhai personau yn priodoli y Diwygiad i Wyddoniaeth. Wrth wneyd hyn tros-eddir termau ; gwneir yr effaith yn achos, a'r achos yn effaith. Felly, i gyfarfod â'r dosbarth yna, rhaid dangos mai Cristionogaeth yw yr achos, ac mai effaith yw gwyddoniaeth ; ac eto, mae yr effaith yn dyfod yn gyfrwng i drosglwyddo dylanwad yr achos i gysylltiadau eraill.

Un o elfenau penaf Cristionogaeth yw gwybodaeth—"Ewch a dysgwch yr holl genedloedd." A phan y mae y wybodaeth a gyfrenir gan yr Ysgrythyr yn effeithio dylanwad i gyfnewid cyflwr cymdeithas, dylid cydnabod yr effaith yn eiddo Cristionogaeth fel achos, yn cynyrchu gwybodaeth, a thrwy wybodaeth yn gweithredu yn fendithiol ar gysylltiadau dynion.

Mae y ffeithiau canlynol yn ein tueddu i ystyried gwybodaeth neu wyddoniaeth y cyfnod presenol yn gynyrch Cristionogaeth : (a) Mae Cristionogaeth yn ei hanfod yn wybodaeth—yn gyfundrefn o ddysgeidiaeth llawn o ymborth i'r meddwl, goleuni i'r deall, a chyfarwyddyd i reswm. Ac y mae gorchymyn olaf



yr Athraw Mawr yn bendant yn galw am i'r holl genedloedd gael eu *dysgu*. (b) Gwedi dyfodiad Cristionogaeth i wlad y daeth y wlad hono yn agored i dderbyn gwybodaeth, ac yn gefnogol i wyddoniaeth yn ei chyflawnder a'i newydd-deb. (c) Mae yn ffaith hanesyddol mai Cristionogaeth, drwy ei chyfryngau priodol, sydd wedi agor gwledydd i ddiwygiadau, a threfnu ieithoedd y bobloedd, a chasglu eu llenyddiaeth, a chyfoethogi eu hieithoedd, ag adnoddau dysgeidiaeth. (d) Mae yn rhaid cael yr elfen grefyddol cyn y gellir llwyddo- yn dda gyda phethau eraill. Ni fedr gwyddoniaeth enill y pagan na'r Mahomedan. Ni all gwybodaeth fel gwybodaeth orchfygu Mahometaniaeth, Buddhyddiaeth, Brahmayddiaeth na Chonffusiaeth. Rhaid cael crefydd i orchfygu crefydd.

Ni ellir cael pen y pagan i werthfawrogi gwyddoniaeth hyd nes yr enillir ei galon yn orsedd i Ysbryd Crist; rhaid gwareiddio y dyn mewnol cyn y gellir gwareiddio y dyn allanol. Pa lwyth neu genedl erioed sydd wedi ei gwareiddio gan wyddoniaeth yn annibynol ar grefydd? Pwy fedr enwi un wlad ag sydd wedi cael ei gwareiddio gan wyddonydd neu wyddonwyr di-grefydd a di-dduw? Mae cref-

ydd wrth wraidd llwyddiant pob cenedl. Mae yn ffaith eglur fod *crefydd* wedi bod yn hynod berthynasol a chysylltiedig â chynydd bywyd cenedlaethol yn mhob oes o'r byd. Dyna yr Aifft, "mam gwareiddiad cyntefig," daeth i fri—bu yn llwyddianus ac enwog, ac yr oedd yn hynod *grefyddol*. Bu y Groegiaid yn uchel a llwyddianus iawn yn yr hen amser—yn enwog mewn athroniaeth, y celfau a'r gwyddorau gynt, ond yr oeddynt hwythau yn wir *grefyddol*, yn ol syniad yr oesau hyny am grefydd. A'r un modd yr oedd bywyd cenedlaethol y Rhufeiniaid yn llawn *crefydd*. Wedi colli y mēr crefyddol, diflanodd mawredd y cenedloedd o'r llywodraethau hyn. "Pan ganiataodd y Babiloniaid i dderbyn addoliad ei hunain yn lle y duwiau, safodd y Persiaid o flaen eu pyrth. Pan aeth Alexander i chwareu ei hun yn dduw, yr oedd ei fywyd a'i ymerodraeth wedi eu gwerthu. Pan ganiataodd Domitian i enw Duw gael ei gam-ddefnyddio, gosodwyd y fwyell ar wreiddyn yr ymerodraeth ar dderchocaf yn hanes y byd."—*Baron Bunsen*.

Y mae gwerth crefydd i fawredd cenedlaethol yn dod i'r golwg yn eglur iawn yn ymholiad y Japaniaid wrth weled rhagoriaeth gwareiddiad Ewrop ac America ar yr eiddynt

## CRISTIONOGAETH.

hwy a'u cymydogion paganaidd. Meddent, " Onid yw dirgelwch hyn oll i'w ganfod yn y grefydd Gristionogol ?" Cymerasant afael yn y syniad yna, gweithredasant yn ei ol, ac y mae Japan heddyw yn agored i Gristionogaeth, ac yn derbyn egwyddorion Crist yn ddysgeidiaeth ymarferol; ac o ganlyniad, y mae yr hen genedl lonydd a digynydd wedi dod y genedl fwyaf bywiog a chynyddol y cyfnod.

Yr oedd prif ddynion cynydd gwybodaeth yn bobl o *dueddion* Cristionogol, a dyweyd y lleiaf. Hen fynach Cristionogol oedd Copernicus. Yr oedd Kepler o ysbryd addolgar. Newton, am yr hwn y dywedai Proff. Dolbear, " Gwnaeth ef ychwanegu mwy at wybodaeth ddynol na'r holl hil ddynol, tu allan iddo ei hun, mewn mil o flynyddoedd," addolai yntau " Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist." Yr oedd Lord Bacon hefyd yn fyfyrwr diwyd a chyson ar y Beibl. " Ni fu erioed yn unrhyw wlad grefydd neu gyfraith ag sydd wedi gwneyd cymaint i ddyrchafu y bobl a gwneyd daioni i bawb a'r Beibl."—*Bacon*.

Gwnaeth Ffrainc unwaith ymwrthod a chrefydd yn hollol, gan orseddu rheswm. A lwyddodd Ffrainc dan ddylanwad rheswm digrefydd? Na, er iddi gyhoeddi, " Nid oes.

Duw, ac angeu sydd hŷn dragywyddol," eto bu yn dda ganddi gydnabod ei geiriau yn anwiredd. Tra heb Dduw, yr oedd heolydd Paris yn cael eu gorlifo gan waed dynol; ysgydwyd sylfeini cymdeithas, teyrnasai dychryn ac arswyd; a theimlai y bobl yn falch gael Duw yn ol i'r meddwl, a Christionogaeth i Ffrainc, er cysur a diogelwch personol a chymdeithasol. Dywed rhai, "Crefydd yw dyledswydd dyn at ddyn." Mae hyn yn wirionedd rhanol, ond nid yw yn ddigonol i gymdeithas, fel y gwelir yn China. Rhoddodd Confucius grefydd fel yna; ond methodd ddiwygio hyd yn nod China, heb son am ddiwygio y byd. Rhaid cael Duw.

Mae gan yr enwog Joseph Cook ychydig sylwadau ar y mater yma, fel hyn: "Y mae athroniaeth Plato wedi cael oes o dros 2,200 o flynyddoedd yn y byd yn mysg dynion; ond pe byddai rhai o'i osodiadau sylfaenol yn cael eu cario i weithrediad, byddech chwi a minau yn byw mewn gwerysllfa; ac ni allem ddyweyd pwy yw ein brodyr a'n chworydd, neu ein rhieni. Gwyddom am rai pethau bendigig yn athroniaeth Plato; ond y gwirionedd yw hyn, nid yw egwyddorion goreu Plato yn alluog i ddiwallu dyn. Nid ydynt wedi cael

eu mabwysiadu yn rheol bywyd. Cawsant wrandawriad; ond gwyddoch beth sydd yn llywodraethu y byd heddyw; ar ol 2,200 mlynedd o brawf, nid ei athroniaeth ef yw meistres cymdeithas heddyw.”—*Orthodoxy*.

Ni fedr gwyddoniaeth ond cyfleu ffeithiau i'r deall; rhaid cael mwy na chyflead o ffeithiau gwyddonol parth natur a deddfau anianol a materol, i ffurfio bywyd, ac effeithio gonest-rwydd a chyfiawnder yn y dyn. Rhaid cael egwyddorion ysbrydol yn y galon, a syniad o gyfrifoldeb i Fôd hollwybodol yn y meddwl; i'r dyben o ddiwygio cymdeithas. Mae Duw yn y meddwl yn cadw dyn yn y dirgel fel yn y cyhoedd, yn onest a da; ac y mae y ffaith hon yn brif ffaith er lles cymdeithas.

Mae Mr. Cook yn awdwr digon pwysig i ni ddyfynu o'i waith beth bynag a berthyn i'r mater dan sylw, ac felly codwn a ganlyn o'i ddarlithiau ar “*Transcendentalism* :” “Y mae Cristionogaeth yn cynwys moesddysg gyflawn; dysg ddynion i roi addoliad i'r holl briodoledau dwyfol. Mae yn athroniaeth, yn gelfyddyd, yn dyfiant, ac hefyd mae yn ddatguddiad o natur pethau, i'r rhai nid oes gyfnewidiad na chysgod o droedigaeth Ond ei phrif feddwl, ei chanolbwynt, yw y Person sanctaidd datguddiedig

gan y ddeddf foesol, ac ar yr un pryd yn Waredwr ac Arglwydd; a chariad at y person hwn fel moddion, ac unig foddion effeithiedig posibl i buro y byd. Duw fel Duw y cymod drwy hunan-aberthiad iawnol; Duw fel ei dangosir mewn hanesiaeth; y groes ag sydd yn llawn o natur pethau; cariad personol perffeithrwydd annherfynol fel goleuad adenedigol; HYN yw yr ardderchogrwydd a'r ofnadwy ag sydd wedi gorchfygu, ac a barha i orchfygu."

Heb y drychfeddwl o Dduw personol a hollwybodol, Duw ag sydd yn dal dynion yn gyfrifol am eu holl weithredoedd yn y byd, ni ellir ymgodi mewn gwareiddiad, eithr suddir yn is, is o hyd i dywyllwch ac aflendid barbaraidd. Mae hyn yn cael ei brofi yn eglur gan hanesyddiaeth. Gwelir engraifft o hyn wrth gydmaru y Weriniaeth a sefydlwyd yn Ffrainc gan yr anffyddwyr Mirabeau, Vergniand, a Robespierre—byr fu ei pharhad, a chreulon ei dylanwad—a'r Weriniaeth a sefydlwyd yn America gan y Cristionogion, George Washington, William Penn, a Roger Williams. Y mae hon yn fyw eto, yn gref a heinyf, yn llwyddianus a chysurus. A dywedai Emile De Loveleye: "I sefydlu llywodr-

aeth, mae Cristionogaeth Wm. Penn a George Washington yn well *cement* nag athroniaeth Vergniand, Robespierre a Mirabeau."

Gosodir yn gyffredin bwys neillduol ar dystiolaeth gelyn, os bydd yn taro yn ei erbyn ef ei hun, yn ffafwr yr ochr wrthwynebol. Saif enw Mr. Edward Gibbon yn uchel yn mhlith prif awduron hanesyddol, ac yn nghyfres meddylwyr mwyaf treiddgar yr oesau, ac y mae anffyddwyr yn ei hawlio yn un o honynt hwy. Felly mae ei gyfaddefiadau, a'r ffeithiau a geir yn ei brif waith, "*The Decline and Fall of the Roman Empire*," yr hwn a ystyrir yn safon ar y mater y traethir arno ynddo, yn werthfawr ar gyfrif eu cywirdeb, a chyfaddasrwydd anhleidiol yr awdwr at y gwaith. Mae cryn wahaniaeth rhwng barn ddysgedig Mr. Gibbon a haeriadau anwybodus Mr. R. Ingersoll parth nodweddion y Cristionogion cyntefig, a dylanwad Cristionogaeth yn y byd. Wrth sylwi ar y Cristionogion cyntaf, dywed Mr. Gibbon: "Yr oedd eu bywyd sefydlog a chymedrol, croes i fywyd uchel a gloddestol yr oes, yn eu cymell i burdeb, diweirdeb, cynildeb, sobrwydd, a rhinweddau teuluol."—*Vol. I., p. 405.*

Mae Dylanwad Cymdeithasol Cristionog-

aeth yn cael ei awgrymu gan Mr. Gibbon wrth osod allan droedigaeth Constantine at y grefydd Gristionogol: "Teimlai Constantine fod y cyfreithiau doethaf yn annigonol i sicrhau teyrnasiad llwyddianus; anfynych y cynrchant rinweddau, ac nid bob amser y rhwystrant ddrwg. Gwnaeth deddf-wneuthurwyr yr hen oesau alw i'w cymorth alluoedd gwybodaeth a barn. Yr oedd Groeg a Rhufain yn methu trefnu ffordd fuddugoliaethus i ddiwygio moesau a chyflwr y bobl. Yr oedd Constantine yn teimlo hyn, a hyny yn eithaf priodol, gallwn feddwl; a theimlai foddlonrwydd a balchder neillduol wrth sylwi ar gynydd crefydd yr hon a gyfranai gyfundrefn o foesau pur, haelionus, elusengar, a chyffredinol, i'r bobl—crefydd ag egwyddorion priodol a chyfaddas i bob dyledswydd a chyflwr bywyd, cymeradwy gan ewyllys a rheswm Duw goruchel; cymelledig, gan wobryon i'r rhai da, a chosbau i'r rhai drwg. Gwelodd y buasai dylanwad yr efengyl yn gwasgaru rhinwedd personol a chymdeithasol." — *Vol. I., p. 601.*

Dyna dystiolaeth ardderchog o du Cristionogaeth; duwioldeb yn fuddiol i sicrhau benthion tymorol, personol, cymdeithasol a



theyrnasol. Hyn fu yn gymelliad i'r ymerawdwr paganaidd ddyfod yn ymerawdwr Cristionogol. Nid tystiolaeth penboethyn crefyddol yw hon, eithr eiddo anffyddwr dysgedig a galluog.

Wrth ddilyn yr efengyl yn mlaen drwy yr oesau, dywed Mr. Gibbon : “ Yn y nawfed, y ddegfed, a'r unfed-ganrif-ar-ddeg, ymdaenodd teyrnasiad yr efengyl dros Bulgaria, Bohemia, Hungary, Saxony, Denmark, Norway, Sweden, Poland, a Rwssia. Bywyd sanctaidd a thafod hyawdl oedd unig arfau y cenadon. Yr oedd derbyniad y barbariaid hyn i derfynau gwladraith ac eglwysiaeth yn gwaredu Ewrop oddiwrth anrheithiadau' ar dir a môr gan Normaniaid, Hungariaid, a Rwssiaid, y rhai a ddysgasant drwy yr efengyl i arbed eu brodyr, a gofalu am eu meddianau. Hyrwyddwyd sefydliad cyfraith a threfn wladol gan ddylanwad y pregethwyr; cyflwynwyd egwyddorion y celfau a'r gwyddorau i wledydd barbariaid y byd.”— *Vol. III., p. 111, 112.*

Felly rhaid i ni gredu mai Cristionogaeth yw yr achos. Gwybodaeth, moesau, rhinweddau, trefn, llwyddiant, diogelwch, celfau a'r gwyddorau, ydynt gynyrchion neu EFFEITH-IAU yr achos mawr hwn.



osiad yn y byd pan oedd paganiaeth gyntefig yn ei gogoniant, yn grefydd Groeg a Rhufain; pan oedd dysgedigion a llywodraethwyr y byd yn ei chefnogi; pan y canai y beirdd ei chlodydd mewn mawl-gerddi, a gwrol-ganiadau i'r duwiau a'r duwiesau; pan oedd athronwyr goreu yr oes yn athronyddu yn ei ffafir, celfyddydwyr yn portreadu ei gwrthddrychau mewn cerfiadwaith ysblenydd yn mhob man, ar demlau lawer a godidog, ac ar arfau dysglauer a llestri gorwych; a phan oedd y byd yn talu gwarogaeth iddi. Paganiaeth oedd meistr-es y byd, arglwyddes cymdeithas, a gwrthddrych penaf yr unigolion. Ond gorchfygodd Cristionogaeth hi pan yn nghyflawnder ei gogoniant a nerth, a'r byd o'i thu. Gorfu iddi ymgilio o bob gwlad, a diflanu fel niwl y boreu o flaen Cristionogaeth--llewyrchiad Haul dydd cyfiawnder goleu.

Methodd anffyddiaeth orchfygu paganiaeth er iddo gael cryn gynorthwy gan gewri meddyliol; ond lle y methodd anffyddiaeth, y mae Cristionogaeth wedi llwyddo. Ac os methodd anffyddiaeth orchfygu duwiau meirwon, nid gwiw dysgwyl iddo byth orchfygu y Duw byw. Llwyddodd Cristionogaeth yn rhyfeddol iawn pan oedd y byd i gyd braidd yn ei

herbyn, yn ei gwahardd i gyffwrdd â chymdeithas, ac yn defnyddio y cleddyf, y carchar, ac angau, i'w hatal. Oni wnaeth Rhufain baganaidd bob ymdrech yn erbyn Cristionogaeth, gan ladd miloedd lawer o'i phroffeswyr mewn modd creulon? Ac eto, achwynai awdur̄dodau Rhufain yn y ganrif gyntaf fod y Cristionigion yn mhob man yn cynyddu yn rhyfeddol! Sefydlwyd crefydd Iesu Grist pan oedd yr holl fyd llywodraethol, pob gorsedd ddaearol, a phob cleddyf a charchar yn ceisio a'u holl egni ei rhwystro. Y mae ei llwyddiant, dan y fath amgylchiadau, yn ddangosiad o'i chryfder, a'i chyfaddasrwydd i lywodraethu cymdeithas. Mae yr hen ddull cymdeithasol wedi diflanu.

### *Paganiaeth Bresenol.*

Prif grefydd baganol India yw Buddhyddiaeth. Mae y crefyddwyr hyn yn amddifad o Dduw holl-bresenol a thragywyddol. Mae pob peth sydd, wedi dod i fodolaeth drwy weithrediadau deddf holl-lywodraethol. Duwiau syrthiedig yw dynion; bu y duwiau yn ddyinion unwaith, a gall dynion fyned yn dduwiau eto, ond rhaid iddynt fyned drwy lawer o ffurfiau bodolaeth, a dyoddef uffernau

llawer cyfnod anghyfrifadwy, yna ânt yn dduwiau; ac yn ddiweddol ânt i ddifodiant hollol. Mae pechod un cyfnod yn cael ei gosbi mewn bodolaeth ddilynol. Os genir un heb draed ganddo, dywedir fod hynny am ei fod mewn bodolaeth flaen- orol wedi tori ymaith draed rhyw ddyn. Rhaid addoli ac aberthu llawer iawn i'r duwiau yn iawn dros bechodau. Dan ddylanwad crefydd o'r daliadau yna, y mae India wedi aros mewn tywyllwch du ac anwareidd-dra dwfn; ac y mae sefyllfa cymdeithas yno yn druenus i'r eithaf.

Mae yn dda genym nodi yma fod gobaith da o flaen India dlawd. Dywedai llywydd cymdeithas o Hindus Brahmo Somaj, o'r enw Kesub Chunder Sen, yn ddiweddar am India: "Y mae y gymdeithas frodorol yn cael ei deffroi, ei goleuo, a'i diwygio dan ddylanwad Cristionogaeth."

Syr Bartle Frere, ar ol bod yn drigianydd yn India am 30 mlynedd, a ddywedai: "Mae dysgu Cristionogaeth yn mhlith 160,000,000 o Hindoos a Mahometaniaid yn effeithio yn anghyffredin ar India. Y mae profiad ychydig flynyddau yn debyg o egluro y ffaith mai y Genadaeth Gristionogol yw y peiriant anghyd-

marol oreu a ddygwyd erioed i weithredu ar fuddion cymdeithasol, llywodraethol a masnachol dynoliaeth.”

Dywedai Maharjah, o Travancore, India, pan ar ymweliad a sefydliadau cenadol yn Colayam: “Yn mhell cyn i'r llywodraeth ei hunan ymgymeryd a'r gorchwyl dyngarol o ddysgu ei deiliaid, yr oedd cenadon Cristionogol wedi codi gwylfa gwybodaeth yn y tir. Nis gall un byth fod yn ddigon diolchgar am gyflwyniad yr elfen wareiddiol hon i'n plith, ac am ei dadblygiad dymunol a pharhaus. Gallaf ddyweyd gyda sicrwydd fod y budd mwyaf wedi deillio i'r llywodraeth, yn gymaint a bod ein llafur yn cynyddu flwyddyn ar ol blwyddyn; nifer ein poblogaeth teyrngarol, heddychol a gwaraidd yn lluosogi, ac yn dod yn fwy parchus ac ufudd i'r cyfreithiau bob dydd, yr hyn yw sylfaen llywodraeth dda.”

### *China a Confucius.*

Sonir llawer am ragoroldeb y Chineaid, a mawr ganmolir Confucius fel awdwr cyfundrefn dda er lles cymdeithas. Crefydd Confucius yw y dylanwad cymdeithasol mwyaf yn China. Ond beth yw cyflwr China, a pha beth y mae China wedi ei wneyd i ddiwygio

y byd? Mae China yn wlad fawr, y Chineaid yn genedl luosog—y luosocaf yn y byd. Cynwysa fwy nag un rhan o bedair o boblogaeth y ddaear. Mae hefyd yn hen genedl, a chanddi y llywodraeth henaf yn y byd. Yr oedd ganddi ymerawdwr etholedig 2,000 o flynyddoedd cyn Crist.

Mae y wlad yn iachus a ffrwythlon. Mae wedi cael pob math braidd o grefydd; mae ganddi y grefydd ddynol oreu a fu yn y byd erioed, er ys tua 500 mlynedd C. C. Ond er hyn oll yr un yw China heddyw ag oedd y pryd hwnw. Gallasem ddysgwyl gweled cymdeithas yn ei gogoniant yn awr yn China, llwyddiant ar ei huchel-fanau, gwybodaeth yn goron i'r genedl, a moesoldeb a gwareiddiad yn eu gwisgoedd goreu, mor bell ag y medr cyfleusderau a galluoedd dynol effeithio a chynyrchu y pethau hyn. Ond nid felly y mae.

Mae rhai egwyddorion da iawn yn eu crefydd—egwyddorion tebyg i eiddo Cristionogaeth. Dywedai Confucius: “Yr hyn ni fynd i arall wneyd i ti, paid ti a’i wneyd i eraill.” “Yr hyn nid wyt yn hoffi pan yn cael ei wneyd i ti, paid a’i wneyd i eraill.” “Yr hyn y mae dyn yn ei gasâu yn ei uwchraddolion, na

fydded iddo ei arferyd tuag at ei is-raddolion.”  
 “Yr hyn nid yw yn ei hoffi yn ei is-raddolion, na fydded iddo ei ddangos yn ei ymddygiad at ei uwch-raddolion.”

Ni wnai Confucius gefnogi myfyriaeth am angau, byd arall, nac ysbrydion. Cyfyngai sylw y bobl i'r presenol yn gwbl. Yn ateb i'w ddysgybl a'i holai parth gwasanaeth ysbrydion, a'r meirw, dywedai, “Gan nad wyt alluog i wasanaethu dynion, pa fodd y gelli wasanaethu ysbrydion?” Yn atebiad parth angau, dywedai, “Tra nad wyt yr adnabod bywyd, pa fodd y gelli wybod parth angau?”

Ni wnaeth Confucius son braidd ddim am Dduw personol, neu am ddyledswyddau dyn i Fòd Goruchel. Ond gwnawd y diffyg hwn i fyny yn fuan gan athronydd enwog o'r enw Las-Fzse. Daeth ef a'r elfen ofergoelus i mewn i grefydd Confucius. Yn ychwanegol at hyn cyflwynwyd Buddhyddiaeth i China tua'r flwyddyn 61 C. C. Felly, y mae China wedi cael digon o fathau o grefyddau, a llawer o elfenau er dyrchafu cymdeithas Gwnawd crefydd Confucius yn grefydd wladol ganoedd o flynyddoedd cyn geni Crist. Mae wedi parhau o hyd yn sylfaen addysg i'r genedl. Bod yn hyddysg ynddi ydyw un o brif anheggorion



dyrchafiad i swydd ac anrhydedd yn y wlad-wriaeth. Mae brawddegau dysgeidiaeth y grefydd hon yn gerfiedig ar gof-golofnau marmor, ar byst y drysau, ac yn ysgrifenedig ar drwyddedau y llywodraeth, yn lliwiedig ar ddillad gwelyau, ac addurnir parwydydd y tai a'r temlau â hwynt. Ond er hyn oll, y mae methiant yn y cyfan.

Dywed cenadwr o'r wlad hono: "Y mae yr holl bethau hyn wedi troi y bobl y genedl fwyaf hunanol yn y byd, y genedl fwyaf dauwynebog a thwyllodrus; ceir gwên ar y wyneb a dichell yn y galon ar yr un pryd. Y mae anonestrwydd, dichelliaeth, celwydd, torcyfamod, balchder a dialedd, yn brif nodweddion yr holl hil."

Er i China gael crefydd Confucius ganoedd o flynyddoedd cyn i'r byd gael crefydd Crist, eto Cristionogaeth yw brenines y byd heddyw. Nid China, eithr Prydain sydd wedi bod yn allu offerynol trawsffurfiol moesol y byd. Nid yw China wedi gwneyd un weithred dda i'r byd. Mae fel pe yn ceisio cadw ei holl ddaioni tu fewn i'r "Mur Mawr;" tra y mae Prydain yn gwasgaru ei pheraroglau i'r holl wledydd, heb eithrio China ei hunan.

*Cymdeithas yn China.*

Dywedir fod y menywod yn China yn gweddio yn nheml Buddha am iddynt, yn eu sefyllfa nesaf, gael eu geni yn wrywod! Mae hyn yn awgrymu fod cyflwr y "rhyw deg" yn hynod o druenus yno. Dywedir gan awdurdodau uchel fod y menywod yn cael eu cadw mewn sefyllfa o gaethiwed gwarthus. Y rhieni sydd yn gwneyd y priodasau; ac yn aml ni wel y mab a'r ferch eu gilydd i siarad. A'r naill a'r llall hyd ddydd eu priodas, ac y mae y wraig yn cael ei hystyried yn gaethwas i'w gwr. Yn ngwyneb hyn, nis gall fod dylanwad Confusiaeth yn dda iawn.

Nid yw eu barnwyr chwaith ond "gwyr y geiniog"—gwerthant eu barn er mwyn elw personol. Mae eu cosbedigaethau yn greulon a gwrthunus; ac y mae caethiwed yn bodoli yno i raddau helaeth. Nid yw gwybodaeth y Chineaid yn llawer o'i gydmaru ag eiddo cenedloedd Cristionogol. Ni wyddant am y darganfyddiadau diweddar mewn gwyddoniaeth; ac nid yw eu gwybodaeth am natur ond cyfyng iawn. Ni fyn y Chinead fod yn fwy gwybodus na'i gyn-deidiau. Yn ngwyneb hyn, mae yn syndod i ryw un anturiaethus yn China dori dros ben terfynau a rheolau y gen-

edl, a dyfeisio math o argraff-wasg tua dechreu y ddegfed ganrif, a chyhoeddi argraffiad o'u llyfrau sanctaidd yn 932 O. C. Ond eto, nid ydynt yn awr fawr yn uwch nag oeddent 2,000 mlynedd yn ol. Ni ddadenhuddasant drysorau eu daear; nid ydynt wedi prydferthu arwynebedd eu tir, na hyrwyddo masnach a threfn; darparu cyfryngau trosglwyddol, na gwneyd dim, ond drwy orfodiaeth, i lesoli y byd tu allan iddynt hwy eu hunain.

Er i Confucius ddyweyd fel hyn: "Nid wyf yn dysgu dim ond yr hyn a allech ddysgu eich hunain, sef gwarogaeth i dair deddf natur—cysylltiad penadur â deiliaid, tad a phlentyn, gwr a gwraig; a'r pum' prif rhinweddau canlynol: caredigrwydd cyffredinol, cyfiawnder anmhleidiol, cyd ffurfiad â defodau ac arferion sefydlog, uniondeb calon a meddwl, a didwylledd pur;" eto, y mae China yn foesol farw.

Anhawdd cael gwell dysgeidiaeth na'r uchod; ond nid oes yna allu i'w chario i weithrediad; dim Duw, cyfrifoldeb, na bywyd, dim gwobr na chosb. Dyna ddiffygion pob peth dynol ar ei oreu. Ond y mae cenadon efengylaidd yn China er y flwyddyn 1807, ac oddiar hyny y mae y wlad fel pe yn dechreu symud yn mlaen i oleuni newydd. Mae

yno yn awr 300 o genadon, a 60 o honynt yn fenywod; ac heblaw hyn, mae 80 o bregethwyr brodorol ordeiniedig, a chanoedd o weithwyr efengylaidd eraill yno. Hyn sydd yn cyfrif am yr arwyddion ffafriol a geir yn bresenol fod China yn myned i ddyfod i fyw yn yr oes hon, gan adael tywyllwch ofergoeliaeth a chreulonderau yr oes gynt i ddiiflanu.

Mae Dr. Legge, Oxford, Lloegr, o'r farn, os bydd i bethau barhau i fyned yn mlaen fel yn y presenol gyda y gwaith o argyhoeddi Chineaid i Gristionogaeth, y bydd yn y flwyddyn 1913 ddim llai na 25,000,000 o aelodau eglwysig, a 100,000,000 yn proffesu bod yn Gristionogion, yn yr ymerodraeth Chineaid. Dywedai swyddog Lloegr, yr hwn sydd yn weinidog y Goron yn Chefoo, China: "Credwyf y bydd i'r llwyddiant rhyfeddol y mae ysbryd Cristionogaeth wedi effeithio yn y parth hwn yn ddiweddar, ddylanwadu yn ddymunol iawn ar fasnach yn y dyfodol." Yn mhellach, dywed, fod ymdaeniad Cristionogaeth yn sicr yn China, ac y bydd hyn yn sicr o hyrwyddo masnach; fod corph y bobl iselaf yn hynod wrthwynebol i ymarferiad meddyliol. O ganlyniad, y bydd i egwyddorion Cristionogaeth eu hadfywio i *feddwl*, ac yna byddant yn sicr

o droi eu meddwl at bethau tymorol a masnachol yn ogystal a phethau crefyddol. Mae yn ffaith fod Cristionogaeth yn allu bywiocanol, lle y methodd yr holl gelfyddydau paganol yn hollol, er iddynt gael canrifoedd lawer o flynyddoedd o brawf.

*Mahometaniaeth a Christionogaeth.*

Mae Mahometaniaeth wedi gwneyd gorchestion, ac wedi effeithio yn ddwys ar gymdeithas. Ond cofier mai trwy rym arfau cnawdol a materol y cafodd ei buddugoliaethau. O ganlyniad, y mae yn annhebyg iawn i Gristionogaeth yn ei dull, ac yn ei chyfryngau milwrol i ddarostwng y byd. Gorfodaeth a thrais yw nodweddion dylanwad cymdeithasol crefydd Mahomet. Modd hynag, rhoddwn chwarteu teg iddi, ac edrychwn ar ei dylanwad yn ei gwlad ei hun, lle y ca y cyfleusderau goreu i ddangos ei hunan; a chyferbynwn ei dylanwad â dylanwad crefydd Crist. Er mwyn gwneyd cyfiawnder â'r mater, derbyniwn dystiolaeth a desgrifiad llygad-dyst o'r wlad lle y teyrnasai Mahometaniaeth—Twrci. Dywed Joseph Cook: "Mi a hwyliais i fyny ar y Danube, ac edrychais ar bentrefi Mahometanaidd, a thrachefn ar rai Cristionogol. Dyna



wog ar gyfrif henafiaeth aruchel, Groeg, gwlad y beirdd a'r athronwyr, yr areithwyr a'r deddf-wneuthurwyr, enwocaf yn yr oesau gynt. Derbyniodd y wlad hon Gristionogaeth yn lled foreu, a bu yn llwyddianus a chysurus iawn dan ei dylanwad. Ond daeth ei dydd tywyll arni—rhuthrodd estroniaid anwaraidd iddi—ymosodwyd arni gan y Twrciaid, a chadwyd Groeg am ganoedd o flynyddoedd dan ddylanwad gorthrymus Mahometaniaeth. Suddodd i gyflwr truenus iawn. Ond yn 1829, enillodd ei hannibyniaeth oddiwrth iau Fahometanaidd y Twrc, ac oddiar hyny y mae Groeg yn cynyddu mewn trefn, diwydrwydd, masnach, llenyddiaeth, a gallu hunan-lywodraethol.

Mewn cysylltiad â chyflwr cymdeithasol y wlad hon, dywed Mr. Joseph Cook: "Deugain mlynedd yn ol, ni ellid prynu llyfr yn Athen; heddyw, y mae un o bob deunaw o holl drigolion Groeg yn yr ysgol! Mae haner can' mlynedd o annibyniaeth wedi dyblu poblogaeth Groeg, cynyddu ei chyllid i 500 y cant, ei llynges o 440 i 5,000 o longau; agor wyth porthladd, sylfaenu un-ar-ddeg o ddinasoedd newyddion, adferyd deugain o hen bentrefi adfeiliedig, ac estyn cysylltiadau pellebrol drwy yr holl deyrnas. Mae Athen wedi new-

id o fod yn faesdref o dwlcliau neu fwthynod, i ddinas orwych o 60,000 o drigolion; ac y mae ynddi balas breninol a deddfwneuthurfa; chwech o *type foundries*, deugain o argraffdai, ugain o newyddiaduron; arsyllfa seryddol; prif ysgol, gyda haner cant o athrawon, a deuddeg cant o ysgolheigion yn derbyn addysg."

"Haner can' mlynedd yn ol, yr oedd Groeg yn gaethes a chardoten; heddyw saif, yn ol barn ac ystadegau ei gelynyon, y flaenaf o'r cenedloedd hunan-ddysg."—*Orthodoxy*, p. 126.

Yr hyn sydd yn cyfrif am y cyfnewidiad yw, ei hymryddhad oddiwrth iau Mahomet a'r Twrc, a'i derbyniad o iau Cristionogaeth. Newidiwyd y dylanwad, a newidiodd ymddangosiad cymdeithas.

### *Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth.*

Yr ydym wedi dangos fod Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn fuddugoliaethus a bendithlawn yn mhob gwlad ag sydd wedi ei deimlo. Y mae yn ofynol i ni roi y darlennydd ar ei wylidwriaeth rhag syrthio i'r un camgymeriad pwysig ag sydd wedi tywys llawer un i daflu baw ar draws Tywysoges y nef, a myned eu hunain i ganol anffyddiaeth. Mae llawer yn gwisgo yr enw o Gristion



ag sydd yn hollol annheilwng o hono. Y mae dau ddosbarth lluosog yn rhestru eu hunain yn rhengoedd Cristionogaeth—y Pabyddion a'r Protestaniaid. Y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng y ddau ddosbarth hyn, a rhwng eu dylanwad ar gymdeithas yn gyffredin. Credwn fod Protestaniaeth yn fwy Cristionogol nag yw Pabyddiaeth. Er nad ydym yn hawlio perffeithrwydd Cristionogol i Brotestaniaeth, eto dyna yr adran grefyddol agosaf i'r hanfod ei hunan. A phan ydym yn son am Gristionogaeth, golygwn Gristionogaeth bur, neu y debycaf iddi—Protestaniaeth.

Yn awr, cawn sylwi ar y gwahaniaeth sydd rhwng dylanwad cymdeithasol Protestaniaeth a dylanwad cymdeithasol Pabyddiaeth. Cym-erwn awdwr dysgedig o Liège, Belgium, yn gynorthwywr, ac yn ngoleuni ei farn a'i brofiad ef gallwn ddyweyd, ei fod yn gyfaddefiad cyffredinol mai gwasgariad gwybodaeth yw amod cyntaf cynydd. Dysgeidiaeth yw sylfaen rhyddid a llwyddiant cenedloedd. Mae pob gwlad Brotestanaidd yn arwain mewn gwybodaeth, heb ond ychydig neu ddim o rai anllythyrenog o'u mewn. Er engraifft, dyna y Saxoniaid, Denmarkiaid, Swedeniaid, a'r Prwssiaid ; tra y mae gwledydd Pabyddol yn

mhell yn ol, gyda o leiaf un ran o dair o'r boblogaeth yn anllythyrenog, fel yn Ffrainc a Belgium; neu un ran o bedair, fel yn Spaen a Portugal. Cymerer Switzerland yn esiampl. Mae rhanau Neuchatel, Vaud, a Geneva, yn Brotestanaidd; ac y maent lawer o flaen Tessin, Valais, a Lucerne, lle y mae y Pabyddion yn y mwyafrif. Yr achos yw, y Beibl. Rhaid, felly, i Brotestanaidd yn gyntaf ddarllen. Gair cyntaf ac olaf Luther oedd, "Dysgwch y plant; mae yn ddyledswydd llywodraethwyr a rhieni; y mae yn orchymyn Duw." "Daeth tyngedion Ffrainc a Lloegr yn hollol wahanol ar ol yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, pryd y gorchfygodd y Puritaniaid yn Lloegr"—goruchafiaeth i Brotestaniaeth oedd hon—"ac y gyrodd Louis XIV. y diwygwyr o Ffrainc." Llwyddodd Lloegr mewn moesoldeb, dysg, a masnach, tra y goddiweddwyd Ffrainc â dinystr ac aflwyddiant yu y pethau hyn. Y mae yr Ysgotiaid a'r Gwyddelod o'r un dechreuad cenedlaethol, a'r ddwy genedl dan lywodraeth Lloegr. Hyd yr unfed-ganrif-ar-bymtheg, yr oedd y Gwyddelod yn fwy gwaraidd na'r Ysgotiaid. Ond wedi i'r Ysgotiaid dderbyn y grefydd ddiwygiedig, Protestaniaeth, y maent wedi curo hyd yn nod y Saeson eu hunain. Y

mae Macaulay yn dyweyd fod Ysgotland o flaen Lloegr yn mhob peth yn yr ail-gaurif-arymtheg. Ond y mae yr Iwerddon, o'r tu arall, yn glynu wrth Babyddiaeth, ac y mae yn dlawd a thruenus, ac yn gythryblus gan ysbryd gwrthryfel; ac, yn ol pob tebyg, yn analluog i adenill ei hannibyniaeth gwladol, er ei bod yn rhy ddall i weled hyny.

Ceir darlun o'r un natur wrth edrych ar Connaught Babyddol, lle ag sydd yn ddarlun o eithafion trueni dynol mewn gwlad war-eiddiedig, tra y mae Ulster Brotestanaidd, yn gyfoethog gan ddiwydrwydd. Y mae yr un ffaith yn dod i'r golwg wrth gydmaru gwahanol genedloedd mewn gwahanol gysylltiadau. Dyna y Cymry a'r Gwyddelod, dwy genedl o'r un gwreiddyn yn perthyn i'r un llywodraeth, yn byw yn yr un hinsawdd, ac yn yr un cyfnod; ond mor wahanol yw cyflwr cymdeithasol y naill i'r llall! Mae Cymru yn baradwys o'i chydmaru a'r Iwerddon, er mai y wlad olaf yw y brydferthaf yn naturiol. Ac nis gall dim gyfrif am ragoriaeth Cymru, a gwaelder yr Iwerddon, mewn ystyr gymdeithasol, ond fod y Cymry yn Brotestaniaid, a'r Gwyddelod yn Babyddion. Ceir, hyd yn nod yn yr un wlad, ac yn yr un genedl, dan Babyddiaeth a

than Brotestaniaeth, fod y rhan Brotestanaidd yn ddysgedig, bywiog, cyfeillgar, ac mewn cymod a'r byd tu allan, tra y mae y rhan Babyddol yn dlawd, diog, anwybodus, a chwerylgar, fel dau barth Rhodes. Rhaid, gan hyny, mai crefydd, ac nid hinsawdd, penglog, neu genedl, sydd yn achosi y gwahaniaeth a welir mor amlwg yn nghyflwr cymdeithasol gwahanol wledydd a chenedloedd."—*Emile DeLaveleye*.

Cyn galwad yn ol "The Edicts of Nantes," yr oedd y Protestaniaid yn tra rhagori ar y Pabyddion mewn diwydrwydd a llwyddiant masnachol. Methai y Pabyddion gynal eu hunain wrth gyd-ymgeisio ar dir agored llafur a masnach, tra yr oedd y Protestaniaid yn byw yn fras, ac yn cyfoethogi, a hyny yn deg.

Yn y flwyddyn 1662, gorfu i'r Protestaniaid ffoi i Lloegr, Prwssia a Holland. Aethant yn llawn o ysbryd diwydrwydd a chynildeb. Cyfoethogasant y rhandiroedd lle y sefydlasant ynddynt. Ac iddynt hwy, yn benaf, y mae Lloegr yn ddyledus am lawer o'i llaw-weithfaoedd a'i chynydd. Dysgyblion Calvin hefyd wareiddiodd Ysgotland.

Gofynwyd, "Paham y mae chwildroadau y *Low Countries*, a Lloegr, a'r Unol Dalaethau,

wedi llwyddo yn eu hamcanion, tra y mae eiddo Ffrainc wedi methu?" I hyn yr atebodd yr enwog Guizot: "Nid wyf yn petruso ateb, mae yr achos yn y ffaith mai gwledydd Protestanaidd oedd y blaenaf, tra mai gwlad Babyddol oedd yr olaf."

Mae yn eglur mai llywod-ddysg naturiol Protestanaiaeth yw llywodraeth gynrychiol-ddol; ond un unbenaethol yw eiddo Pabyddiaeth. Mae Cristionogaeth yn cynyg deongliad i ofyniadau cymdeithasol a barant i lafurwyr a chyfalafwyr i ymrysoni â'u gilydd, sef gwasgu y syniad o frawdoliaeth a hunan-ymwadiad ar y ddau ddsbarth. Y mae pregethu yr efengyl yn ei phurdeb yn tywys i deyrnasiad hyfryd cyfiawnder."—*Emile De Laveleye*.

Pan gofion mai brenines Brotestanaidd oedd Elizabeth, gwelwn briodoldeb y dyfyniad canlynol yma: "Yn amser teyrnasiad y Frenines Elizabeth, yn Lloegr, yr oedd y bobl wedi dadebru i ddiwylliant rhyfeddol. Newidient eu tai gwael cleiog a phlethedig am rai o bridd-feini, neu o geryg; a'u llestri coed am rai pewter neu arian. O'r pryd hwn y cododd y syniad uchel ag sydd yn awr yn gyffredin a neillduol i'r Saeson, o *gysur* teuluaid. Ddrefnid y tai yn gyfleus, defnyddid gobenydd-

ion plu yn lle rhai pren, a llawr-leni yn lle gwellt a hesg. Caniateid rhyddid cydwybod i bob dyn. Peidiodd erledigaeth grefyddol. Yr oedd gofidiau cymdeithasol a achosid gan grwydriaid ac ymosodwyr yn araf ddiflanu o'r wlad. Yr oedd y trethi yn ysgafn, y tlodion yn cael nawdd-dai i'w hymgeleddu, a'r wlad yn cael ei llywyddu yn heddychol a sefydlog.” —*Green's History of the English People.*

### *Hirhoedledd a Phrotestaniaeth.*

Mae Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth Brotestanaidd yn dod i'r golwg yn y mynegiad canlynol yn ffafr hirhoedledd dyn. Gwnaed y mynegiad ar gais Bwrdd Iechyd Massachusetts, gan Dr. Jarvis: “Cyn y diwygiad mawr crefyddol yn Ewrop, cyfartaledd oed yn Geneva oedd 21.21; rhwng 1814 ac 1833, yr oedd yn 40.68. Mae cynifer yn byw yn awr i 70 ag oedd yn byw i 40 dri chan' mlynedd yn ol.”

“Cafwyd hefyd fod yn Mhrydain wahan-iaeth mawr yn hirhoedledd y bobl ar ol y Diwygiad i'r hyn oedd cyn hyny. Yn 1693, yr oedd 20,000 o'r ddau ryw yn marw dan 28 mlwydd oed; tra yn mhen llai na chan' mlynedd wedi y Diwygiad Protestanaidd, nid oedd

ond 12,188 o'r ddau ryw yn marw dan yr un oed (28).”—*Draper's Conflict Between Religion and Science.*

Mae y ffigyrau hyn yn profi yn eglur fod y grefydd Brotestanaidd yn llesol i fywyd dyn; ac felly yn fendith i gymdeithas. Gwyr y bedwaredd-ganrif-ar-bymtheg fwy am grefydd na'r holl ganrifoedd eraill i gyd. Mae mwy o garedigrwydd yn y byd yn awr nag a fu erioed o'r blaen. Mae mwy o feddwl, mwy o ddarllen, a mwy o ddeall nag fu o'r blaen. Mae menyw yn fwy gogoneddus, uchel a phwysig yn ngolwg cymdeithas yn awr nag y bu hi erioed. Y mae mwy o deuluoedd dedwydd, mwy o blant yn cael eu magu a'u meithrin fel blaguriadau tyner a gwerthfawr yn awr nag erioed. Beth sydd yn achos o'r cyflwr dymunol hwn wrth ei gydmaru â chyflwr yr amser gynt? Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth Brotestanaidd. Onid yn y ganrif hon y mae Cristionogaeth yn fwyaf dylanwadol? Onid Cristionogaeth sydd yn dyrchafu y rhyw deg a'r plant? Onid egwyddorion Cristionogaeth sydd wedi effeithio, ac yn effeithio, y cyfnewidiadau dymunol a welir yn yr oes hon? Pwy feiddiai roi ateb nacaol i'r gofyniadau hyn ar ol darllen y ffeith-

iau a osodwyd ger bron yn y traethawd hwn? Rhaid i'r darllenydd gonest ateb y gofyniadau yn gadarnhaol.

Mae y dysgedig Dr. Dorchester yn ein cynysgaeddu a'r ffigyrau canlynol, y rhai ydynt werthfawr i ddangos i ni

*Gynydd Cristionogaeth.*

Cyfyngwyd Cristionogaeth o'r hedwaredd neu y bumed ganrif hyd y bymthegfed ganrif i Ewrop braidd yn gwbl. Nifer proffeswyr Cristionogaeth yn y byd yn y drydedd ganrif oedd 5,000,000. Yn yr wythfed ganrif, rhifent 30,000,000; yn y ddegfed ganrif, 50,000,000; yn y bymthegfed ganrif, 100,000,000; yn 1880, yr oeddent yn 410,910,000. Sylwer eto ar ddosbarthiad o'r rhai hyn: Yn 1500, yr oedd y Pabyddion yn rhifo 80,000,000; eglwys Groeg, 20,000,000, a dim Protestaniaid; a gwyr pawb ydynt hysbys mewn hanesyddiaeth fod y byd yn dywyll iawn yr adeg hono, a chymdeithas yn druenus o isel. Yn 1880, yr oedd y Pabyddion yn rhifo 209,200,000; eglwys Groeg, 88,000,000; a'r Protestaniaid yn 113,700,000. Saif eu cynydd er y fl. 1830 fel hyn: y Pabyddion, 80 y cant; eglwys Groeg 20 y cant; a'r Protestaniaid 176 y cant. Gwelir wrth hyn mai



Protestaniaid sydd wedi cynyddu fwyaf o lawer; felly dyna yr elfen lywodraethol, ac iddi hi y dylid priodoli y cynydd a'r diwygiad a neillduolant oes ei theyrnasiad. Allan o'r 52,000,000 o filldiroedd petryal o arwynebedd y ddaear, y mae 32,000,000 o honynt dan lywodraethau Cristionogol, a 20,000,000 dan lywodraethau paganol, neu Fahometanaidd. Eto dosberthir y rhai hyn: Protestaniaid yn llywodraethu ar 14,500,000 o filldiroedd petryal; eglwys Groeg, ar 8,500,000; ac eglwys Rhufain, ar 9,500,000. Nid yw Ffrainc, Itali, a Mexico, yn y cyfrifon hyn, am eu bod mewn cyflwr trawsffurfiol.

Mewn cyfarfod cenadol yn Chicago, yn 1881, dywedodd Dr. C. H. Fowler: "Yn y pedwarugain mlynedd diweddaf, cynyddodd siaradwyr Saesoneg 337 y cant. Yn mhlith y rhai hyn, cynyddodd y Pabyddion 140 y cant; y Protestaniaid 420 y cant, a'r Rhesymlwyr lai na phum' ugain y cant." Mae y ffigyrau hyn yn cyfleu y ffeithiau canlynol: Mae Protestaniaeth yn cynyddu yn rhyfeddol iawn, yn fwy cyflym na'r iaith Saesoneg ei hunan! mwy na thri chymaint a Phabyddiaeth; ac nid yw cynydd Anffyddiaeth, neu Resymoliaeth, yn werth cydmariaeth. Ac eto, yn mhlith y siar-

adwyr Saesoneg, y mae gwybodaeth, cynydd, rhyddid, a moesoldeb, yn blodeuo fwyaf; yma hefyd y mae syniadau gwerinol yn enill tir—Prydain a'r Unol Dalaethau yn esiamplau o hyn. Ac y mae yn eglur fod Cristionogaeth a rhyddid yn sefyll yn y berthynas o achos ac effaith. Yr un modd Protestaniaeth, a gwybodaeth a chynydd cyffredinol. Mae genym awdurdod uchel Dr. M. B. Anderson, Llywydd Prif Athrofa Rochester, N. Y., dros'ddyweyd a ganlyn: "Fel ag y mae pob cyfundrefn o gyfreithiau gwladol yn eu ffurfiad a'u tyfiant yn mabwysiadu syniadau neu gyfreithiau moesol y bobl, i'r rhai y ffurfir rheolau llywodraethol, felly y mae cyfraith gyffredin Lloegr a'r Unol Dalaethau wedi cymeryd i mewn iddi ei hun egwyddorion moesol Cristionogaeth. O ganlyniad, y gyfundrefn Gristionogol yw y ffynonell foesol o'r hon y tarddodd y rhan helaethaf o'n cyfraith gyffredin anysgrifenedig, yn ogystal a'n cyfraith ysgrifedig. Yn yr ystyr hwn, y mae Cristionogaeth yn cyfranu yn helaeth ryfeddol i'r gyfraith gyffredin; ac hefyd i'r gyfundrefn Justinaidd, a chyfundrefnau cyfreithiol yr holl fyd Cristionogol."

Yn awr, yn ngwyneb yr holl ffeithiau a

nodwyd, a'r tystiolaethau a ddyfynwyd, gwelir yn amlwg fod Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn dda iawn, a helaeth iawn. Os yw Col. Ingersoll yn gallu mawrhau dywediadau paganiaid, fel y rhai canlynol: "Oni chofiwch fod eich gweision wrth natur yn frodyr i chwi, plant duw? Wrth ddyweyd eich bod wedi eu prynu, yr ydych yn edrych i lawr ar y ddaear, ac i'r pwll, ar ddeddf greulon dyn sydd wedi marw er's amser maith; ond nid ydych yn gweled cyfreithiau y duwiau."—*Epicetetus*.

Yr oedd Seneca yn cymell sylw at dynerwch troseddwy'r ieuainc ac anwybodus, ac yn dadleu dros ddefnyddio moddion cymedrol er eu diwygio, yn hytrach na'u cosbi fel y cosbid eraill. Dadleuai Zeno dros ryddid personol i bob dyn; a Brahma a gefnogai y syniad o un gwrthdych addoliad i'r holl hif ddynol, a gosodai ei hunan allan yn dduw i bawb. Mae Mr. Ingersoll yn gwneyd llawer iawn o sylw a pharch o'r syniadau yna, gan fawrhau a dyrchafu eu hawduron. Yn awr, os ydyw y personau a'r syniadau yna yn haeddu clod, onid yw yn deg i Grist Iesu a Christionogaeth gael clod am ddweyd a dysgu yr holl bethau yna, a llawer mwy, er lles a dyrchafiad dynoliaeth?

Nid yw fod eraill wedi dysgu rhai o egwyddorion Cristionogaeth cyn i Crist ddyfod i'r byd yn profi mai cynyrch y natur ddynol ydynt. Mae pob peth da, a phob rhodd berffaith yn dyfod oddiwrth Dad y goleuni. Nid drwy ddadguddiad allanol yn unig y mae Duw yn dysgu dynion, eithr hefyd drwy natur a chydwybod. Y mae pethau da y paganiaid yn bethau deilliedig o ewyllys yr Anfeidrol. Mae Crist yn dysgu rhyddid, a daeth i ryddhau caethion tymorol ac ysbrydol. Mae Cristionogaeth yn gweithio yn llwyddianus dros ryddid, fel ag yr ydym eisoes wedi dangos. Mae Crist yn ewyllysio diwygio trosedd-wyr yn hytrach na'u cosbi; ac y mae wedi marw dros bawb, "fel na choller pwy bynag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tra-gywyddol;" mae wedi gorchymyn myned i'r holl fyd, a dysgu yr holl genedloedd.

Nid oes un egwyddor dda, un rhinwedd ymarferol, nac un syniad dyrchafol wedi dod o enau dyn erioed nad yw yn cael ei chynwys yn lleferydd yr Hwn na lefarodd neb erioed fel efe. Felly, paham y dirmygir Cristionogaeth, a hithau yn cefnogi mor wresog a buddugoliaethus y syniadau a brisir mor fawr hyd yn nod gan Mr. Ingersoll, ei gelyn? Mae

Cristionogaeth yn dysgu dynion i barchu hena-int, ac i ddarparu nawdd-dai i'r tlawd, yr amddifad, y methodig, a'r claf.

Ni ddarfu i un o'r miloedd cyfoethogion yn Rhufain erioed sefydlu cartref i'r hen, a'r tlawd, neu feddygdy i'r claf, er fod heidiau o'r creaduriaid angenus hyn mewn angen lleoedd o'r fath yno. Ystyriai hyd yn nod yr Iuddewon yn amser Crist, dlodi yn arwydd o gosb'am bechod personol. Ond y mae Cristionogaeth yn mhob gwlad o'i heiddo yn codi elusendai, meddyg-dai, a phob math o nawdd-dai i gyfarfod âg angen yr hen a'r methodig, y tlawd a'r anafus, y mud a'r byddar, heb anghofio y gwallgof-ddyn.

Gofynwyd i Col. Ingersoll nodi allan un sefydliad addysg neu elusengar o unrhyw fath ag oedd wedi cael ei sefydlu, neu yn cael ei gynnal gan anffyddwyr America. Ond methodd ag enwi cymaint ag un! Er hyny, y mae canoedd o sefydliadau o'r fath wedi cael eu sefydlu yn ein gwlad yn y can' mlynedd diweddaf, ond oll gan gefnogwyr Cristionogaeth. "Wrth eu ffrwythau yr adnabyddwch hwynt." Pe buasai cymdeithas yn gorfod ymddibynu ar ddylanwad anffyddiaeth a rhyddfedyliaeth, beth fuasai ei chyf-

lwr? Beth ddelasai o'r hen a'r methodig, y claf a'r anafus? Buasent yn awr fel ag yr oeddent yn yr amser gynt yn cael eu taflu naill ochr i farw, neu eu gadael fel y dyn hwnw wrth lyn Bethesda, yr hwn a fu yno am flynyddoedd lawer heb neb yn tosturiog wrtho i'w fwrw i'r llyn i gael gwellhad!

Yn awr, os yw deddf Y trechaf treisied, *Survival of the fittest*, yn wirionedd, fel yr ymddengys ei bod i raddau pell, mae y ffeithiau blaenorol yn awgrymu llawer iawn am gryfder a chyfaddasrwydd Cristionogaeth i'r teulu dynol. Os mai y lleiaf ei nerth a'r un anghyfaddasaf i fod, sydd yn cael ei orchfygu gan y mwyaf ei rym a'r cyfaddasaf i fyw, sicr yw fod Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth yn fawr a chyfaddas iawn i'n cyflwr ar y ddaear. Hefyd os yw deddf "Pob peth a gynyrcha ei ryw," ac a ddwg bob peth i'w ffurf ei hun, yn gywir, fel y mae yr haul yn boeth ac yn peri i'r hyn y daw ei ddylanwad i gysylltiad ag ef i gyfranogi o'r un elfen ac ansawdd boeth; hefyd oerfel rhewllyd yn effeithio i ddwyn pob peth y dylanwada arno i'w ansawdd oer a rhewllyd ei hun; os yw y ddeddf hon yn gweithredu mewn cymdeithas, rhaid fod Dylanwad Cymdeithasol Cristionog-

aeth yn enill y byd i'w ffurf a'i ansawdd ei hun, o herwydd "y mae pren da yn dwyn ffrwythau da." Felly y mae "Pren y bywyd" yn dwyn y ffrwyth o fywyd i'r byd.

Os nad yw Cristionogaeth yn ddrwg, nis gall ei dylanwad fod yn ddrwg; os yw hi yn dda, mae ei dylanwad yn dda. Mae hanes cenedloedd a gwledydd yn profi fod egwyddorion Cristionogaeth yn "had da," yr hwn a dafwyd i'r ddaear gymdeithasol yn mhregethiad o'r efengyl i'r holl genedloedd. Ac efsydd yn achos o'r cynyrch gwybodaethol a ddilyna ei blaniad yn mhob gwlad. Ymddengys i mi fod dysgu yr holl genedloedd i gadw pob peth a orchymynodd Iesu, yn osodiad hadau yn y meddwl dynol ag ydynt yn tyfu yn gynhauaf toreithiog o foesoldeb aruchel, rhinweddau urddasol, tueddion rhyddfrydig, gwybodaeth eang, ac addoliad gwirioneddol i'r unig wir a'r bywiol Dduw.

## PENNOD VIII.

*Y modd y mae Dadblygu Dylanwad Cymdeithasol Cristionogaeth.*

Y mae darpariadau yn y grefydd Ddwyfolf hon er ei llwyddiant. Nodwn ychydig o bethau buddiol.

*Dysgu yr Egwyddorion.*

Rhaid gwneyd egwyddorion pur Cristionogaeth yn adnabyddus a dealedig i'r byd. Mae hyn yn ddyledswydd arbenigol ar bob Cristion; ac y mae miloedd yn ei deimlo yn ddyledswydd ac yn anrhydedd i gael gweithredu i'r amcan bendigedig hwn, gyda a thrwy y cymdeithasau cenadol. "Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur." Marc 16 : 15. "Ewch, gan hyny, a dysgwch yr holl genedloedd." Math. 28 : 19. "Ffydd sydd drwy glywed, a chlywed trwy Air Duw." Rhuf. 10 : 17. Felly dymuniad a gorchymyn Cristionogaeth yw rhoi gwybodaeth o honi fel y mae i bawb o bobl y byd.

*Byw Cristionogaeth.*

Ond y mae ffordd fwy effeithiol, a chadarnach tystiolaeth na dysgu yr egwyddorion i er-



aill, i gael rhan bwysig yn nadblygiad Dylanwad Cristionogaeth. Y mae gweithredoedd yn llefaru yn uwch na geiriau. At hyn y cyfeiria yr Athraw pan yn dyweyd wrth ei ddysgyblion, "Chwi yw halen y ddaear; eithr o diflasodd yr halen, â pha beth yr helltir ef? ni thal efe mwy ddim ond i'w fwrw allan, a'i sathru gan ddynion." "Chwi yw goleuni y byd. Dinas a osodir ar fryn, ni ellir ei chuddio. Ac ni oleuant ganwyll i'w doddi dan lestr, ond mewn canwyllbren, a hi a oleua i bawb sydd yn y ty. Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Math. 5: 13—17. Eto, "Er nad ydych yn credu i mi, credwch y gweithredoedd." Ioan 10: 38.

Ni ellir gosod gormod o bwys ar allu bywyd y credadyn yn ei ddylanwad ar y byd. Y mae ymarweddiad y Cristion yn mhob oes o'i eiddo wedi cael ei gyfrif y dystiolaeth alluocaf i wirionedd yr efengyl, a gall yn awr fod yn effeithiol lle y metha pob moddion arall.

Dywed Neander: "Eglurwyd y gallu dwyfol hwn o eiddo yr efengyl i'r paganiaid yn mywyd ac ymarweddiad y Cristionogion, y rhai a ddangosent rinweddau yr hwn a'u

galwodd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef, y rhai a rodient fel plant Duw yn mhlith cenedlaeth drofaus, yn mysig y rhai y llewyrchent fel goleuadau yn y byd. Yr oedd cyhoeddiad fel hyn o'r etengyl, drwy fywyd, yn gweithio yn fwy effeithiol na chyhoeddiad drwy bregethiad y gair."

Dywedai Tertullian wrth y paganiaid: "Y mae llawer yn eich plith yn cymell eraill i ddyoddef poen a marwolaeth, sef dynion fel Cicero, Seneca, a Diogenes; er hyny, nid yw eu geiriau yn cael cynifer o ddysgyblion ag y ca y Cristionogion, y rhai a ddysgant drwy weithredoedd."

Cawn Justin Martyr yn dyweyd: "Pan oeddwn yn efrydu athrawiaeth Plato, ac y clywais y Cristionogion yn cael eu henllibio, ond yn dyoddef pob peth ag sydd a dychryn ynddo, ac hyd yn nod angeu ei hun, yna bernais ei fod yn anmhosibl iddynt fyw mewn drygioni ac anlladrwydd."

Y mae yr enwog Dr. Christlieb yn awdwr i'r syniadau hyn: "Tra y byddom ni yn ddiffygiol mewn bywyd moesol, Cristionogol, ac ysbrydol, ni bydd amheuwyr a gwawdwyr yn brin, i wadu a diraddio ein ffydd. Yn erbyn y fath wrthwynebwyr, yr ymresymiad

cadarnaf, a mwyaf tebyg o gario argraff argyhoeddiadol yw, bywyd moesol ac ymarferol y Cristionogion yn profi ynom a thrwom rym ei adgyfodiad ef.”—*Modern Doubt*.

Cawn hanes am genadon yr efengyl yn teithio drwy ranau o China, lle yr oedd newyn du; aent a bwyd i'r dyoddefwyr. Pan welodd y Chineaid yr hunan-aberthiad yma, daethant i goleddu meddyliau ffafriol iawn am y cenadon, wrth eu cydmaru a'u hathrawon hwy. Bu hyn yn foddion i arwain y bobl yn eu rhanbarth hwy i gysegru eu teml i Dduw y Cristionogion; ac ar ol dinystrio eu delwau, rhoddasant weithred (*deed*) i'r cenadon yn trosglwyddo y deml yn gyfreithiol yn addoldy Cristionogol am byth.—*Am. Add. to Cham. Enc., Vol. III., 710.*

*Dylanwad Argyhoeddiad Llwyf—Cydwytbod yn Gweithio.*

Os ydys am i Gristionogaeth gario dylanwad ar gymdeithas, dylid *traethu* ac *arferyd* ei dysgeidiaeth yn *gydwytbodol*—traethu a hyw am ein bod yn llwyf argyhoeddedig o wirionedd y mater: “Credais, *am hynny* y lleferais.”

Cawn fod athronwyr yn amser Crist yn llawn amheuaeth o'r gyfundrefn a ddysgent,

ac ni allent guddio eu hamheuaeth. Yr oedd y dewiniaid yn methu dal wrth ymholi â'r arwyddion, a'u hegluro, heb chwerthin yn ngwyn-ebau eu gilydd, a thrwy hyny nid oedd ond gobaith gwan yn aros i grefydd gyffredin Rhufain fyw yn hir. Mae eisiau i Gristionogion ddangos eu hargyhoeddiad yn eu sêl a'u brwdfrydedd. Dylid dyfod â difrifoldeb a brwdfrydedd yr *actor* i'r pwlpudd; cyfleu pob syniad fel pe y gwirionedd pwysicaf, a'r weithred olaf o'n heiddo yn myned i dragwyddoldeb.

*Ymlynu wrth y Gwirionedd.*

Gwirionedd yw Cristionogaeth; ac i'r dyben o ddwyn y gwirionedd yma i gael ei deimlo yn allu trawsffurfiol, rhaid chwilio yn ddyfal am dano, gan ymwrthod â phob peth dynol a gysylltir ag ef. Glynw wrth y gwirionedd er gorfod newid barn a'r dull o osod y gwirionedd allan; cymeryd pob gwirionedd yn y gol-eu egluraf. Rhaid colli llawer o hen syniadau a dderbyniwyd oddiwrth y tadau i'r dyben o fod yn fwy cyson â dysgeidiaeth bur y Testament Newydd. Mae hen chwedl yn rhedeg yn debyg i hyn: "Torodd tân allan mewn gwinllan. Gofidiai y bobl yn fawr. Ond wedi

i'r gwinwydd gael eu llosgi, gwelwyd fod y tân wedi bod yn foddion i ddangos gwythienau cyfoethog o arian yn y creigiau lle y tyfai y gwinwydd. Mae beirniadaeth deg yn llosgi ymaith draddodiodau a hen gredoau crefyddol, ond wrth hynny yn dadblygu gwythienau euraidd y nef—gwirioneddau gwerthfawr Cristionogaeth, oeddent yn gorwedd yn guddiedig pan ffurfiwyd y credoau hyn.

Boed Duw yn rhwydd i Gristionogaeth bur, a choroner ei hymdrech a llwyddiant cyffredinol yn ein byd, ac yna bydd cymdeithas yn baradwys, a'i deiliaid oll yn ddedwydd.

**DIWEDD.**

78  
82













